

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWILGYMDEITHASOL:

20/2018

DYDDIAD CYHOEDDI:

18/04/2018

Gwerthusiad o Brentisiaethau SHELL 2015 - 2019: Adroddiad Interim

Gwerthusiad o Brentisiaethau SHELL 2015 - 2019: Adroddiad Interim

Rowan Foster, Aoife Ni Luanaigh, Sam Morris, Christabel Downing a Jonnie Felton, IFF Research



Yr ymchwilwyr sy'n mynegi eu barn yn yr adroddiad hwn ac nid yw Llywodraeth Cymru o anghenraid yn rhannu'r un farn â'r ymchwilwyr

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Kimberley Wigley

Gwasanathau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 062 8788

E-bost: Kimberley.Wigley@llyw.Cymru

Tabl y cynnwys

Rhestr o'r ffigurau	2
Talfyriadau	Error! Bookmark not defined.
Rhestr Termau	Error! Bookmark not defined.
1. Crynodeb Gweithredol.....	5
2. Cyflwyniad.....	12
3. Cynllun y Rhaglen	16
4. Darpariaeth a Gweithrediad y Rhaglen	26
5. Perfformiad y Rhaglen.....	33
6. Effeithiau'r Rhaglen	51
7. Casgliadau	57
8. Argymhellion	62
Cyfeiriadau.....	65
Atodiad A – Model Rhesymeg y Rhaglen Brentisiaethau.....	66
Atodiad B – Cyfrifo targedau	67
Atodiad C – Deunyddiau ymchwilio.....	70

Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 5.1	Targed: Y ddarpariaeth brentisiaethau gyfan, wedi ei mynegi yn nhermau cofrestriadau bob mis.....	34
Ffigur 5.2	Nifer y prentisiaethau: y cynnydd tuag at daro targed Cynllun Busnes Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)	35
Ffigur 5.3	Nifer y cofrestriadau prentisiaeth bob mis, o'i gymharu â'r lefel sydd ei hangen i gyflawni targed Cynllun Busnes yr ESF	36
Ffigur 5.4	Targed: Cyfraddau cyflawniadau'r fframweithiau	37
Ffigur 5.5	Canran y cofrestriadau prentisiaeth ar bob lefel, dros amser.....	38
Ffigur 5.6	Canran y cofrestriadau prentisiaeth ymhob grŵp oedran, dros amser.....	40
Ffigur 5.7	Targed: Dysgwr yn nodi bod ganddynt gyfrifoldebau gofal plant: yn ôl y flwyddyn, y gweithrediad a'r lefel	41
Ffigur 5.8	Targed: Dysgwyr yn cyflwyno fel benywod: yn ôl y flwyddyn, y gweithrediad a'r lefel	43
Ffigur 5.9	Targed: Dysgwyr yn eu huniaethu eu hunain ag ethnigrwydd wedi'u categoreiddio fel Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn ôl y flwyddyn, y gweithrediad a'r lefel	44
Ffigur 5.10	Targed: Dysgwyr yn adrodd am anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gwaith yn ôl y flwyddyn, y gweithrediad a'r lefel.....	45
Ffigur 5.11	Prentisiaethau: y mae darparwyr yn adrodd eu bod yn cael eu darparu'n ddwyieithog yn ôl y flwyddyn, y gweithrediad a'r lefel	47
Ffigur 5.12	Targedau canran drwy'r rhaglen gyfan o gynlluniau busnes: crynodeb o ganlyniadau	49

Talfyriadau

Talfyriad	Yr enw llawn
BME	Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig
CITB	Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu
DU	Y Deyrnas Unedig
EDMS	System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd
EPF	Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd (ESF)
EPS	Arolwg Safbwyntiau Cyflogwyr
ESF	Cronfa Gymdeithasol Ewrop
ESW	Sgiliau Hanfodol Cymru
EU	Yr Undeb Ewropeaidd
LLWR	Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru
LMI	Gwybodaeth am y Farchnad Lafur
NEET	Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant
NTfW	Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
NUTS	Enwau Unedau Tiriogaethol at Ddibenion Ystadegaeth
RLSP	Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol
SHELL	Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
SO	Amcan Penodol (ESF)
STEM	Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg
WBL	Dysgu Seiliedig ar Waith
WEFO	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
WG	Llywodraeth Cymru

Rhestr termau

Term	Diffiniad
Prentisiaeth	Fframwaith ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith, yn cynnwys nifer o gymwysterau sydd, o'u cymryd ynghyd, yn darparu sgiliau a chymwysterau sy'n briodol ar gyfer rôl neu rolau swydd. Rhoddir hon i weithiwr cyflogedig, drwy gyfuniad o ddysgu yn y gweithle ac addysgu gan ddarparu hyfforddiant. Mae bod yn brentis yn golygu bod gennych swydd lle byddwch yn ennill cymwysterau cydnabyddedig ac yn dysgu sgiliau hanfodol tra byddwch yn gweithio ac yn ennill cyflog.
EDMS	System Rheoli Data Ewropeaidd; cronfa ddata sy'n tynnu gwybodaeth at ei gilydd sy'n ofynnol i dynnu cyllid Ewropeaidd i lawr yng Nghymru (gwelwch Atodiad B i gael rhagor o fanylion)
ESF	Cronfa Gymdeithasol Ewrop; asiantaeth i'r Undeb Ewropeaidd sy'n cyllido prosiectau yn ymwneud â chyflogaeth ledled yr Undeb Ewropeaidd
ESW	Sgiliau Hanfodol Cymru; cyfres o gymwysterau a luniwyd i asesu'r ystod o sgiliau y mae dysgwyr eu hangen ar gyfer llwyddo mewn dysgu, cyflogaeth a bywyd. Maent yn darparu un ysgol o gynnydd, yn estyn dros chwe lefel ac yn cynnwys cymwysterau mewn rhif, cyfathrebu, llythrennedd digidol a chyflogadwyedd.
LLWR	Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru; cronfa ddata sy'n cofnodi manylion yr holl ddysgu Addysg Bellach sy'n digwydd yng Nghymru, yn cynnwys Dysgu Seiliedig ar Waith megis Prentisiaethau (gwelwch Atodiad B i gael rhagor o fanylion)
RLSP	Partneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol; grŵp o dri chorff rhanbarthol yng Nghymru, yn cynnwys cynrychiolaeth gan lywodraeth, cyflogwyr a darparwyr dysgu, sydd â'r dasg o ddadansoddi heriau economaidd a mannau lle mae tyfiant yn debygol er mwyn canfod y sgiliau sydd eu hangen yn y gweithle.
WBL	Dysgu Seiliedig ar Waith; gweithwyr cyflogedig sy'n derbyn hyfforddiant a fydd yn arwain at gymwysterau trosglwyddadwy cydnabyddedig yng nghyd-destun y gweithle, gyda chyfranogaeth a/neu ganiatâd gan y cyflogwr, yn cynnwys prentisiaethau.

1. Crynodeb Gweithredol

Y Cefndir

- 1.1 Yn 2015 llwyddodd Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid ESF i gefnogi darpariaeth ei Rhaglen Brentisiaeth ledled Cymru o fis Ionawr 2015 hyd fis Mawrth 2019. Dyfarnwyd y cyllid i bedwar prosiect o dan ddau Amcan Penodol ESF yn Echel Blaenoriaeth 2 (Sgiliau ar gyfer Tyfiant):
- Amcan Penodol 1 (SO1): Cynyddu'r lefelau sgiliau, yn cynnwys sgiliau sy'n berthnasol i waith, y rheiny yn y gweithlu sydd heb sgiliau neu y mae eu sgiliau'n isel;
 - Amcan Penodol 2 (SO2): Cynyddu'r nifer o bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a sgiliau penodol i swydd ar lefel ganolradd ac uwch.
- 1.2 Mae amcanion y Rhaglen Brentisiaethau wedi eu rhannu ymhellach yn ddau ranbarth NUTS2¹ yr Undeb Ewropeaidd: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a Dwyrain Cymru. Mae grŵp o ddarparwyr wedi eu penodi i ddarparu'r Rhaglen yn rhan o gontract Dysgu Seiliedig ar Waith 4 (WBL4) Llywodraeth Cymru.
- 1.3 Mae'r adroddiad yma'n nodi canfyddiadau gwerthusiad interim a wnaed o'r Rhaglen Brentisiaeth, sy'n canolbwyntio ar berfformiad a darpariaeth hyd yn hyn.

Y Fethodoleg

- 1.4 Cafodd IFF Research eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r Rhaglen Brentisiaeth yng Nghymru 2015-2019. Mae'r adroddiad gwerthusiad interim yma wedi ei seilio ar:
- Ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, swyddogion mewn asiantaethau sy'n gysylltiedig â Llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU, elusennau, sefydliadau cyflogwyr a darparwyr.
 - Cyfweiliadau manwl gyda chyflogwyr Prentisiaid.
 - Adolygiad wrth ddesg, oedd yn adeiladu ar yr adolygiad llenyddiaeth a wnaed ar gyfer gwerthusiad Dysgu Seiliedig ar Waith 2011-14 ac oedd yn cynnwys dogfennau polisi diweddar yn ymwneud â Rhaglen 2015-19.

¹ Mae rhanbarthau NUTS2 (Enwau Unedau Tiriogaethol at Ddibenion Ystadegaeth Lefel 2) yn ardaloedd daearyddol a bennir gan yr Undeb Ewropeaidd (UE), a chânt eu defnyddio i gynllunio a monitro nifer o fentrau'r UE.

- Dadansoddiad o'r wybodaeth rheoli a chymhariaeth yn erbyn targedau ac amcanion i bob 'gweithrediad'² a pholisi. Roedd hyn yn tynnu'n bennaf ar ddata a dynnwyd o'r EDMS (System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd) a systemau LLWR (Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru).

Cynllun y Rhaglen

- 1.5 Mae Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016 – 2021 'Symud Cymru Ymlaen' yn ymrwymo i greu o leiaf 100,000 o Brentisiaethau o safon uchel i bob oedran. Yn ogystal, mae'n pwysleisio Prentisiaethau Cymraeg a dwyieithog. Mae strategaeth 2017, 'Ffyniant i Bawb', yn pennu Prentisiaethau sy'n helpu Cymru i ddatblygu gweithlu mwy creadigol ac addasadwy ac uwch eu sgiliau. Mae'r Rhaglen Brentisiaeth wedi'i gyrru gan y dymuniad i ddatblygu sgiliau, cwrdd ag anghenion marchnad lafur Cymru a thyfu'r economi mewn sectorau allweddol.
- 1.6 Cafwyd newidiadau sylweddol yng nghyfeiriad y polisi Prentisiaeth dros y cyfnod 2015 – 2017, yn cynnwys:
 - cyflwyno'r Rhaglen Brentisiaeth i bob oed;
 - ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r nifer o brentisiaid 16-19 oed ar bob lefel ac ymhob sector;
 - blaenoriaethu'r cyllid ar gyfer darparu Prentisiaethau ar Lefel 3 ac yn uwch
 - blaenoriaethu meysydd astudio gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM);
 - cyflwyno'r Ardoll Brentisiaeth drwy'r DU gyfan;
 - newidiadau i rôl y tair Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol (RSP), gan eu grymuso i bennu blaenoriaethau sgiliau penodol i'w rhanbarth drwy gyhoeddi Cynlluniau Sgiliau blynyddol.
- 1.7 Cafodd y symudiad mewn ffocws tuag at brentisiaethau STEM a phrentisiaethau Lefel 3 ac uwch ei groesawu ar y cyfan gan randdeiliaid, cyflogwyr a darparwyr. Ond, roedd rhywfaint o bryder am y cap (10 y cant o bob un sy'n cychwyn gyda

² Dyma bedwar Gweithrediad Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO): 80817 – Prentisiaethau Gorllewin Cymru a'r Cymoedd – Amcan Penodol 1; 80719 – Prentisiaethau Gorllewin Cymru a'r Cymoedd - Amcan Penodol 2; 80818 – Prentisiaethau Dwyrain Cymru – Amcan Penodol 1; ac 80720 – Prentisiaethau Dwyrain Cymru – Amcan Penodol 2.

phob darparydd) oedd yn cael ei osod yn rhan o'r polisi yma, ar brentisiaethau Lefel 2 i ddysgwyr 20 oed ac yn hŷn mewn sectorau nad ydynt yn cael blaenoriaeth³. Roedd rhai darparwyr yn teimlo bod risg o eithrio'r dysgwyr hynny nad yw eu dysgu blaenorol yn caniatáu iddynt gychwyn ar Lefel 3, felly mae'n gostwng y recriwtiaid ar gyrsiau Lefel 3 y mae dysgwyr yn mynd i mewn iddynt yn aml iawn drwy symud ymlaen o Lefel 2. Yn wir, mae eithriad yn bodoli lle mae tystiolaeth o ymrwymiad o'r cychwyn yng Nghynllun Dysgu Unigol y dysgwr i barhau i Lefel 3; ond doedd hi ddim yn ymddangos bod llawer o'r rheiny a gyfwelwyd yn defnyddio a/neu yn ymwybodol o'r eithriad yma.

- 1.8 Ers 2015 mae'r Prentisiaethau yng Nghymru wedi eu darparu drwy rwydwaith o 19 prif ddarparwr gydag is-gontractwyr, ond cyn hynny roedd nifer llawer uwch o gontractwyr uniongyrchol yn cymryd rhan. Roedd rhai darparwyr wedi cael proses gomisiynu 2015-18 yn heriol, yn gweld ei bod yn cymryd llawer o amser ac yn defnyddio llawer o adnoddau. Roedd y darparwyr a'r cyflogwyr yn cytuno bod angen gwneud rhagor o ymdrech i symleiddio biwrocratiaeth.

Darpariaeth a Gweithrediad y Rhaglen

- 1.9 Roedd cyflogwyr a rhanddeiliaid ehangach yn weddol fodlon gyda darpariaeth y Rhaglen Brentisiaeth a sut mae'n gweithio yn ymarferol, er bod ansawdd y darparydd (yn arbennig yn nhermau ansawdd yr addysgu ac ymgysylltiad gydag anghenion y cyflogwr) i'w weld yn amrywiol. Roedd y cyflogwyr yn gyffredinol fodlon gyda maint ac ansawdd yr wybodaeth yr oeddent wedi'i derbyn am y Rhaglen gan ddarparwyr a gan Lywodraeth Cymru. Ond, dywedodd y darparwyr bod rhai cyflogwyr a dysgwyr arfaethedig yn dal i fod â chredoau anghywir am brentisiaethau, er enghraifft yn tybio nad ydynt ond ar gael ar gyfer masnachau traddodiadol, neu eu bod wedi eu hanelu at ymadawyr ysgol ifainc fel opsiwn israddol i'r brifysgol.
- 1.10 Dyma rai o'r heriau a welwyd i ddarpariaeth:
- Gwellar ffordd mae prentisiaethau'n cael eu hyrwyddo i ddysgwyr posibl, rhieni a chyflogwyr, a chywiro unrhyw gamsyniadau;
 - Sicrhau bod ansawdd y darparwyr hyfforddiant i gyd yn fwy cyson (yn enwedig o ran ansawdd yr addysgu ac ymgysylltiad ag anghenion y cyflogwr);

³ Busnes a Gweinyddiaeth, Gwasanaeth y Cwsmer, Manwerthu, a Gwallt a Harddwch

- Datgloi'r rhwystrau ymarferol i gynyddu darpariaeth y prentisiaethau Cymraeg, gan gynnwys staffio a chynyddu ymwybyddiaeth cyflogwyr;
- Gwella'r berthynas rhwng y darparwyr a'r cyflogwyr, yn enwedig gyda chyflogwyr llai.

Perfformiad y Rhaglen

- 1.11 Cyhoeddwyd nifer o gynlluniau perthnasol ers 2015, y mae dau ohonynt yn derbyn ystyriaeth yma:
- Cynlluniau Busnes ESF: targed o 158,523 o brentisiaethau dros y cyfnod o fis Ionawr 2015 hyd fis Rhagfyr 2023 (oddeutu 1,300 yn cychwyn o'r newydd bob mis gan gymryd i ystyriaeth y prentisiaid oedd ar y Rhaglen ar Ragfyr 31^{ain} 2014)
 - Y Cynllun Polisi Prentisiaeth, Chwefror 2017: ymrwymiad i gael 100,000 o brentisiaethau cyn mis Mehefin 2021 (yn gyfystyr ag oddeutu 1,900 o bobl yn cychwyn o'r newydd bob mis; nid yw'r targed yma gan Lywodraeth Cymru'n cymryd i ystyriaeth y prentisiaid sydd ar y Rhaglen yn barod).
- 1.12 Yn gyffredinol, perfformiodd y Rhaglen Brentisiaeth yn gryf mewn perthynas â Chynlluniau Busnes ESF, gyda chyfartaledd o 1,636 o gychwyniadau newydd bob mis, er ei fod ychydig yn llai na'r targed (o 10%) yn Amcan Penodol 1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Roedd y lefel gyffredinol ychydig yn is na'r targed sydd wedi'i osod yn y Cynllun Polisi Prentisiaethau. Ond, doedd y ffigurau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad yma ddim yn cynnwys prentisiaid nad ydynt wedi'u cyllido gan fentrau ESF; bydd effaith hyn yn derbyn ystyriaeth yn hwyrach yn yr adroddiad terfynol.
- 1.13 Roedd y perfformiad yn ôl y targed yn amrywio, ond roedd yn gyffredinol bositif:
- Cyfradd cyflawni'r Prentisiaethau (y nifer o brentisiaethau a gyflawnwyd yn llwyddiannus fel canran o'r nifer cyfan) oedd 82 y cant, ychydig yn uwch na chyfradd cyflawniad targed ESF o 80 y cant. Cyflawnwyd y targed yma ar gyfer yr holl Amcanion Penodol, ac ar gyfer yr holl lefelau Prentisiaeth heblaw lefel 4 (74 y cant); ond, fel y trafodwyd yn ddiweddarach yn yr adroddiad yma, gallai hynny fod yn ganlyniad i gynnydd gweddol ddiweddar yn y bobl sy'n cychwyn ar y lefel yma, yn hytrach nag adlewyrchu tebygolrwydd is go iawn o gyflawni fframwaith yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn siarad yn bositif am gyfraddau cyflawniad;
 - Yn ôl y grwpiau oedran, llwyddodd y rhaglen i fynd yn gyfforddus y tu hwnt i'r targed ar gyfer recriwtio prentisiaid hŷn, ond ni ddaeth yn agos at gyflawni'r targedau ar

gyfer y canran o gyfranogwyr oedd o dan 25 oed, a'r ddau beth hynny o ganlyniad i gyflwyno'r rhaglen brentisiaethau i bob oedran;

- Llwyddwyd i fynd dros y targed ar gyfer penodi dysgwyr sy'n darparu gofal plant (2.0 y cant) o nifer dda, unwaith eto oherwydd cyflwyno'r rhaglen brentisiaethau i bob oedran: dywedodd 13.4 y cant bod ganddynt gyfrifoldebau gofal plant⁴;
- Roedd y Rhaglen yn cwrdd â'r targed cyffredinol o gael 56 y cant o gofrestrïadau benywaidd, er ei bod heb lwyddo i gyflawni hynny yn rhaglenni Amcan Penodol 1 ac ar lefel 2. Roedd wedi llwyddo i fynd y tu hwnt i'r targed yn gyfforddus ar y rhaglenni Amcan Penodol 2 ac ar gyfer prentisiaethau uwch ar Lefel 4+. Rhoddodd y rhanddeiliaid sylw am wahaniaethau rhwng y rhywiau mewn sectorau penodol;

Roedd y targedau ar gyfer y gyfran o brentisiaid gyda chefnidir BME (2.2 y cant) wedi eu gosod yn gyfartal ar gyfer y gweithredoedd i gyd. Llwyddwyd i gyflawni'r targed yma yn gyffredinol (2.6 y cant o ddysgwyr). Aethpwyd ymhell y tu hwnt i'r targedau yn y ddau weithrediad yn nwyrain y wlad, ond ni chyrhaeddwyd y targedau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd;

- Ni chyflawnwyd y targed i ddysgwyr a ddywedodd bod ganddynt anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith (63 y cant) (roedd 5.6 y cant o'r dysgwyr yn y categori yma) heblaw am brentisiaethau Lefel 2 a rhaglenni Amcan Penodol 1 (oll yn 6.7 y cant). Mae data cyfres amser yn awgrymu bod cynnydd wedi bod tuag at gyrraedd y targed.
- Cyflawnwyd ychydig bach yn uwch na'r targed ar gyfer prentisiaethau Cymraeg a dwyieithog⁵ (4.5 y cant oedd y targed, a chafwyd 4.6 y cant), ond roedd yn dangos amrywiaeth mawr mewn daearyddiaeth, gyda dim ond 0.3 y cant o brentisiaethau dwyieithog yn Amcan Penodol 1 Dwyrain Cymru a 0.8 y cant yn Amcan Penodol 2 Dwyrain Cymru. Ni chyflawnwyd y targed chwaith ar gyfer prentisiaethau uwch (Lefel 4+) (3.4 y cant).

⁴ Dywedodd 14.1% o ddysgwyr bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu, wedi eu diffinio'n fwy eang i gynnwys gofalu am oedolion, yn ogystal â phlant; ond, mae targedau Cynllun Busnes ESF yn ymwneud yn gyfan gwbl â gofal plant.

⁵ Mae diffiniad llawn o brentisiaethau Cymraeg a dwyieithog, i bwrpasau'r adroddiad yma, yn Atodiad B.

- 1.14 Roedd y rhai a gyfwelwyd mewn rhai ardaloedd o Gymru'n sôn am sialensiau sylweddol mewn perthynas â'r nifer sy'n cymryd Prentisiaethau Cymraeg a dwyieithog. Roedd anghytuno ymysg rhanddeiliaid a darparwyr mewn perthynas â'r ffactorau sy'n cyfyngu ar ddarparu prentisiaethau Cymraeg; ond, enwyd rhai meysydd gan y rhanddeiliaid fel rhai pwysig, megis prinder athrawon ac aseswyr gyda'r sgiliau iaith priodol.
- 1.15 Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid a'r cyflogwyr yn fodlon gyda'r ffordd yr oedd y Rhaglen yn perfformio, er bod rhai darparwyr yn teimlo y dylid cael mwy o elfen ddaearyddol a sectoraidd yn eu targedau cytundebol.

Effeithiau'r Rhaglen

- 1.16 Yn y cam gwerthuso interim, yr unig effeithiau a benwyd yw'r rheiny a welwyd gan gyflogwyr, rhanddeiliaid a swyddogion. Bydd y cam terfynol yn cynnwys asesiad o effaith net a dadansoddiad cost-budd.
- 1.17 Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid a chyflogwyr yn teimlo bod y Rhaglen Brentisiaethau'n cael effaith sylweddol ar brentisiaid a chyflogwyr.
- 1.18 Roedd effeithiau positif i gyflogwyr yn cynnwys cwrdd ag anghenion busnesau a gwella cyfres sgiliau eu gweithwyr. Soniodd y cyflogwyr am gymhellion allgarol hefyd; roedd llawer ohonynt yn ystyried y cynnig prentisiaeth yn un gyda gwerth cymdeithasol positif. I ddysgwyr, roedd cynnydd gyrfaol a datblygiad sgiliau'n bwysig, yn ogystal â'r cyfle i ennill arian tra'n dysgu.
- 1.19 Teimlwyd yn eang hefyd bod y Rhaglen yn cael effaith positif ar yr economi ehangach yng Nghymru, er ei bod hi'n anodd cael tystiolaeth goncrit o hynny. Dywedodd y rhanddeiliad mai'r prif ffactor cyfyngu ar y Rhaglen Brentisiaeth oedd ymwybyddiaeth ymysg cyflogwyr a recriwtiaid potensial.

Casgliadau

- 1.20 Mae'r amcanion a'r rhesymeg cyffredinol ar gyfer y Rhaglen Brentisiaethau wedi aros yn gyson dros y cyfnod 2015-2017. Mae'r themâu allweddol creu gweithlu gyda llawer o sgiliau i gwrdd ag anghenion busnes gan hefyd alluogi unigolion i gyflawni eu potensial, yn dal i gael eu hystyried yn rhai dilyn ac yn rhai pwysig i Gymru gyfan.

- 1.21 Mae cyflogwyr o amrywiaeth o sectorau wedi sôn am gael strwythur y prentisiaethau'n ddefnyddiol, a'u bod yn addas i anghenion eu busnesau. Roedd y mwyafrif yn hapus gyda'r cynnwys yn nhermau'r ystod o bynciau a chwricwlwm a gynigiwyd.
- 1.22 Mae'r newid yn ffocws y polisi tuag at brentisiaethau STEM a Phrentisiaethau Lefel 3 ac uwch wedi eu deall ac yn cael eu croesawu'n eang, ond mae pryderon yn parhau am y pynciau a'r lefelau hynny y tynnwyd y flaenoriaeth oddi arnynt o ganlyniad i hynny⁶. Yn arbennig, mae'r potensial y gallai gostwng y ddarpariaeth Lefel 2 eithrio grwpiau (sydd weithiau'n fregus) sydd â lefelau sgiliau gwanach o flaen llaw, a gwrthdaro gyda blaenoriaethau cyflogwyr sy'n ceisio hawlio arian ardollau yn ôl.
- 1.23 Mae canfyddiadau'n awgrymu efallai bod angen i berfformiad ar lefelau a niferoedd absoliwt y rhai sy'n cychwyn prentisiaethau (o'u cymharu â thargedau) gynyddu'n gyflym i gyflawni'r targedau ymestyn a osodwyd ar gyfer y Rhaglen.
- 1.24 Mae'r berthynas rhwng cyflogwyr a darparwyr yn ymddangos yn glir fel elfen feirniadol ar gyfer llwyddiant y Rhaglen. Edrychwyd yn bositif ar y darparwyr yn gyffredinol, ond cydnabuwyd bod amrywiaeth sylweddol rhwng darparwyr ac, mewn rhai achosion, roedd angen bod yn fwy creadigol wrth ymgysylltu â chronfa ehangach o gyflogwyr posibl.
- 1.25 Mae hyrwyddiad ac ymwybyddiaeth am brentisiaethau'n hanfodol hefyd os yw'r Rhaglen am lwyddo a nodwyd bod y maes yma'n un sydd angen rhagor o bwyslais. Mae hyn yn cynnwys ymdrin ag ystrydebau Prentisiaethau a sicrhau bod ganddynt yr un parch â llwybrau academiaidd. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu hefyd bod angen cynyddu ymwybyddiaeth ymysg cyflogwyr am y cynnig Prentisiaethau dwyieithog a Chymraeg.
- 1.26 Mae canfyddiad cryf ymysg pobl bod Prentisiaethau'n cael effaith bositif ar brentisiaid a chyflogwyr. Teimlwyd yn eang hefyd bod y Rhaglen yn cael effaith bositif ar economi a chymdeithas ehangach Cymru, er ei bod hi'n anodd cael tystiolaeth o hyn mewn termau pendant ar y cam hwn.

⁶ Rhoddir cap erbyn hyn ar brentisiaethau Lefel 2 i ddysgwyr 20 oed a hŷn mewn sectorau nad ydynt yn rhai sy'n cael blaenoriaeth (Busnes a Gweinyddiaeth, Gwasanaeth y Cwsmer, Manwerthu a Gwallt a Harddwch), o 10% o'r holl gychwyniadau gyda phob darparydd. Gwneir un eithriad i'r cyfyngiad yma lle mae bwriad y dysgwr i symud ymlaen i Lefel 3 wedi'i nodi'n glir o'r cychwyn a bod tystiolaeth o hynny yng Nghynllun Dysgu Unigol y dysgwr.

2. Cyflwyniad

- 2.1 Mae'r adroddiad yma'n crynhoi cam interim y prosiect ymchwil 'Gwerthuso Prentisiaethau 2015-2019', a wnaed gan IFF Research. Mae gwerthusiad y Prentisiaethau'n un rhan o gyfres ehangach o werthusiadau o brosiectau a ariannwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) sy'n digwydd yn adran Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes (SHELL) Llywodraeth Cymru (WG).

Cefndir

- 2.2 Yn 2015, llwyddodd Llywodraeth Cymru i sicrhau arian ESF i gefnogi darpariaeth ei Rhaglen Brentisiaeth ledled Cymru am y cyfnod Ionawr 2015 hyd Fawrth 2019. Dyfarnwyd y cyllid yma o dan yr Amcanion Penodol ESF a ganlyn yn Echel Blaenoriaeth 2 (Sgiliau i Dyfu):
- Amcan Penodol Un – Cynyddu'r lefelau sgiliau, yn cynnwys sgiliau sy'n berthnasol i waith, y rheiny yn y gweithlu sydd heb sgiliau neu y mae eu sgiliau'n isel, ac
 - Amcan Penodol Dau – Cynyddu'r nifer o bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a sgiliau penodol i swydd ar lefel ganolradd ac uwch.
- 2.3 Mae'r Rhaglen Brentisiaethau'n cynnwys darparu Prentisiaethau ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru ac mae'n cynnwys pedwar Gweithrediad ar wahân Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO):
- 80817 – Prentisiaethau Gorllewin Cymru a'r Cymoedd- Amcan Penodol 1
 - 80719 – Prentisiaethau Gorllewin Cymru a'r Cymoedd- Amcan Penodol 2
 - 80818 – Prentisiaethau Dwyrain Cymru– Amcan Penodol 1
 - 80720 – Prentisiaethau Dwyrain Cymru– Amcan Penodol 2
- 2.4 Mae Prentisiaethau'n darparu sgiliau technegol, gwybodaeth, hyfforddiant yn y gwaith a llwybr i gyflogaeth. Maent yn gweithredu ar lefel 2 (Prentisiaethau sylfaen), lefel 3 (Prentisiaethau), ac ar lefel 4 ac yn uwch (Prentisiaethau uwch).
- 2.5 Mae Prentisiaethau'n cynnwys tri math o gydran: asesiadau cymhwyster o allu galwedigaethol, cymwysterau Gwybodaeth Dechnegol a chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (ESW). Mae'r cymwysterau yma'n cynnwys nifer, cyfathrebu, llythrennedd ddigidol a chyflogadwyedd, a gellir eu cynnig rhwng Lefel Mynediad 1 a Lefel 3 fel sy'n briodol i'r dysgwr.

- 2.6 Mae cyflogwyr yn cyflogi prentisiaid yn uniongyrchol, ac maent yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant priodol yn y swydd a chefnogaeth a chyflog priodol. Mae darparwyr hyfforddiant cymeradwy'n darparu'r fframwaith Prentisiaethau ac yn rheoli rhaglen asesu a hyfforddi'r prentis.
- 2.7 Mae'r Rhaglen Brentisiaeth yn rhan o gontract Dysgu Seiliedig ar Waith 4 (WBL4) Llywodraeth Cymru. Penodwyd rhwydwaith o ddarparwyr i addysgu'r Rhaglen Brentisiaeth yn rhan o'r contract WBL4.

Y Fethodoleg Werthuso

- 2.8 Mae dau brif gam i'r gwerthusiad: yr interim a'r terfynol. Mae'r cam gwerthuso interim yn cymryd agwedd ffurfiannol ac yn canolbwyntio'n bennaf ar berfformiad y Rhaglen hyd yn hyn a sut mae'r ddarpariaeth wedi gweithio mewn gwirionedd.
- 2.9 Roedd y cam interim yn cynnwys nifer o elfennau ymchwil, fel a ganlyn:
- **Ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid allweddol** yn cynnwys deg cyfweiliad ffôn gyda rhanddeiliaid allweddol a chasglu darlun manylach o ddarpariaeth y Rhaglen yn ymarferol. Gwnaed cyfweiliadau gyda phersonél o ddarparwyr hyfforddiant arweiniol o amrywiol feintiau, ffederasiynau hyfforddi allweddol, yn ogystal â sefydliadau trydydd sector a chyrrff cynrychioli i ddarparwyr hyfforddiant a chyflogwyr. Roedd cyfweiliadau'n archwilio perfformiad y Rhaglen yn erbyn amcanion y Cynllun Gweithredu a'r targedau a'r amrywiadau rhwng gweithredoedd a darparwyr. Cyflenwyd y sampl ar gyfer hynny gan Lywodraeth Cymru.
 - **Ymgynghoriad gyda swyddogion o asiantaethau sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru** yn cynnwys wyth cyfweiliad manwl iawn gyda swyddogion sy'n cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Rhaglen (e.e. cynrychiolwyr Partneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarth, a Chomisiynwyr). Roedd y cyfweiliadau yma'n adlewyrchu ar ddarpariaeth hyd yma ac yn archwilio gwelliannau posibl i'r Rhaglen yn y dyfodol, ac yn canfod ymatebion i newid diweddar yn y polisi. Darparwyd y sampl gan Lywodraeth Cymru.
 - **Cyfweiliadau manwl gyda chyflogwyr Prentisiaid** - 20 cyfweiliad ffôn ansoddol gyda chyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen. Sicrhawyd y sampl o astudiaeth drwy'r DU gyfan a gomisiynwyd gan y sector cyhoeddus (Arolwg Safbwyntiau'r Cyflogwr (EPS)) sy'n casglu gwybodaeth am y defnydd a wneir o Brentisiaethau

a pharodrwydd cyflogwyr i gymryd rhan mewn rhagor o waith ymchwil.

Samplwyd cyflogwyr o wahanol feintiau o ystod o sectorau.

- **Adolygiad wrth ddesg.** Roedd yr elfen hon yn adeiladu ar yr adolygiadau data eilaidd a llenyddiaeth gyfredol a wnaed ar gyfer gwerthusiad ehangach 2011-14 o Ddysgu Seiliedig ar Waith. Aethom ati i adolygu dogfennau polisi diweddar yn ymwneud â Rhaglen 2015-19, a gwaith ymchwil ehangach i ganfod newidiadau yn y polisi a'r cyd-destun ehangach a allai fod wedi effeithio ar gynllun y Rhaglen, ei darpariaeth neu'r canlyniadau dewisedig, a pherfformiad Rhaglen 2015-2019. Gwelwch yr Adran Gyfeirio i weld rhestr lawn o'r ffynonellau.
- **Dadansoddiad o'r wybodaeth i reolwyr.** Mae'r dadansoddiad data meintiol yn yr adroddiad yma wedi'i seilio'n bennaf ar ddata a gymerwyd o'r System Rheoli Data Ewropeaidd (EDMS) a systemau Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR). Mae'r rhain yn cofnodi pob cofrestriad i brentisiaeth yn hynod fanwl, gan olygu bod modd gwneud dadansoddiad o'r llwyddiant i gwrdd â thargedau a chyfeiriad cyffredinol y teithio. Am fod y cofnod yma mor fanwl, mae'n cymryd amser i'w brosesu; mae gan y data a ddefnyddir yn yr adroddiad yma ddyddiad adrodd Mawrth 2017. Nodwch fod hwn yn ddadansoddiad wedi'i deilwra'n arbennig yr ydym wedi'i wneud yn benodol ar gyfer y gwerthusiad yma, ac ni fydd yn gyson gydag ystadegau swyddogol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr un cyfnod, y defnyddir rhewi data terfynol mwy cyflawn a diweddarach ar ei gyfer. Bydd hefyd wahaniaethau yn y fethodoleg a'r diffiniad o'r dadansoddiad. Yn ogystal, dydy'r data a ddangosir ond yn cynnwys ymatebwyr sy'n cael eu hariannu gan ESF, tra bo'r ystadegau swyddogol yn cynnwys yr holl brentisiaid yng Nghymru.

- 2.10 Cafodd yr wybodaeth i reolwyr sy'n ymwneud â'r Rhaglen ei dadansoddi yn ôl y gweithrediad yn erbyn targedau sy'n cynnwys: cynnydd o'i gymharu â chyfranogaeth (e.e. cychwyniadau) a thargedau deilliannau (e.e. llwyddiant y fframwaith, cymwysterau/lefelau a gafwyd) yn ogystal â phroffil o boblogaeth cyflogwyr (e.e. sector, maint) a chanlyniadau yn ôl nodweddion unigol (e.e. cymhwyster blaenorol, grwpiau BME, anabledd). Bydd y gwerthusiad terfynol yn tynnu ar gyfres amser hirach o ddata, sy'n galluogi i ni weld yn fanylach i ba raddau y mae targedau ESF a Llywodraeth Cymru'n cael eu cyflawni. Roedd camau cynnar y gwerthusiad yn cynnwys datblygu model rhesymegol o Ddamcaniaeth o Newid i'r Rhaglen. Mae hwn i'w gael yn Atodiad A. Mae'r model rhesymeg yn dechrau

darparu map ffordd achosol neu lwybr o achos ac effaith i'r Rhaglen sy'n caniatáu i ni archwilio a yw'r rhaglen yn cael ei darparu fel y bwriadwyd ac yn cyflawni'r canlyniadau a gynlluniwyd.

2.11 Mae'r model rhesymeg yn crynhoi:

- Y sefyllfa y mae'r rhaglen yn ceisio ymdrin â hi neu resymeg y rhaglen.
- Y mewnbwn neu'r adnoddau sy'n ofynnol i hwyluso gweithrediad y rhaglen.
- Y gweithgareddau sy'n rhoi cefnogaeth i'r rhaglen.
- Y deilliannau (cyflawniadau uniongyrchol y rhaglen)
- Y deilliannau (deilliannau tymor canolig sy'n codi o'r canlyniadau).
- Effaith dymor hirach y canlyniadau hyn ar yr unigolyn, y cyflogwr a'r gymdeithas ehangach.

2.12 Mae'r cam interim yma o'r gwerthusiad yn dechrau profi'r Ddamcaniaeth o Newid sy'n gefn i'r rhaglen drwy ofyn y cwestiynau a ganlyn:

A yw'r rhesymeg ar gyfer y rhaglen yn parhau? A ydyw wedi newid?

A yw'r adnoddau ar gael ac yn cael eu defnyddio fel y cynlluniwyd?

A yw'r gweithgareddau'n cael eu darparu fel y cynlluniwyd ac i'r safonau y cytunwyd arnynt?

A yw'r bobl 'gywir' yn dilyn y rhaglen? Pa ffactorau sy'n effeithio ar gychwyniadau a chyfranogaeth?

A yw'r rhaglen yn gwneud gwahaniaeth? A yw'r effaith fel y disgwyliwyd neu a cheir effeithiau na fwriadwyd? Beth yw cost hynny?

2.13 Ystyriwyd y cwestiynau yma drwy gydol y broses o ddrafftio'r holl ddeunyddiau ymchwil (gwelwch Atodiad B) ac rydym hefyd yn dychwelyd atynt yn y bennod casgliadau er mwyn edrych yn ôl a myfyrio ar ddarpariaeth a pherfformiad y Rhaglen Brentisiaeth dros y cyfnod 2015-2017.

3. Cynllun y Rhaglen

- 3.1 Mae'r bennod hon yn nodi beth mae'r Rhaglen Brentisiaeth yn ceisio ei gyflawni, a sut mae ei hamcanion wedi newid dros amser. Mae hefyd yn cyfodod barn y rhanddeiliaid, cyflogwyr a darparwyr a gyfwelwyd yn ystod y gwaith ymchwil ynglŷn â chynllun y Rhaglen.

Amcanion y Rhaglen

- 3.2 Mae Llywodraeth Cymru'n gosod y blaenoriaethau ar gyfer y Rhaglen Brentisiaeth, wedi'u hysbysu gan Wybodaeth am y Farchnad Lafur (GFL) a'r dadansoddiad y tynnwyd sylw ato yn 'Dyfodol Gwaith 2012-22' (model y farchnad lafur)⁷. Mae Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd ESF (EPF)⁸ yn sicrhau bod penderfyniadau'n adlewyrchu cyd-destun buddsoddiad ehangach ac yn sicrhau bod prosiectau sydd wedi'u cyllido gan yr Undeb Ewropeaidd (yn cynnwys Prentisiaethau wedi'u cyllido gan ESF) heb eu cynllunio'n arwahanol.
- 3.3 Ar lefel facro, mae ymrwymiad y llywodraeth i Raglen Brentisiaeth sylweddol wedi'i yrru gan y dymuniad i ateb galwadau'r farchnad lafur yng Nghymru a thyfu'r economi mewn sectorau allweddol. Wrth i wahanol lywodraethau basio, cafwyd pwyslais cynyddol ar sgiliau galwedigaethol, gan gydnabod bod sgiliau'n allweddol i danategu gallu cystadleuol cenedlaethol, i gynyddu cynhyrchiad ac i ddod yn fwy effeithiol.
- 3.4 Mae'r dymuniad yma wedi'i adlewyrchu yn strategaeth 'Ffyniant i Bawb' 2017 a rhaglen 'Symud Cymru Ymlaen' 2016-21 i roi ffocws y llywodraeth ar yrru Cymru ymlaen at ffyniant economaidd, diwylliannol a chymdeithasol gwell drwy ymdrin ag anghydraddoldeb mewn cyfleoedd, cefnogi pobl i gyflawni eu dyheadau a chreu amgylchedd lle gall busnesau ffynnu. Mae'r dogfennau yma'n esbonio'n glir bod Prentisiaethau'n hanfodol yn y gwaith yma: Bydd Prentisiaethau'n helpu Cymru i ddatblygu gweithlu mwy creadigol, addasadwy a chanddynt sgiliau gwell a fydd yn hanfodol i helpu i gynyddu ffyniant yn y genedl.

⁷ Mae'r GFL yma'n darparu darlun o ragolygon cyflogaeth yn ôl diwydiant, galwedigaeth, lefel cymhwyster, rhywedd a statws cyflogaeth.

⁸ Yn helpu i arwain y defnydd a weir o ariannau'r Undeb Ewropeaidd 2014-2020. Mae'r EPF yn disgrifio'r cyd-destun buddsoddi cyfredol ac ehangach fel nad yw prosiectau'r UE yn cael eu cynllunio'n arwahanol. Mae'r EPF yn canfod y buddsoddiadau mawrion ar hyn o bryd a'r meysydd sy'n tyfu yng Nghymru. Dylai ymgeiswyr sy'n gwneud cais am gyllid allu dangos sut y byddent yn gwella'r hyn sy'n bodoli'n barod yng Nghymru fel y mae wedi ei ddisgrifio yn yr EPF.

- 3.5 Ar lefel ficro, trwy benodi Prentisiaid, gall cyflogwyr siapia eu gweithlu ar gyfer y dyfodol i ateb anghenion a diwylliant eu busnes. Mae hefyd yn fwy cost-effeithiol i hyfforddi Prentis na hurio staff sydd â'r sgiliau'n barod, gan arwain at gostau recriwtio a hyfforddi is yn gyffredinol. I unigolion, mae Prentisiaethau'n chwarae rhan bwysig mewn helpu i ymdrin â diweithdra ymysg yr ifanc a chreu trosglwyddiadau llwyddiannus o'r ysgol i'r gwaith. I'r rheiny sydd yn y gweithlu'n barod, mae cynyddu sgiliau'n cynyddu'r siawns o yrfa lwyddiannus hefyd, yn ogystal â gwella cynhwysiad a symudedd cymdeithasol.
- 3.6 I'r perwyl hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu o leiaf 100,000 o brentisiaethau i bob oedran. Yn ogystal, mae ymrwymiad i sicrhau bod unigolion yn cael dysgu a hyfforddi yn eu dewis iaith, ac felly cafwyd pwyslais cynyddol ar rôl y Prentisiaethau Cymraeg a dwyieithog yn y dymuniad hwnnw.

Y Polisi Prentisiaeth

- 3.7 Mae'r amcanion yma wedi parhau'n gyson i raddau mawr dros y cyfnod o amser pan oedd y diddordeb yn y gwerthusiad yma. Ond, cafwyd newidiadau sylweddol yn y ffordd y rhoddir sylwedd i'r amcanion yma oherwydd y polisi Prentisiaeth dros y cyfnod 2015-2017.⁹
- 3.8 Daeth un o ddatblygiadau polisi allweddol y cyfnod yma ym mis Awst 2016 pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru'r **Rhaglen Brentisiaeth i bob oedran** lle gall pobl o bob oedran gymryd rhan mewn Prentisiaethau, yn arbennig y rheiny sy'n ceisio dychwelyd i'r farchnad lafur. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i flaenoriaethu cychwyniadau Prentisiaethau ar gyfer y rheiny sy'n 16 – 19 oed, gan anelu at ddarparu cyfleoedd i gael gwell cyflogau a datblygiad gyrfaol, ac i gefnogi symudedd cymdeithasol, gwella newidiadau mewn bywyd, a helpu i gynnal ymgysylltiad y rheiny sydd mewn perygl o beidio bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET). Bydd Prentisiaid yn derbyn mwy o anogaeth i symud ymlaen i Brentisiaethau lefel uwch neu raddau.
- 3.9 Yn natganiad polisi 2017 'Alinio'r model Prentisiaeth gydag anghenion economi Cymru', dangosodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ganolbwyntio arian Prentisiaethau ar "swyddi yfory, a fydd yn gofyn lefelau uwch o gymhwysedd nag oeddent yn y gorffennol. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau pwysig i **flaenoriaethu arian ar gyfer darparu Prentisiaethau lefel 3 ac uwch**, ac yn y **galwedigaethau** gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (**STEM**).

⁹ Trafodir targedau Prentisiaeth ymhellach yn Mhennod 5.

Bydd y ddarpariaeth fframweithiau Prentisiaeth ar lefel 2 mewn meysydd astudio nad ydynt yn derbyn blaenoriaeth¹⁰ wedi eu capio ar 10 y cant o gontractau darparwyr i gychwynwyr 20 oed ac yn hŷn, er bod eithriad i'r rheiny sy'n bwriadu symud ymlaen i Lefel 3, lle mae hyn yn amlwg o'r cychwyn ac y mae tystiolaeth ohono yng Nghynllun Dysgu Unigol y dysgwr.

- 3.10 Roedd y datganiad polisi yma hefyd yn amlinellu sut y byddai effaith yr **Ardoll Brentisiaeth** yn cael ei rheoli yng Nghymru. Cyflwynwyd yr Ardoll Brentisiaeth gan Lywodraeth y DU a daeth i rym ledled y Deyrnas Unedig gyfan ym Mis Ebrill 2017. Mae gofyn i gyflogwyr gyfrannu 0.5 y cant o'u bil cyflogau. Mae lwfans o £15,000 i bob cyflogwr, sydd yn ei hanfod yn golygu bod gofyn i gyflogwyr gyda bil cyflogau o £3 miliwn neu fwy dalu'r Ardoll.
- 3.11 O ganlyniad i'r newidiadau yma mewn polisi, cynyddodd rôl y tair Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol (RSP) yng Nghymru y mae gofyn iddynt wneud gwaith dadansoddi i ganfod patrymau sy'n dod i'r amlwg yn y farchnad lafur. Bydd gofyn i RSPs weithio gyda chyflogwyr i ddeall yn well y prinder sgiliau a'r problemau gyda sgiliau (yn arbennig gyflogwyr sy'n talu'r Ardoll Brentisiaeth); bydd gofyn iddynt flaenoriaethu'r galw er mwyn ei dalu o fewn y gyllideb sydd wedi'i chlustnodi ar gyfer Prentisiaethau.
- 3.12 Datblygiad sylweddol pellach oedd newid yn y dull o gomisiynu darpariaeth y Brentisiaeth. Yn y gorffennol, roedd gan Lywodraeth Cymru gontractau gyda nifer o ddarparwyr unigol ond, ers 2015, mae Prentisiaethau yng Nghymru wedi eu darparu gan rwydwaith o 19 o ddarparwyr hyfforddiant 'arweiniol' sydd wedi arwain at symleiddio sylweddol a gostwng yr adnoddau gweinyddol sy'n ofynnol.
- 3.13 Mae gweddill y bennod hon yn trafod yr effeithiau a ddisgwyllir oherwydd y newidiadau yma o safbwynt swyddogion Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid a chyflogwyr.

Y Broses Gomisiynu

- 3.14 Yn gyffredinol, roedd pobl yn ystyried y broses ar gyfer comisiynu Rhaglen Brentisiaeth 2015-2019 yn un gadarn, teg a gonest er ei bod yn hir ac yn gofyn llawer o adnoddau.
- 3.15 Mae'r symudiad yma tuag at dendro mwy cystadleuol wedi bod yn drosglwyddiad anodd i rai darparwyr, gyda rhai'n dweud ei fod wedi creu ansicrwydd wrth gynllunio

¹⁰ Busnes a Gweinyddiaeth, Gwasanaeth y Cwsmer, Manwerthu a Gwallt a Harddwch

ar gyfer y dyfodol a buddsoddi, oherwydd gall contract unigol gyfrif am gyfran mor fawr o fusnes rhai darparwyr. Yn yr un modd, er bod darparwyr a'u his-gontractwyr yn cael eu hannog i gydweithredu, roedd rai darparwyr yn teimlo eu bod yn llai tebygol o weithio ar y cyd a rhannu arferion gorau pan fydd contractau'n mynd allan i dendr.

- 3.16 Roedd safbwyntiau cymysg gan bobl ynglŷn â'r dull o ostwng nifer y contractau gyda darparwyr i ddim ond 19 consortia yn 2015, yn lle 24 yn ystod y cyfnod contractio blaenorol (2011-15) a 94 yn y cyfnod cyn hynny (2007-11)¹¹. Roedd ymatebwyr yn dadlau bod y broses o reoli contractau'n gofyn llai o adnoddau gan Lywodraeth Cymru, ond ei bod hi'n anoddach i ddarparwyr sydd yn awr yn gorfod rheoli'r broses is-gontractio yn ei lle.
- 3.17 Roedd rhai rhanddeiliaid sy'n cynrychioli cyflogwyr yn gofyn a oedd y model contractwr arweiniol yn effeithio ar y lefel o ymgysylltiad mewn marchnadoedd llafur lleol, gyda darparwyr dysgu seiliedig ar waith masnachol neu drydydd sector llai efallai'n fwy cyflym a mwy ymatebol i gyflogwyr na cholegau mwy. Fodd bynnag, dywedodd un coleg ei fod yn cynnig ystod ehangach o gyrsiau erbyn hyn ac yn gweithio gyda micro-ddarparwyr hefyd.

Pynciau a Chwricwlwm

- 3.18 Mae'r Rhaglen Brentisiaeth wedi ei llunio i ymdrin ag ystod eang o feysydd astudio a galwedigaethau. Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod yr ystod o bynciau sydd ar gael yn briodol, ond bod rhai – yn arbennig mewn ardaloedd gwledig - yn cyfeirio at y ffaith nad yw rhai pynciau ond yn cael eu dysgu mewn un neu ddau o fannau yng Nghymru, gan ei gwneud hi'n anodd i ddysgwyr gael hyfforddiant wedi'i seilio â darparwydd heb aros dros nos.
- 3.19 Yn gyffredinol, roedd cyflogwyr yn bositif am yr ystod o bynciau a chwricwlwm sydd ar gael. Roedd y cyflogwyr yn teimlo'n gyffredinol bod darparwyr yn gwybod beth oedd ei angen er mwyn bod yn gwbl hyddysg mewn galwedigaeth benodol, ac felly roedd y mwyafrif o gyflogwyr yn ymddiried yn eu harbenigedd yn y maes yma. Gallai cyflogwyr gynnig Prentisiaethau mewn ystod o ddisgyblaethau a meysydd astudio, oedd yn cefnogi'r meysydd busnes yr oeddent yn gobeithio ymestyn ynddynt neu eu hadfywio.

¹¹ Comisiynwyd ugain o ddarparwyr yn wreiddiol, ond mae un wedi rhoi'r gorau i'w contract ers hynny

- 3.20 Roedd llawer o fusnesau'n defnyddio'r Rhaglen Brentisiaeth i hwyluso rectriwtiad mewn sectorau oedd yn gweld tyfiant cyflym. Roedd rhywfaint o dystiolaeth hefyd bod cyflogwyr yn gobeithio ehangu eu cynnig yn y dyfodol er mwyn cefnogi anghenion busnes oedd yn dod i'r amlwg.
- 3.21 Yn gyffredinol, roedd cyflogwyr yn teimlo bod y **symudiad tuag at ragor o Brentisiaethau STEM** yn beth positif i economi Cymru, ond y byddai effaith hynny yn dibynnu a oedd busnesau unigol yn darparu Partneriaethau perthnasol ar y pryd. Roedd busnesau mewn diwydiannau technegol yn teimlo y byddai eu busnesau'n cael eu heffeithio'n bositif gan y symudiad yma, oherwydd byddai'n debygol o gynyddu buddsoddiad y llywodraeth yn STEM.
- 3.22 I'r gwrthwyneb, roedd y busnesau hynny heb Brentisiaethau'n pryderu y gallai'r llywodraeth dynnu'r flaenoriaeth oddi ar y Prentisiaethau y maent yn eu cynnig, neu y gallai eu busnes gael ei eithrio o'r Rhaglen yn gyfan gwbl. Felly, roeddent yn pryderu am y lefel o ariannu y byddent yn ei derbyn gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Strwythur a Hyd

- 3.23 Roedd y cyflogwyr yn bositif iawn am y cydbwysedd rhwng y dysgu seiliedig ar waith a'r dysgu yn y coleg sydd â strwythur Prentisiaeth. Mae'r strwythur 'diwrnod astudio' yn gweithio'n dda i gyflogwyr am eu bod yn gallu trefnu gweddill eu busnes o amgylch y diwrnod dynodedig yn yr wythnos pan fydd prentisiaid yn mynd i'r coleg.
- 3.24 I'r gwrthwyneb, dywedodd un cyflogwr bod prentisiaid sy'n gwneud Prentisiaethau lefel is yn gallu treulio eu hamser i gyd yn y gweithle weithiau, ond roedd yn teimlo y dylent gael rhywfaint o addysgu yn yr ystafell ddosbarth o hyd, am fod angen sylfaen arnynt mewn theori.
- 3.25 Roedd y mwyafrif o gyflogwyr o blaid y syniad o brentisiaethau'n darparu cymhwyster wedi'i achredu, i sicrhau bod y prentis wedi ei hyfforddi'n ddigonol, ac yn eu galluogi i symud ymlaen i rolau uwch o fewn y busnes.
- 3.26 Roedd y mwyafrif o fusnesau'n teimlo bod hyd y Prentisiaethau'n addas i'w busnesau ac yn briodol i'r cymwysterau yr astudir ar eu cyfer. Soniodd rhai cyflogwyr hefyd bod y strwythur o roi mwy o ffocws ar waith yn yr ystafell ddosbarth ar ddechrau'r Rhaglen a mwy o amser yn y gweithlu tuag at y diwedd yn gwneud synnwyr greddfoll iddyn nhw.

- 3.27 Dywedodd nifer fechan o gyflogwyr bod hyd y Prentisiaethau'n gallu effeithio ar y nifer sy'n eu cymryd yn gyffredinol; os yw Prentisiaethau'n rhy hir, neu os nad ydynt yn briodol gyfer yr alwedigaeth berthnasol, efallai y bydd pobl yn dewis peidio mynd arnynt.

Gweinyddiaeth

- 3.28 Cafodd cynllun y systemau gweinyddol sy'n cefnogi prentisiaethau eu beirniadu braidd gan ddarparwyr oedd yn teimlo y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i'r effaith ar y ddarpariaeth o gyflwyno mentrau newydd. Yn arbennig, roedd un darparydd yn teimlo bod y system ar gyfer achredu ac asesu Sgiliau Hanfodol cyn cychwyn prentisiaeth yn rhy gymhleth i'w gweinyddu, gan arwain at oedi mewn cofrestriadau.
- 3.29 Soniodd nifer o ddarparwyr bod baich gweinyddol recriwtio prentisiaid a darparu Prentisiaethau'n rhy fawr:

“Gostwng y baich gweinyddol, fel ein bod yn gallu canolbwyntio llawer iawn mwy ar ddysgu ac addysgu.”

“Mae maint ein ffeiliau dysgwyr yn wirion. Mae'n rhaid bod ffordd well o gofnodi sut mae dysgwyr yn dod yn eu blaenau.”

- 3.30 Roedd darparwyr yn croesawu'r symudiad sydd ar y gweill at systemau electronig yn hytrach na systemau papur, ond roeddent yn dadlau bod angen symleiddio'r system hefyd ar ben hynny.

Lefelau Uwch a Chynnydd

- 3.31 Roedd barn pobl am uchelgais y polisi i ddarparu cyfran uwch o Brentisiaethau Uwch yn gymysg. Ymysg Swyddogion Llywodraeth Cymru, roedd rhai pobl yn teimlo y byddai'n ddylanwad positif i addasu'r syniad oedd gan bobl bod Prentisiaethau'n bethau 'lefel isel'. Roedd rhai rhanddeiliaid yn awgrymu y byddai mwy o Brentisiaethau Uwch yn helpu i godi lefelau sgiliau yng Nghymru, ac yn galluogi busnesau i fod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol. Yn unol â'r uchelgais yma, roedd tystiolaeth i ddangos bod cyflogwyr yn disgwyl i'w prentisiaid presennol symud ymlaen i rolau lefel uwch o fewn y busnes a gwneud cymwysterau lefel uwch.
- 3.32 Wedi dweud hynny, mynegodd rai cyflogwyr amheuan ynghylch yr angen am Brentisiaethau Uwch. Dywedodd lleiafswm o gyflogwyr nad oedd y safleoedd yn eu busnesau'n deilwng o Brentisiaeth lefel uwch.

- 3.33 Roedd pryder hefyd y cyfeiriwyd ato'n aml ymysg rhanddeiliaid a chyflogwyr, bod gwthio tuag at Brentisiaethau Lefel 3 ac Uwch yn gostwng cyfleoedd i'r unigolion hynny sydd â sgiliau is sydd angen cychwyn ar lefelau is. Roedd y pryderon yn canolbwyntio'n arbennig ar y cap o 10 y cant a roddir ar ddysgwyr sy'n cychwyn prentisiaeth sy'n cael mynd ar Brentisiaethau Lefel 2 penodol i ddysgwyr 20+ oed mewn sectorau nad ydynt yn derbyn blaenoriaeth. Maent yn credu y gallai'r cyfyngiadau yma gael eu hymestyn i fwy o sectorau. Roedd hyn yn bryder arbennig ymysg darparwyr a rhai rhanddeiliaid, yn ogystal â rhai cyflogwyr.
- 3.34 Yn benodol, roed rhai darparwyr yn gweld bod risg o eithrio'r dysgwyr hynny sydd â chefnidir academaidd gwanach a fyddai'n cael trafferth gyda'r gofynion llythrennedd a rhifedd rhag cychwyn ar Lefel 3. Roeddent yn pryderu y gallai hyn atal y grwpiau yma rhag cael lle ar Brentisiaethau o gwbl, gan ostwng recriwtio ar Brentisiaethau Lefel 3 drwy gynnydd dysgwyr o Lefel 2. Rhoddodd cwpwl o gyflogwyr dystiolaeth anecdotaidd hefyd o brentisiaid cyfredol oedd wedi mynd ar y Rhaglen heb unrhyw gymwysterau na phrofiad gwaith, ac wedi symud ymlaen i wella eu hamgylchiadau drwy ddysgu sgiliau mewn disgyblaeth benodol megis gwaith plymwr.
- 3.35 Yn wir, mae eithriad i'w gael lle mae dystiolaeth o ymrwymiad o'r cychwyn yng Nghynllun Dysgu Unigol y dysgwr i barhau i Lefel 3; ond nid oedd ymwybyddiaeth a/neu ddefnydd o'r eithriad yma i'w weld yn eang ymysg y rheiny a gyfwelwyd.

Prentisiaethau Cymraeg a dwyieithog

- 3.36 Mae hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn darged allweddol i Lywodraeth Cymru, ac mae hyn yn ymestyn i faes y prentisiaethau. Nododd y rhanddeiliaid fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn benodol a phendant wrth annog darpariaeth Gymraeg a rhaglenni dwyieithog.
- 3.37 Rhoddodd rhai rhanddeiliaid a chyflogwyr esiamplau o'r ffordd yr oedd gallu yn yr iaith Gymraeg yn arbennig o fuddiol mewn rolau a sectorau penodol. Er enghraifft, tynnwyd sylw at y ffaith fod y Gymraeg yn hanfodol yn y sector gofal cymdeithasol wrth edrych ar ôl pobl hŷn (sydd wedi colli lawer o'u sgiliau Saesneg efallai) a phobl iau (i gefnogi datblygiad yr iaith Gymraeg mewn pobl eraill).
- 3.38 Roedd y rhanddeiliaid, a'r darparwyr hefyd i raddau is, yn hynod gefnogol o'r polisi yma. Roedd y cyflogwyr a gyfwelwyd yn weddol bositif am y syniad, er bod ganddynt ddiddordeb arbennig pan oedd cwsmeriaid neu gleientiaid yn siarad yr iaith (er enghraifft mewn lleoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol). Ond, fel y byddwn yn trafod yn hwyrach yn yr adroddiad, roedd hi'n ymddangos bod

ymwybyddiaeth o fodolaeth y Prentisiaethau Cymraeg yn weddol gyfyngedig ymysg cyflogwyr.

- 3.39 Trafodir darpariaeth Prentisiaethau Cymraeg a dwyieithog ymhellach yn y penodau nesaf.

Gwahaniaethau mewn polisiâu ar draws y ffin

- 3.40 Mae Prentisiaethau yng Nghymru'n fater sydd wedi'i ddatganoli, er bod yr Ardoll Brentisiaeth a gyflwynwyd yn ddiweddar, yn berthnasol drwy'r DU gyfan. Mewn blynyddoedd diweddar, mae'r polisi wedi amrywio ychydig rhwng Cymru a Lloegr, gyda gwahanol strwythurau cyllido, cymwysterau a chwricwla'n cael eu defnyddio yn y ddwy genedl. Soniodd un rhanddeiliad bod hyn yn achosi anawsterau i gyflogwyr a dysgwyr mewn rhanbarthau ffiniol. Yn yr achosion yma, gallai darparwydd yn Lloegr fod yn agosach ac yn haws ei ddefnyddio ac felly roedd cyflogwyr weithiau'n defnyddio darparwyr o Loegr ar gyfer dysgwyr Cymraeg er gwaethaf yr anafteision cyllido.
- 3.41 Awgrymodd un rhanddeiliad bod diwygio Prentisiaethau'n wahanol ar draws y DU wedi achosi heriau sylweddol, gyda chyfarwydddebau ledled y DU, megis yr ardoll, yn dangos *“ychydig iawn o ddealltwriaeth o'r ffaith fod Prentisiaethau'n fater sydd wedi'i ddatganoli, ac o'r effaith y bydd yn ei chael ar gyflogwyr, yn arbennig y rhai sy'n gweithredu ar draws pedair cenedl y DU”*. Dywedodd un arall bod Cyflogwyr drwy'r DU gyfan yn wynebu heriau erbyn hyn wrth greu rhaglenni datblygiad staff sy'n defnyddio prentisiaethau ar draws y pedair gwlad, oherwydd y gwahaniaethau sydd wedi ymddangos yn ddiweddar.

Yr Ardoll Brentisiaeth

- 3.42 Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod yr Ardoll Brentisiaeth wedi llwyddo i gynyddu galw cyflogwyr am Brentisiaethau, gan ysgogi cyflogwyr i adennill eu taliadau. Nododd yr ymatebwyr bod yr Ardoll Brentisiaeth yn debygol o gael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth Brentisiaethau yng Nghymru. Dywedodd un rhanddeiliad fod Prentisiaethau ar radar eu cyfarwyddwr busnes a chyllid erbyn hyn: *“Mae llawer mwy o ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad gan fusnesau na fyddai efallai wedi bod yn rhan o'r broses neu'r system o'r blaen... [mae] wedi codi disgwyliadau cyflogwyr yn sylweddol, am eu bod nhw'n talu”*.
- 3.43 Roedd y rhan fwyaf o rhanddeiliaid yn cytuno bod yr Ardoll yn debygol o gael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth Brentisiaethau yng Nghymru. Nododd y darparwyr eu

bod yn disgwyl gorfod ymdrin â disgwyliadau llawer iawn uwch gan y cyflogwyr sy'n talu'r ardollau, ac roeddent yn cyfeirio at bryderon penodol ynglŷn â sicrhau cydbwysedd rhwng y cyflogwyr sydd wedi talu ardoll a'r ffocws sydd ar lwybrau blaenoriaeth, gan symud i ffwrdd oddi wrth Lefel 2:

“Maent yn talu ardoll, ac eto rydym yn dweud y gallai bod gwaharddiadau ar y nifer o ddysgwyr y gallwch eu rhoi drwy'r llwybr hwnnw am nad yw'n flaenoriaeth [gan Lywodraeth Cymru]”

“Sut allwch chi ddweud na wrth gwsmer sy'n talu ardoll, pan maent wedi talu'r holl arian yma?”

- 3.44 Roedd cyflogwyr unigol yn ansicr ynglŷn ag effaith yr Ardoll Brentisiaeth ar eu defnydd o Brentisiaethau, ac roedd grŵp sylweddol yn methu rhoi sylw ar oblygiadau'r Ardoll i'w busnesau am nad oedd ganddynt fawr wybodaeth am y mater.
- 3.45 Roedd rhywfaint o dystiolaeth gan gyflogwyr bod yr Ardoll yn gwneud iddynt ailystyried eu cynnig Prentisiaeth ac yn bwriadu ehangu eu Rhaglen. Roedd lleiafswm o gyflogwyr yn pryderu y byddai'r Ardoll Brentisiaeth, wrth ei harfer, yn golygu y byddent yn darparu llai o Brentisiaethau, oherwydd ar ôl talu'r ardoll ni fyddent mewn cystal sefyllfa i fforddio'r gost.

Gwelliannau

- 3.46 O ran y meysydd i'w gwella wrth gynllunio Rhaglenni, gwnaeth y rhanddeiliaid amrywiaeth o awgrymiadau. Soniodd fwy nag un am y rheidwydd i alluogi cynnydd drwy'r lefelau drwy gysylltu prentisiaethau rhwng y gwahanol lefelau. Byddai hyn yn annog dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr i weld prentisiaethau ar yr un lefel â chymwysterau academiaidd, oherwydd gellid eu hastudio i fyny at y lefel honno.
- 3.47 Nododd nifer o ymatebwyr eraill bod angen sicrhau yr un parch i Brentisiaethau a'r brifysgol, drwy weithio gyda chynghorwyr gyrfaoel a disgyblion ysgol, ac yn fwy eang gyda phobl ifanc a rhieni:
- “Rydych yn siarad gyda phobl ifanc, dydyn nhw ddim o anghenraid yn gwybod beth yw Prentisiaeth”.*
- 3.48 Awgrymodd nifer o gyflogwyr welliannau neu ddiweddariadau i'r cwricwlwm i adlewyrchu anghenion busnesau sy'n ymddangos mewn diwydiannau technoleg uchel.

Crynodeb

- 3.49 Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid a chyflogwyr yn teimlo bod cynllun craidd y Rhaglen Brentisiaeth yn gweithio'n dda. Roedd cyflogwyr o amrywiaeth o sectorau wedi cael strwythur y prentisiaethau'n ddefnyddiol, ac roeddent yn teimlo eu bod yn addas i anghenion eu busnes. Roedd y mwyafrif yn fodlon gyda'r amrywiaeth o bynciau a chwricwla a gynigiwyd, a gyda'r ymgyrch i ddarparu Prentisiaethau Cymraeg a dwyieithog. Fodd bynnag, roedd meysydd lle teimlwyd bod angen gwelliant.
- 3.50 Yn arbennig, roedd darparwyr wedi cael y newidiadau hynny a ddaeth gyda Rhaglen 2015-2019 yn heriol, yn arbennig y broses gomisiynu, y mae hyd yn oed y cynigwyr llwyddiannus yn eu hystyried yn amhariad, oherwydd os yw cyfran fawr iawn o waith sefydliad yn ddibynnol ar un tendr cystadleuol mae'n creu dryswch wrth fuddsoddi a chynllunio i'r dyfodol y tu hwnt i'r pwynt hwnnw. Soniwyd hefyd am gyflwyniad yr asesiad o Sgiliau Hanfodol wrth gychwyn Prentisiaeth fel mater sy'n achosi pryder. Er bod y mwyafrif yn croesawu mentrau i symud gwaith papur prentisiaeth yn waith ar-lein, roedd darparwyr a chyflogwyr yn cytuno bod angen gwneud mwy o ymdrechion i symleiddio biwrocratiaeth.
- 3.51 Roedd rhanddeiliaid, cyflogwyr a darparwyr yn croesawu'r newid mewn ffocws gan ganolbwyntio ar brentisiaethau STEM a phrentisiaethau uwch i raddau mawr, ond roedd ganddynt rywfaint o bryderon ynglŷn â'r pynciau a'r lefelau hynny oedd wedi colli eu blaenoriaeth o ganlyniad i hyn. Roedd pryder yn arbennig ymysg rhai darparwyr a rhai rhanddeiliaid y gallai gostwng darpariaeth ar Lefel 2 gael canlyniadau nad oeddent wedi eu bwriadu, sef eithrio rhai grwpiau gyda lefelau sgiliau gwanach o flaen llaw, a gwrthdrawiad gyda blaenoriaethau cyflogwyr sy'n ceisio adhawlio arian ardoll.

4. Darpariaeth a Gweithrediad y Rhaglen

- 4.1 Mae'r bennod hon yn ymdrin â darpariaeth a gweithrediad y Rhaglen Brentisiaeth. Mae'n tynnu ar gyfweiliadau gyda swyddogion, rhanddeiliaid ehangach a chyflogwyr yn ogystal ag adolygiad o ddata rheoli gwybodaeth. Mae'n nodi canfyddiadau a sylwadau am argaeledd gwybodaeth am Brentisiaethau, gweithio mewn partneriaeth, perfformiad y darparwyr, yn ogystal ag archwilio beth sy'n gweithio'n dda a'r hyn sy'n herio darpariaeth.

Argaeledd yr wybodaeth am Brentisiaethau

- 4.2 Roedd y cyflogwyr yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau i gasglu gwybodaeth am y Rhaglen: gan Lywodraeth Cymru, Cyngorau Sgiliau Sector (e.e. CITB, Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu), darparwyr hyfforddiant, awdurdodau lleol, Gyrfa Cymru a'r CBI. Roedd y mwyafrif o gyflogwyr wedi ymgynghori â dim ond un ffynhonnell o wybodaeth, a'r mwyafrif cyffredin o'r ffynonellau yma oedd y darparydd hyfforddiant lleol.
- 4.3 Soniodd llond llaw o gyflogwyr bod sefyllfaoedd yn codi bob hyn a hyn lle nad oedd gwybodaeth ddigon manwl ar gael, yn arbennig wybodaeth am gyllido, dyddiadau allweddol a dyddiadau cwblhau. Roedd un cyflogwr yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu canllaw ysgrifenedig am Brentisiaethau, ond mae canllaw o'r fath yn bodoli'n barod. Mae hyn yn awgrymu bod rhai cyflogwyr yn tybio nad oes gwybodaeth a chefnogaeth ar gael, yn hytrach na mynd ati i chwilio amdanynt.
- 4.4 Yn ystod y cyfweiliadau, roedd hi'n ymddangos nad oedd rhai cyflogwyr yn ymwybodol bod prentisiaethau Cymraeg neu ddwyieithog ar gael, ac yn ymateb i hyn fel syniad newydd. Mae hynny'n awgrymu bod cyflogwyr weithiau'n meddwl eu bod yn gwybod mwy am y Rhaglen nag ydynt.
- 4.5 Mae'n bwysig cofio hefyd bod y cyflogwyr a gyfwelwyd ar gyfer y gwaith ymchwil yma wedi eu tynnu o'r lleiafswm o gyflogwyr sydd â phrentisiaid cyfredol; roedd rhanddeiliaid a darparwyr yn awgrymu bod yr ymwybyddiaeth am brentisiaethau ymysg cyflogwyr yn y gymuned ehangach yn llawer is, a chafwyd nifer o sylwadau ganddynt am y ffaith mai canran bychan¹² o gyflogwyr yng Nghymru sy'n defnyddio prentisiaethau.

¹² Mae ystadegau'r Arolwg o Safbwyntiau Cyflogwyr (2016) yn dangos bod 15% o gyflogwyr yng Nghymru'n defnyddio Prentisiaethau, o'u cymharu ag 19% yn Lloegr ac 15% yn Yr Alban.

- 4.6 Roedd rhanddeiliaid yn credu'n eang nad oedd cyflogwyr neu unigolion yn ymwybodol o'r ystod eang o feysydd astudio sy'n cael eu dysgu drwy'r Prentisiaethau, a'u bod yn tueddu eu cysylltu fwy gyda meysydd 'traddodiadol' megis galwedigaethau crefftau medrus.

"Mae problem yn bodoli o hyd gyda'r syniadau sydd gan bobl maent yn gweithio ar ystrydebau hen ffasiwn nad ydynt efallai'n llawer o help....Mae Prentisiaethau ar gael ymhob math o ddiwydiannau erbyn hyn."

- 4.7 Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod yr Ardoll wedi gwneud y mater yma'n fwy argyfyngus, gan achosi i gyflogwyr sy'n ansicr am brentisiaethau geisio cychwyn Rhaglen heb fawr wybodaeth, ac yn ansicr sut i fynd o'i chwmpas hi.
- 4.8 Roedd darparwyr yn tueddu bod o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru wneud rhagor ar lefel genedlaethol i hybu prentisiaethau i bob cynulleidfia. Ond, er bod rhanddeiliaid yn rhannu'r farn bod angen gwneud mwy i hybu prentisiaethau, roedd rhai rhanddeiliaid yn weddol feirniadol o ddarparwyr yn y maes yma, ac yn teimlo mai'r darparwyr oedd yn gyfrifol am hyn ac nad oeddent yn gwneud digon i estyn allan i gyflogwyr a dysgwyr. Awgrymodd un rhanddeiliad y byddai'n rhaid gwella'r allgymorth yn fawr i blant oed ysgol a'u rhieni cyn y byddai gobaith llwyddo i ehangu'r Rhaglen yn sylweddol.

Hysbysebu Prentisiaethau

- 4.9 Mae cyflogwyr yn hysbysebu am brentisiaid drwy golegau a darparwyr hyfforddiant fel arfer. Roedd hyn yn lleihau'r ymdrech weinyddol i gyflogwyr ac yn sicrhau eu bod yn derbyn ymgeiswyr o ansawdd da oedd wedi'u dewis yn unigol gan ddarparwyr. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd y berthynas rhwng y darparydd a'r cyflogwr.
- 4.10 Roedd lleiafswm o'r cyflogwyr yn defnyddio dull mwy dwys o hysbysebu am brentisiaid, gan ddefnyddio eu sianelau eu hunain (gwefan, tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol) a gwefannau trydydd parti (yn cynnwys gwefan Gyrfa Cymru a Thŵf Swyddi Cymru).
- 4.11 Yn gyffredinol, roedd cyflogwyr i'w gweld yn fodlon gyda'u dull o recriwtio prentisiaid. Y rheswm pennaf am hyn oedd ansawdd y prentisiaid yr oeddent yn eu recriwtio, yn ogystal â'r nifer o ymatebion yr oeddent yn eu derbyn i'w hysbysebion, a pha mor hawdd yw'r broses recriwtio. Roedd y lleiafswm o gyflogwyr nad oeddent yn hapus â'r sianelau yr oeddent yn eu defnyddio'n teimlo nad oeddent yn derbyn

lefel ddigonol o adborth gan ddysgwyr a grwpiau eraill i'w helpu i wella eu strategaeth recriwtio.

Sylwadau am Ddarparwyr Hyfforddiant

- 4.12 Roedd gan randdeiliaid allweddol ac asiantaethau sy'n gysylltiedig â Llywodraeth Cymru farn gymysg am ddarparwyr hyfforddiant. Er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yma'n teimlo, ar y cyfan, bod darparwyr hyfforddiant yn ateb eu hanghenion mewn ffordd foddhaol, roedd rhai'n credu bod ansawdd yr addysgu a'r ymgysylltiad gydag anghenion y cyflogwr yn anghyson o un darparydd i'r llall, er nad oedd patrwm rhanbarthol cyffredinol. Nid oedd y rhanddeiliaid wedi rhoi manylion penodol y problemau a welsant gydag ansawdd yr addysgu.
- 4.13 Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod gwahaniaethau sylweddol rhwng y darparwyr cryfach a'r rhai gwanach. Er enghraifft, rhoddodd un rhanddeiliad enw darparydd oedd, yn eu barn hwy, yn canolbwyntio'n ormodol ar anghenion llond llaw o gyflogwyr mawr iawn yr oedd mewn partneriaeth â nhw, er anfantais i anghenion cyflogwyr llai yn lleol. Roedd y rhanddeiliad yn teimlo, am fod y darparydd yma'n dominyddu'n lleol, y byddai cyflogwyr bach yn yr ardal honno yng Nghymru'n derbyn gwasanaeth israddol i'r rheiny mewn ardaloedd gerllaw.
- 4.14 Roedd y cyflogwyr eu hunain yn gyffredinol bositif yn eu hasesiad o'r darparwyr yr oeddent yn gweithio â nhw. Soniodd y cyflogwyr am wybodaeth y darparwyr am y diwydiant, eu hyblygrwydd a'u cyfathrebiad gyda chyflogwyr fel elfennau allweddol o gryfder. Roedd mwyafrif y cyflogwyr hefyd yn teimlo bod gan ddarparwyr y sgiliau a'r wybodaeth gofynnol i ddarparu rhaglenni sy'n ateb gofynion y dysgwr ac yn cefnogi'r cyflogwyr.

Hyblygrwydd

- 4.15 Er bod dyddiadau'r Rhaglen yn ôl y sôn yn cyfateb â'r flwyddyn academiaidd yn y mwyafrif o achosion, roedd cyflogwyr yn gyffredinol yn teimlo bod hyn yn rhesymol. Derbyniwyd y byddai darparwyr yn gweithio i amserlen academiaidd ac nid oedd y cyflogwyr yn gwrthwynebu hynny ar y cyfan. Mewn sefyllfaoedd lle nad oedd amserlen y Brentisiaeth yn gyfan gwbl gyfatebol â'r busnes, gallai cyflogwyr addasu eu gweithrediadau fel arfer.
- 4.16 Soniodd lleiafswm o'r cyflogwyr bod yr hyblygrwydd mewn perthynas â dyddiadau cychwyn yn problem allweddol i'w busnesau, yn enwedig ymysg cyflogwyr sector preifat. Dan yr amgylchiadau yma, roedd gallu'r cyflogwr i negodi dyddiadau

cychwyn gyda'r darparwydd yn ddibynnol ar gryfder eu perthynas. Os yw perthynas y cyflogwr gyda'r darparwydd yn gadarnol, maent yn fwy tebygol o allu addasu'r dyddiadau cychwyn. Soniodd un cyflogwr ei fod yn cymryd ei brentisiaid ym mis Mehefin am ei bod hi'n werthfawr iddynt gael profiad o'r safle ar y pwynt hwnnw yn y flwyddyn.

- 4.17 Cadarnhaodd cwpwl o gyflogwyr eu bod yn gallu addasu cynnwys y Rhaglen Brentisiaeth i gyfateb ag agweddau penodol eu gweithredoedd busnes, er enghraifft lle'r oedd prentisiaid wedi eu seilio mewn adrannau busnes arbenigol iawn. Fodd bynnag, roedd un cyflogwr yn teimlo y dylai darparwyr hyfforddiant wneud mwy i deilwra'r gyfres sgiliau a ddarperir i'r gweithle penodol.
- 4.18 Lle'r oedd cyflogwyr wedi gofyn am gael addasu hyd Prentisiaeth – sydd fel petai'n ddibynnol ar ansawdd prentisiaid yn bennaf - roedd y darparwyr hyfforddiant yn hyblyg yn aml iawn, ac yn cytuno i'w ceisiadau.
- 4.19 O ran y strwythur dysgu, roedd y cyflogwyr yn gwerthfawrogi pam fo'n rhaid pennu diwrnod sefydlog fel arfer ar gyfer rhyddhau'r gweithwyr i fynd i ddysgu yn y dosbarth; ond nid oedd hyn yn atal y sefyllfa rhag mynd yn broblem lle'r oedd cyflogwyr yn cael trafferth gyda staffio. Roedd rheoli'r cydbwysedd rhwng dysgu yn y dosbarth a dysgu seiliedig ar waith yn amodol ar gyfathrebu da rhwng y darparwydd a'r cyflogwr.

Cyfathrebu

- 4.20 Er bod y rhan fwyaf o gyflogwyr yn canmol eu cyfathrebiad gyda darparwyr hyfforddiant, cafwyd rhai profiadau gwael. Gallai'r mwyafrif o gyflogwyr fonitro datblygiad y prentisiaid o dan eu gofal, a'r targedau ar eu cyfer, yn ogystal â gallu addasu dyddiadau cychwyn cyrsiau a'r broses asesu. Fodd bynnag, dywedodd lleiafswm o gyflogwyr bod problem gyda phrydlondeb ymatebion, diffyg ymatebolrwydd yn gyffredinol a methiant i ddibynnu arnynt i gysylltu â'r cyflogwyr ar yr amseroedd y cytunwyd arnynt.

Prentisiaethau yn yr Iaith Gymraeg

- 4.21 Roedd rhai rhanddeiliaid yn dadlau nad yw darparwyr dysgu'n creu'r cyfleoedd priodol ar gyfer dysgu dwyieithog – rhywbeth oedd, yn eu barn nhw, wedi'i seilio ar gamsyniad ynglŷn â galw isel.
- 4.22 Roedd rhai ohonynt yn cwestiynu ymrwymiad darparwyr hyfforddiant i gynnig darpariaeth cyfrwng Gymraeg yn ymarferol, gan nodi mai nifer fechan iawn o

ddarlithwyr oedd gan rai ohonynt a allai addysgu yn y Gymraeg. Dywedodd un ohonynt fod darparu fframweithiau drwy gyfrwng y Gymraeg yn waith caled ac yn creu goblygiadau cost sylweddol, a byddai llawer o ddarparwyr yn cael trafferth ateb y cwotâu a osodwyd.

- 4.23 Ond, cadarnhaodd y darparwyr eu bod wedi eu hymroddi i'w darparu ond eu bod yn wynebu cyfres o rwystrau i ddarparu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Roeddent yn awgrymu bod y diffyg galw a welsant gan ddysgwyr yn deillio o beidio bod eisiau dysgu mewn lleoliad ar wahân i ffrindiau a chydweithwyr; ac awgrymodd un arall bod dysgwyr yn pryderu am gael eu cosbi oherwydd sgiliau lefel is mewn ysgrifennu Cymraeg, a chyfieithu termau technegol. Fodd bynnag, y mater allweddol a ddaeth i'r amlwg ymysg darparwyr, wedi'i gefnogi i ryw raddau gan swyddogion, oedd prinder staff addysgu ac yn arbennig aseswyr sy'n ddigon rhugl yn Gymraeg.
- 4.24 Roedd un darparydd yn teimlo hefyd bod problem gyda hybu'r ochr Gymraeg a gyda'r ymwybyddiaeth ymysg dysgwyr a rhieni am yr opsiwn o ddefnyddio'r laith Gymraeg mewn prentisiaethau. Mae'r sylwadau a gafwyd mewn cyfweiliadau gyda chyflogwyr yn awgrymu bod yr ymwybyddiaeth yn gyfyngedig o bosib ymysg y grŵp yma, a bod llawer yn ymateb i gwestiynau fel pe na bai'r prentisiaethau Cymraeg yn bodoli'n barod, rhywbeth y gellir ei archwilio ymhellach yng nghan nesaf y gwerthusiad.

Gweithio mewn partneriaeth

- 4.25 Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn fodlon gyda'r strwythurau sydd wedi esblygu (neu wedi eu creu) i hwyluso cyfathrebiad rhwng sefydliadau sy'n darparu prentisiaethau. Roeddent yn teimlo bod cyfathrebiad rhwng y sefydliadau sy'n bwysig ar gyfer strategaeth a darparu prentisiaethau, drwy Bartneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol a sefydliadau sy'n cynrychioli'r diwydiant, yn bositif a chynhyrchiol.
- 4.26 Roedd rhanddeiliaid a darparwyr yn gwerthfawrogi cyfarfodydd rheolaidd gyda'r sefydliadau yma'n fawr iawn, yn enwedig lle'r oeddent yn galluogi iddynt dderbyn gwybodaeth o flaen llaw ac hefyd roi adborth i Lywodraeth Cymru. Yn arbennig, ystyriwyd y berthynas rhwng Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW) a Llywodraeth Cymru yn gryf a chydweithredol.
- 4.27 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr o'r farn bod Llywodraeth Cymru yn gefnogol iawn i ddarparu Prentisiaethau'n effeithiol. Ond, dywedodd un corff cyflogwyr y gallai Llywodraeth Cymru weithredu o'r brig i lawr, neu newid gofynion ar gam gweddol

hwyr, oedd wedi cael effaith ar berthnasau gyda busnesau. Dywedodd un darparydd prentisiaethau bod newidiadau yn strwythur y prentisiaethau wedi creu yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yn oedi a gweinyddiaeth dianghenraid o gymhleth, ac roeddent yn teimlo na allent ddarparu adborth arno'n ystyrlon.

- 4.28 Roedd rhanddeiliaid hefyd yn rhoi sylwadau'n aml ar y ffordd y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i gryfhau ei pherthynas gyda chyflogwyr. Roeddent yn teimlo'n arbennig bod diffyg arweiniad clir a chryno i gyflogwyr llai i esbonio sut i gymryd prentisiaid.
- 4.29 Soniodd y darparwyr yn gyffredinol am berthnasoedd da sy'n bodoli rhyngddynt. Soniodd un ymatebwr am drefniant lle'r oedd dau ddarparydd nad oeddent yn recriwtio yn eu hardaloedd daearyddol ei gilydd ond y byddent yn cyfeirio myfyrwyr at ei gilydd os nad oedd un yn darparu'r brentisiaeth yr oedd myfyriwr ei heisiau. Nododd un darparydd hyfforddiant sy'n is-gontractio am berthynas dda iawn gyda'r contractwr arweiniol, oedd wedi darparu cefnogaeth sylweddol i'w harwain nhw 'drwy'r ddrysfa Brentisiaeth'. Soniodd yr ymatebwyr am rannu gwybodaeth feincnodi i hysbysu darpariaeth.
- 4.30 Pwysleisiodd nifer o randdeiliaid bwysigrwydd magu ac annog perthynas gref rhwng y cyflogwyr a'r darparwyr; ac roeddent yn teimlo bod Prentisiaethau'n gweithio orau lle'r oedd y ddau'n gweithio'n agos gyda'i gilydd. Soniodd nifer o randdeiliaid bod angen datblygu'r perthnasoedd gyda chyflogwyr ymhellach, yn arbennig mewn ardaloedd daearyddol lle gallai darparwyr ddibynnu ar lond llaw o gyflogwyr mawr i gael ffrwd ddibynadwy o gofrestriadau prentisiaeth, ac felly nid oedd hyn yn eu hannog rhyw lawer i gysylltu gyda busnesau llai.

Crynodeb

- 4.31 Yn gyffredinol, roedd cyflogwyr a rhanddeiliaid ehangach yn weddol fodlon gyda darpariaeth y Rhaglen Brentisiaeth a sut mae'n gweithio mewn gwirionedd. Er bod ansawdd yr addysgu a lefel yr ymgysylltiad gydag anghenion cyflogwyr yn aml yn cael ei ystyried yn weddol amrywiol rhwng darparwyr, ar y cyfan roedd cyflogwyr yn canmol rôl y darparwyr hyfforddiant fel hyrwyddwyr, oedd yn helpu i gysylltu cyflogwyr gydag ymgeiswyr addas am safleoedd yn eu sefydliad.
- 4.32 Roedd y cyflogwyr hefyd yn weddol fodlon gyda maint ac ansawdd yr wybodaeth roeddent yn ei derbyn am y Rhaglen. Fodd bynnag, roedd llawer o randdeiliaid yn rhwystredig bod nifer o gyflogwyr a dysgwyr potensial yn dal i fod â chamsyniad am brentisiaethau, ac yn teimlo bod angen gwneud mwy o ymdrechion yn y maes yma.

4.33 Dyma oedd y prif sialensiau wrth ddarparu y tynnwyd sylw atynt yn y cyfweiliadau:

- Gwella hyrwyddiad y prentisiaethau i ddysgwyr potensial, rhieni a chyflogwyr, ac yn arbennig eu perswadio bod eu syniadau am brentisiaethau'n anghywir ar hyn o bryd.
- Sicrhau bod ansawdd y darparwyr hyfforddiant yn fwy cyson, yn enwedig yn nhermau addysgu ac ymgysylltu gydag anghenion cyflogwyr;
- Datgloi llwybr at gynyddu darpariaeth prentisiaethau Cymraeg; pennwyd nifer o rwystrau ymarferol wrth gyfweld, yn arbennig gyflenwad y staff ac ymwybyddiaeth cyflogwyr.
- Gwella'r berthynas rhwng darparwyr a chyflogwyr, yn enwedig gyda chyflogwyr llai.

5. Perfformiad y Rhaglen

- 5.1 Mae'r bennod yma'n asesu perfformiad y Rhaglen Brentisiaeth ers Ionawr 2015, ar sail y data am berfformiad a chanfyddiadau rhanddeiliaid. Roedd y data a ddefnyddiwyd yn deillio o'r LLWR, lle cofnodir yr holl brentisiaethau yng Nghymru ac y mae nodweddion dysgwyr a chanlyniadau dysgu'n cael eu monitro. Cyfunwyd hyn gyda data EDMS i alluogi cyfateb prentisiaethau gydag Amcanion Penodol ESF. Y data a ddefnyddiwyd oedd y diweddaraf oedd ar gael ar amser y dadansoddiad yn Hydref 2017. Mae'n cynnwys data sy'n ymdrin â'r cyfnod o fis Ionawr 2015 hyd fis Mawrth 2017.
- 5.2 Mae perfformiad yn cael ei asesu yma yn erbyn targedau a osodwyd ar gyfer y Rhaglen Brentisiaeth yng Nghynlluniau Busnes ESF (Ionawr 2015, a adolygir yn rheolaidd), ac hefyd mewn dogfennau polisi ehangach, yn cynnwys y Cynllun Polisi Prentisiaeth (Chwefror 2017).


Maint y Prentisiaethau

- 5.3 Cafodd nifer o gynlluniau perthnasol eu cyhoeddi ers 2015, y mae dau ohonynt yn derbyn ystyriaeth yma:
- Cynlluniau Busnes ESF: targed o 158,523 o brentisiaethau dros y cyfnod Ionawr 2015 hyd fis Rhagfyr 2023 (oddeutu 1,300 o gychwyniadau newydd bob mis, gan gymryd i ystyriaeth brentisiaid oedd ar y Rhaglen yn barod ar Ragfyr 31^{ain} 2014)
 - Y Cynllun Polisi Prentisiaeth, Chwefror 2017: ymrwymiad i 100,000 o brentisiaethau cyn Mehefin 2021 (yn gyfatebol i oddeutu 1,900 o ddechreuwyr newydd bob mis; nid yw'r ymrwymiad yma gan Lywodraeth Cymru'n rhoi ystyriaeth i brentisiaid sydd ar y Rhaglen yn barod).
- 5.4 Yn gyffredinol, roedd y rhai a gyfwelwyd yn bositif ynglŷn â darparu Rhaglen Brentisiaeth. Ond roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu bod targedau'r Rhaglen yn heriol yn y cyd-destun ac roedd rhai swyddogion yn teimlo nad oedd y niferoedd darparu cyffredinol wedi cyrraedd y nifer angenrheidiol. Roedd rhai'n dweud mai'r rheswm am hyn oedd y targedau uchelgeisiol, er bod eraill wedi dweud bod targedau cyffredinol oedd yn ymestyn mewn ffordd debyg wedi cael eu cyflawni o'r blaen.
- 5.5 Yn gyffredinol, roedd y Rhaglen Brentisiaeth wedi perfformio'n gryf mewn perthynas â Chynlluniau Busnes ESF, gyda chyfartaledd o 1,636 o gychwyniadau newydd bob mis. Ond roedd y lefel yma ychydig yn is na'r ymrwymiad a osodwyd yn y Cynllun Polisi Prentisiaethau. Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau a ddefnyddir yn yr adroddiad

yma'n cynnwys prentisiaid nad ydynt yn cael eu cyllido gan fentrau ESF; bydd effaith hyn yn derbyn ystyriaeth bellach yn yr adroddiad terfynol.

- 5.6 Mae Ffigur 5.1 yn dangos cofrestriadau Prentisiaeth bob yn fis o Ionawr 2015 hyd fis Mawrth 2017. Cafwyd amrywiaeth sylweddol o fis i fis, a hynny'n fwyaf nodedig o uchafbwynt o 4.222 o gofrestriadau ym mis Gorffennaf 2016 i 1,149 o gofrestriadau ym mis Awst 2016. Roedd yr uchafbwynt yma ym mis Gorffennaf 2016 yn ymwneud â chyflwyno'r rhaglen brentisiaethau i bob oedran, am fod darparwyr yn cael cofrestru nifer gynyddol o brentisiaid hŷn ar y pwynt hwnnw. Ers Ionawr 2015, aethpwyd y tu hwnt i darged Cynllun Busnes ESF yn y mwyafrif o fisoedd; ond bydd angen cynnydd sylweddol mewn cofrestriadau bob mis i gyflawni ymrwymiad y Cynllun Polisi Prentisiaethau, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2017; mewn dim ond pedwar mis ers 2015 y llwyddwyd i gyflawni'r nifer yma o gofrestriadau.


Ffigur 5.1 Y ddarpariaeth brentisiaethau gyfan, wedi ei mynegi yn nhermau cofrestriadau bob mis o'i gymharu gyda'r targed ESF ac ymrwymiad y Cynllun Polisi Prentisiaethau



Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y siart yma wedi'i seilio ar ddata rheoli EDMS/LLWR, fel ydoedd ym mis Mehefin 2017. Gwnaed y dadansoddiad gan IFF.

5.7 Mae Ffigurau 5.2 a 5.3 yn dangos cynnydd tuag at gyflawni targedau cyffredinol y Rhaglen sydd wedi eu nodi yng Nghynlluniau Busnes ESF. O ddiwedd mis Mawrth 2017, roedd y nifer gronnus o brentisiaethau a gychwynnodd (ychydig dros 63,220) 21 y cant yn uwch na'r targed ESF (ychydig dros 52,450 ar gyfer y cyfnod o fis Ionawr 2015)). (Ni ddangosir cynnydd tuag at ymrwymiad y Cynllun Polisi Prentisiaeth, am mai dim ond pedwar mis o ddata sydd ar gael).


Ffigur 5.2 Nifer y prentisiaethau: y cynnydd tuag at daro targed Cynllun Busnes Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)



Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y siart yma wedi'i seilio ar ddata rheoli EDMS/LLWR, fel ydoedd ym mis Mehefin 2017. Gwnaed y dadansoddiad gan IFF.

5.8 Fel mae Ffigur 5.3 yn ei ddangos, roedd amrywiaeth sylweddol ar draws y pedwar gweithrediad; er bod rhai gweithrediadau (sef Amcan Penodol 2 Dwyrain Cymru yn nodedig) yn uwch na'u targed ESF o ran niferoedd, roedd nifer y cofrestriadau bob mis yng ngweithrediad Amcan Penodol 1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 10 y cant yn is na'r targed (Cynllun Busnes ESF)

Ffigur 5.3 Nifer y cofrestriadau prentisiaeth bob mis, o'i gymharu â'r lefel sydd ei angen i gyflawni targed Cynllun Busnes yr ESF



Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y siart yma wedi'i seilio ar ddata rheoli EDMS/LLWR, fel ydoedd ym mis Mehefin 2017. Gwnaed y dadansoddiad gan IFF.


Fframweithiau prentisiaeth a gyflawnwyd

- 5.9 Roedd y perfformiad yn nhermau cyfraddau cyflawni fframweithiau'n llawer mwy cyfartal ar draws y pedwar maes gweithredu, gyda'r holl weithredoedd ledled Cymru'n dangos cyfradd cyflawni¹³ o fewn llai na phwynt canran i 82 y cant, ychydig yn uwch na'r targed ESF o 80 y cant. Mae hyn i'w weld yn Ffigur 5.4 isod.
- 5.10 Yn ôl y lefelau, roedd y cyfraddau cyflawniad yn ymddangos yn is ar gyfer lefel 4 na lefelau 2 a 3; ond efallai bod hynny wedi'i achosi gan y ffaith fod y prentisiaethau yma'n hirach a'r ffaith fod nifer y cystadleuwyr wedi cynyddu'n ddiweddar - yn hytrach na bod yma gyfradd cyflawniad is go iawn. Mewn geiriau eraill, mae cyfran uwch o'r rheiny sy'n gadael y fframweithiau yma'n ymadawyr *cynnar*, am y rheswm syml na chafwyd digon o amser i lawer o ddysgwyr llwyddiannus eu cwblhau nhw. Doedd y carfanau cychwynnol o gyflawnwyr llwyddiannus yn dilyn ehangu

¹³ Mae'r gyfradd gyflawni wedi'i chyfrifo fel nifer y prentisiaethau a gyflwynwyd yn llwyddiannus fel canran o'r cyfanswm o brentisiaethau sydd wedi dod i ben (naill ai'n llwyddiannus neu'n aflwyddiannus), yn ystod y cyfnod Ionawr 2015 hyd Fehefin 2017, gydag eithriadau amrywiol wedi'u disgrifio yn Atodiad A.

Prentisiaethau Uwch ond wedi cyrraedd pwynt cwblhau eu prentisiaeth yn weddol ddiweddar. Erbyn i adroddiad terfynol y gwerthusiad yma gael ei gynhyrchu, dylai darlun mwy eglur ymddangos o gyfraddau cwblhau'r prentisiaethau yma.

Ffigur 5.4 Targed: Cyfraddau cyflawniadau'r fframweithiau



Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y siart yma wedi'i seilio ar ddata rheoli EDMS/LLWR, fel ydoedd ym mis Mehefin 2017. Gwnaed y dadansoddiad gan IFF.

- 5.11 Yn gyfan, roedd 29.7 y cant o brentisiaethau Amcan Penodol 1 (26.5 y cant yn Nwyrain Cymru a 31.4 y cant yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd) yn cynnwys cydran Sgiliau Hanfodol Cymru, yn unol â'r targed ESF o 30 y cant.
- 5.12 Roedd rhanddeiliaid yn gyffredinol yn siarad yn bositif am y cyfraddau cyflawniad ar draws y Rhaglen Brentisiaeth yng Nghymru, er bod un wedi cwestiynu ansawdd y dysgu oedd yn cael ei chyflawni y tu ôl i'r niferoedd. Roeddent yn dadlau bod y ffocws ar niferoedd a thargedau'n golygu bod prentisiaid yn fwy tebygol o basio nag o'r blaen, a gallai hyn felly fod yn gostwng safon y Prentisiaethau, yn nhermau dyfnder y dysgu a gafwyd drwy'r Rhaglen.


Lefelau Uwch a phynciau STEM

- 5.13 Roedd rhai rhanddeiliaid a gyfwelwyd ar gyfer y gwaith ymchwil yma'n sôn am y ffaith fod y llwybrau angenrheidiol wedi eu gosod i alluogi dysgwyr i symud ymlaen i

Brentisiaethau Uwch, ond roedd y rhanddeiliaid yn teimlo nad yw nifer y Prentisiaethau Uwch a gymerwyd hyd yn hyn yn adlewyrchu hynny eto.

- 5.14 Cefnogwyd y safbwynt yma'n gryf gan y data; fel y gwelwch yn Ffigur 5.5, er gwaethaf y pwyslais ym mholisi Llywodraeth Cymru ar hybu Prentisiaethau Uwch (Lefel 4 neu'n uwch) a'r tynnu blaenoriaeth oddi ar rai Prentisiaethau Sylfaen Lefel 2 penodol, ychydig iawn o newid a gafwyd yn nhermau'r gyfran o gofrestriadau yn ôl y lefel hyd yn hyn, gyda 23.0 y cant o gofrestriadau ar Lefel 4 neu'n uwch yn 2016, o'i gymharu gyda 27.4 y cant yn 2015. Efallai bod hyn, yn rhannol, yn ganlyniad i'r amseriadau hir sy'n gysylltiedig â dod â newid o'r fath yn weithredol.
- 5.15 Wedi dweud hynny, mae'r ffigurau yma'n mynd ymhell dros dargedau Cynllun Busnes ESF ar gyfer lefelau uwch. Mae'r cynlluniau'n awgrymu y dylai 10.0 y cant o ddysgwr Amcan Penodol 2 fod yn astudio ar Lefel 4 neu'n uwch. Yn wir, mae 33.2 y cant wedi gwneud hynny dros y Rhaglen hyd yn hyn. Disgwyliwyd yn wreiddiol i gyfranogwyr Amcan Penodol 1 fod yn astudio'n gyfan gwbl ar Lefel 2, ond mewn gwirionedd mae 9.0 y cant wedi bod yn astudio ar Lefel 3 a 2.5 y cant ar Lefel 4 neu'n uwch.

Ffigur 5.5 Canran y cofrestriadau prentisiaeth ar bob lefel, dros amser



Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y siart yma wedi'i seilio ar ddata rheoli EDMS/LLWR, fel ydoedd ym mis Mehefin 2017. Gwnaed y dadansoddiad gan IFF.

- 5.16 Dadleuodd nifer o ddarparwyr a rhanddeiliaid bod gwrthdaro rhwng y targed cyffredinol ar gyfer cynyddu'r niferoedd o brentisiaethau a phrentisiaid, a'r symudiad pellach sydd wedi'i gynllunio – oddi wrth ddarparu darpariaeth ar Lefel 2 i ddarparu ar Lefel 4 neu'n uwch. Roeddent yn sôn yn arbennig cymaint anoddach a chostus oedd hi i ddarparu cymwysterau lefel uwch, y mae'r rhaglenni ar eu cyfer yn llawer hirach fel arfer. Ond, am fod y symudiad yma heb ddigwydd (eto) yn ymarferol (am ei fod wedi'i amlinellu yng nghyhoeddiad y Cynllun Polisi Prentisiaethau ym mis Chwefror 2017), nid yw eto'n bosibl archwilio'r mater yma gan ddefnyddio data.
- 5.17 Mae'n rhy fuan i ddweud ar y cam yma os oes symudiad wedi digwydd tuag at ddarparu prentisiaethau yn y sectorau STEM ers cyhoeddi'r Cynllun Polisi Prentisiaethau: yn 2015, roedd 11.0 y cant o gofrestrïadau prentis mewn sectorau STEM, o'i gymharu gyda 10.2 y cant yn 2016, ac nid oes unrhyw ddata dibynadwy ar gael eto yn ymwneud â'r cyfnod ar ôl cyhoeddi'r Cynllun Polisi Prentisiaethau. Mae'n debygol y bydd y data yn y cam gwerthuso nesaf yn dangos darlun llawnach.

Defnyddio Prentisiaethau

Prentisiaethau i staff newydd a chyfredol


- 5.18 Mae cyflogwyr yn defnyddio Prentisiaethau'n bennaf i gyflogi staff newydd am amrywiaeth o resymau. Soniodd rhai bod angen cryfhau neu adfywio eu busnes gyda phersonél newydd, ac roedd eraill yn ystyried cyflogi prentisiaid yn ffordd o ehangu eu busnes.
- 5.19 Roedd llawer o'r cyflogwyr yma'n hyfforddi prentisiaid i ymdrin ag anghenion busnes oedd yn dod i'r amlwg, ac yn gobeithio y byddai'r cynllun yn helpu i baratoi prentisiaid i weithio'n dda o fewn eu busnes. Roedd sicrhau bod prentisiaid yn dod yn gyfarwydd â phrosesau a dulliau gweithio'n bwysig i fusnesau, oherwydd roeddent yn teimlo'n gyffredinol ei bod hi'n anoddach gwneud hynny gyda'r rheiny a recriwtiwyd o sefydliadau eraill.

Prentisiaethau i bob oedran

- 5.20 Ers cyfnod gweddol hir, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi pwyslais cryf ar ehangu hygyrchedd prentisiaethau i bob oedran. Nododd yr ymatebwyr bod prentisiaethau yn dal i gael eu hystyried yn eang iawn fel rhywbeth i bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol: *“Dydw i ddim yn meddwl bod gennym drafodaeth ddatblygedig iawn am y syniad o Brentisiaethau i Bob Oedran”*.

- 5.21 Dywedodd un darparrydd bod recriwtio digon o bobl ifanc 16-19 oed yn her go iawn oherwydd newidiadau demograffig (niferoedd yn gostwng yn y grŵp oedran yma) a'r ffaith nad oes cymaint o barch i brentisiaethau â'r parch sydd i lwybrau academaidd traddodiadol (roeddent yn teimlo bod rhieni'n llai tebygol o annog pobl ifanc i wneud prentisiaeth). Ym mhen arall y dosbarthiad oedran, dywedodd dau gyfweilydd bod angen gwneud Prentisiaethau'n fwy hygyrch i grwpiau hŷn.
- 5.22 Yn wrthgyferbyniol i'r adborth yma gan y rhanddeiliaid, mae dadansoddiad o ddata am berfformiad yn dangos bod cynnydd sylweddol wedi digwydd yn y cyfeiriad yma. Fel y gwelwch yn Ffigur 5.6 isod, y duedd gyffredinol yw cynnydd cynaliadwy mewn cofrestriadau gan grwpiau oedran hŷn.

Ffigur 5.6 Canran y cofrestriadau prentisiaeth ym mhob grŵp oedran, dros amser




Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y siart yma wedi'i seilio ar ddata rheoli EDMS/LLWR, fel ydoedd ym mis Mehefin 2017. Gwnaed y dadansoddiad gan IFF.

- 5.23 Mae hyn yn gwrthdaro i ryw raddau gyda thargedau cynllun busnes ESF; mae gan bob gweithrediad darged o naill ai 87 y cant (Amcan Penodol 2) neu 90 y cant (Amcan Penodol 1) o gyfranogwyr o dan 25 oed. Mae'r targedau yma ychydig bellter ar hyn o bryd o gael eu cyflawni, fel y gwelwch yn Ffigur 5.7.
- 5.24 Fodd bynnag, llwyddwyd i wneud yn well na'r targed mewn perthynas â chyrraedd dysgwyr hŷn (a ystyrir yn 55+ oed) a hynny o nifer dda (2.3 y cant o gofrestriadau, yn hytrach na'r targed o 0.5 y cant). Yn berthnasol i hynny, llwyddwyd i fynd ymhell

y tu hwnt i'r targed ar gyfer recriwtio dysgwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu yn y cartref (e.e. ar gyfer aelod o'r teulu): dywedodd 13.4 y cant o ddysgwyr bod ganddynt gyfrifoldebau gofal plant o'i gymharu gyda tharged o ddim ond dau y cant. Ymhellach, mae'r ffigurau ar gyfer cofrestriadau 2016 yn dangos cynnydd o'i gymharu â 2015. Mae dysgwyr ar lefelau uwch yn arbennig o debygol o fod â chyfrifoldebau gofalu.

- 5.25 Mae'r targed ESF yn benodol i ddysgwyr gyda chyfrifoldebau gofal plant yn hytrach na chyfrifoldebau gofalu eraill, felly mae'r cynnydd tuag at y targed yma i'w weld yn Ffigur 5.7; ond mae hi werth nodi bod data LLWR yn dangos bod gan 14.1% o ddysgwyr gyfrifoldebau gofalu sydd wedi eu diffinio'n fwy eang.

Ffigur 5.7 Targed: Dysgwyr yn nodi bod ganddynt gyfrifoldebau gofal plant: yn ôl y flwyddyn, y gweithrediad a'r lefel




Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y siart yma wedi'i seilio ar ddata rheoli EDMS/LLWR, fel ydoedd ym mis Mehefin 2017. Gwnaed y dadansoddiad gan IFF.

Amrywiaeth

- 5.26 Mae Llywodraeth Cymru ac ESF wedi gosod targedau ar gyfer prentisiaethau yn nhermau rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd.
- 5.27 Nododd ddau randdeiliad wahaniaethau mawrion rhwng y rhywiau wrth edrych ar y Prentisiaethau a gymerwyd yn ôl y sector, gyda mwy o ferched yn brentisiaid mewn meysydd megis gofal, gofal plant, gwaith chwarae ac addysgu. Ond, soniodd un darparrydd am gynnydd yn y gyfran o brentisiaid sy'n ferched ar brentisiaethau gwaith plymwr.
- 5.28 Roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod prif ffrydio'r rhywiau'n sialens arbennig oherwydd yr ystrydebau yn ymwneud â'r rhywiau (gan gyflogwyr, dysgwyr a'u teuluoedd), a'r camsyniad bod Prentisiaethau'n ymwneud â gwaith llaw gan fwyaf ac felly wedi eu canolbwyntio ar rolau sy'n nodweddiadol 'wrywaidd'. O ddweud hynny, roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo eu bod wedi gweld newid positif yn y cyswllt hwn, er enghraifft drwy waith Partneriaethau Sgiliau a Dysgu Rhanbarthol yn gweithio'n uniongyrchol gyda chyflogwyr i hybu cyfranogaeth benywod mewn galwedigaethau sy'n draddodiadol wrywaidd.
- 5.29 Roedd cyflogwyr yn y diwydiannau lle mae dynion yn fwy cyffredin yn sôn eu bod yn dal i dderbyn ceisiadau gan ddynion yn bennaf, ac nad oeddent wedi gweld unrhyw dueddiadau tymor hir o symud tuag at gydbwysu'r rhywiau yng nghyfansoddiad eu hymgeiswyr. *“Mae'r gweithwyr sydd wedi dod yma wedi bod yn ddynion i gyd. Mae'n debyg am ein bod yn chwilio am weithwyr weldio, adeiladu a defnyddio peiriannau. Does dim llawer o ferched sy'n tueddu mynd am y math yma o waith beth bynnag.”*
- 5.30 Er gwaethaf y materion hyn y tynnwyd sylw atynt gan gyflogwyr unigol, roedd y data'n dangos bod y Rhaglen yn cwrdd â'r targed o 56 o gofrestriadau merched yn gyffredinol, fel y gwelwch yn Ffigur 5.8. Er bod Amcan Penodol 2 ac yn enwedig elfennau Prentisiaeth Uwch y Rhaglen yn mynd yn llawer uwch na'r targedau, roedd Amcan Penodol 1 a Lefel 2 heb lwyddo i daro'r targed ar gyfer dysgwyr sy'n ferched.

Ffigur 5.8 Targed: Dysgwyr yn cyflwyno fel benywod: yn ôl y flwyddyn, y gweithrediad a'r lefel




Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y siart yma wedi'i seilio ar ddata rheoli EDMS/LLWR, fel ydoedd ym mis Mehefin 2017. Gwnaed y dadansoddiad gan IFF.

- 5.31 Roedd Cynlluniau Busnes ESF wedi gosod targed hefyd i 0.5 y cant o'r dysgwyr fod yn ferched ac yn rhan amser; yn gyfan, mae 14.0 y cant o'r dysgwyr yn cyflwyno fel benywod ac yn dweud eu bod yn gweithio am 16 i 29 awr bob wythnos yn ystod eu prentisiaeth, sy'n dangos bod y targed yma'n cael ei gyflawni'n gyfforddus ar draws y gweithredoedd i gyd.
- 5.32 Fodd bynnag, yn bennaf, nid oedd y cyflogwyr unigol a gyfwelwyd yn teimlo bod amrywiaeth yr ymgeiswyr sy'n gwneud cais am Brentisiaethau yn eu sefydliad yn lledu. Roeddent yn tueddu awgrymu mai'r rheswm am hyn yw natur ac apêl recriwtio'r diwydiant yr oeddent yn gweithio ynddo yn gyffredinol, yn hytrach na'u gweithredoedd unigol fel cyflogwr. Doedd y cyflogwyr a soniodd eu bod yn derbyn ceisiadau gan ystod ehangach o unigolion ddim yn gweld hyn fel newid diweddar.
- 5.33 Soniodd lleiafswm o gyflogwyr yn glir eu bod wedi gweld cynnydd yn amrywiaeth y prentisiaid sy'n gwneud cais am safleoedd yn eu sefydliadau. Roeddent yn teimlo bod cost is gwneud Prentisiaeth o'i gymharu â gradd yn annog ystod ehangach o ymgeiswyr i wneud cais. Mae'r data'n cefnogi'r farn yma i ryw raddau.

5.34 Mae Ffigur 5.9 yn dangos bod y targedau wedi eu cyflawni a'u pasio, ar y cyfan, ar gyfer y gyfradd o brentisiaid gyda chefnidir BME. Gosodwyd y targed o 2.2 y cant ar yr un lefel drwy Gymru i gyd, ac aethpwyd yn llawer uwch na'r targed yn Nwyrain Cymru, ond ni chafodd y targed daro yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Y rheswm am hyn, yn rhannol o leiaf, yw bod y targed wedi ei osod yn gyfartal i bob ardal o Gymru ond bod cyfran uwch o boblogaeth BME yn ddaearyddol yn Nwyrain Cymru.

Ffigur 5.9 Targed: Dysgwyr yn eu huniaethu eu hunain ag ethnigrwydd wedi'u categorïddio fel Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn ôl y flwyddyn, y gweithrediad a'r lefel




Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y siart yma wedi'i seilio ar ddata rheoli EDMS/LLWR, fel ydoedd ym mis Mehefin 2017. Gwnaed y dadansoddiad gan IFF.

5.35 Roedd y Cynlluniau Busnes yn gosod targedau hefyd ar gyfer recriwtio dysgwyr gydag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith; gwelir y canlyniadau yn Ffigur 5.10. Er na chyflawnwyd y targed yma ar y cyfan (dywedodd 5.6 y cant o ddysgwyr bod ganddynt anabledd neu gyflwr iechyd yn ymwneud â gwaith, o'i gymharu â tharged o 6.3 y cant), mae'r gyfres amser yn dangos cynnydd da tuag at y targed a gyflawnwyd yn 2016, er bod rhyw ffordd i fynd o hyd. Yn ogystal, pasiwyd

y targed yn Amcan Penodol 1 ac ar Lefel 2, er nad ar gyfer Amcan Penodol 2 a phrentisiaethau ar Lefel 3 a Lefel 4.

Ffigur 5.10 Targed: Dysgwyr yn adrodd am anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gwaith yn ôl y flwyddyn, y gweithrediad a'r lefel



Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y siart yma wedi'i seilio ar ddata rheoli EDMS/LLWR, fel ydoedd ym mis Mehefin 2017. Gwnaed y dadansoddiad gan IFF.

Prentisiaethau Cymraeg


- 5.36 Roedd llawer o swyddogion Llywodraeth Cymru wedi nodi bod nifer y Prentisiaethau Cymraeg a gymerir yn faes oedd yn perfformio'n arbennig o wael. Roedd teimlad cyffredinol bod y ffigurau heb wella'n fawr ers 2015 ac yn cymharu'n wael gyda'r gyfran o ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn ysgolion. Fel y nodwyd ym Mhennod 4, gallai'r rhwystrau hynny i ddarparu'r Prentisiaethau yma a nodwyd gan randdeiliaid, cyflogwyr a darparwyr helpu i esbonio'r mater yma.
- 5.37 Mae amrywiaeth o ffyrdd o ddiffinio'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg; yma, dros dro, rydym wedi defnyddio'r diffiniad bod yn rhaid i o leiaf un gydran o'r brentisiaeth fod ag o leiaf faint sylweddol o'r dysgu a'r addysgu yn y Gymraeg, yn cynnwys

deunyddiau ysgrifenedig¹⁴. Yn gyfan gwbl, roedd 4.6 y cant o brentisiaethau yn ystod y Rhaglen yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ôl y diffiniad yma, sydd ychydig yn uwch na'r targed o 4.5 y cant, fel y gwelir yn Ffigur 5.11. Mae cyfran uwch o brentisiaethau'n cynnwys rhyw ddefnydd o'r Gymraeg mewn o leiaf un gydran (11.6 y cant), ond mewn dim ond 0.3 y cant o achosion roeddent oll yn gydrannau a addysgwyd ac a aseswyd yn y Gymraeg yn unig.

- 5.38 Mae targed Cynllun Busnes ESF wedi'i osod ar 4.5 y cant i bob rhanbarth a gweithrediad. Ond, roedd y gyfran o brentisiaethau Cymraeg a dwyieithog ddeg gwaith yn uwch yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (6.9 y cant) nag oeddent yn Nwyrain Cymru (0.6 y cant). Mae hyn yn cyfateb yn agos gyda'r dosbarthiad o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru; yn wir, roedd cyfran y prentisiaethau dwyieithog ac iaith Gymraeg hyd yn oed yn uwch ymysg dysgwyr sydd wedi'u seilio ym Môn (49.7 y cant) a Gwynedd (48.1 y cant).
- 5.39 Mae'r defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn Prentisiaethau'n dangos patrwm o ostyngiad yn ôl yr hyn a welir, o 7.0 y cant ymysg cychwynwyr yn 2015 i 4.2 y cant yn 2016. Ond mae'n debyg mai'r rheswm cyflawn neu rannol am hyn yw'r newid mewn diffiniadau yn y LLWR.

¹⁴ Yn deillio o wybodaeth sy'n cael ei chadw am addysgu ac asesu cydrannau prentisiaeth ar y LLWR. I gael rhagor o wybodaeth gwelwch Atodiad B.

Ffigur 5.11 Prentisiaethau: y mae darparwyr yn adrodd eu bod yn cael eu darparu'n ddwyieithog yn ôl y flwyddyn, y gweithrediad a'r lefel



Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y siart yma wedi'i seilio ar ddata rheoli EDMS/LLWR, fel ydoedd ym mis Mehefin 2017. Gwnaed y dadansoddiad gan IFF.

Gwerth am Arian

- 5.40 Roedd swyddogion yn teimlo bod y Rhaglen Brentisiaeth wedi gwneud cyfraniad economaidd positif i Gymru, oherwydd cyfuniad o ddau beth – y gyfran uchel o Brentisiaethau a sicrhodd swydd i bobl a'r ffaith fod sgiliau angenrheidiol ar gael i gyflogwyr.
- 5.41 Yn bennaf, roedd cyflogwyr yn teimlo bod y Rhaglen Brentisiaeth yn darparu sgiliau sy'n ddefnyddiol i'w busnesau, ac felly'n rhoi gwerth am arian. Dywedodd y cyflogwyr bod y cyfleoedd i weithio a grëwyd gan y Rhaglen wedi bod 'werth y gost' o ran cost y Rhaglen, am fod dysgwyr yn cyfrannu at yr economi ehangach drwy eu gwaith, a'r arian roeddent yn ei ennill ac yn ei wario'n lleol. Roedd y cyflogwyr hefyd yn cydnabod pwysigrwydd Prentisiaethau fel llwybr arall i mewn i gyflogaeth ac yn teimlo bod hyn yn well na'r brifysgol mewn rhai ffyrdd, am nad yw prentisiaid yn creu yr un lefel o ddyled â nifer o fyfyrwyr.
- 5.42 Fodd bynnag, soniodd nifer fechan o gyflogwyr bod arian yn cael ei wastraffu ar gostau gweinyddol; roedd yr arian yma'n cael eu 'golli', yn hytrach na mynd i'r

sefydliadau sy'n rhedeg y Rhaglen. Roedd gan rai darparwyr hefyd bryderon am brosesau gweinyddol aneffeithlon a roddwyd ar waith, yn arbennig yn ymwneud ag ardystio ac asesu sgiliau sylfaenol.


Addasrwydd targedau a metrigau

- 5.43 Galwodd fwy nag un rhanddeiliad am fwy o ystyriaeth yn nhermau amrywiaeth rhanbarthol a sectoraidd yn y cynllun targedau; roeddent yn teimlo y byddai modd sianelu adnoddau'n fwy llwyddiannus os byddai Llywodraeth Cymru'n gwneud mwy i ddeall ac ymateb i'r amrywiaeth yn nhermau sectorau a'r anghenion sy'n codi wedyn ar gyfer y gweithluoedd.
- 5.44 Roedd un ymatebwr yn dadlau y dylid rhoi'r brif ffocws ar ddeilliannau (e.e. cynnal swydd gynaliadwy) er mwyn beirniadu'r Rhaglen yn hytrach nag edrych ar gyflawniad fframwaith Prentisiaeth. Roedd un arall yn teimlo bod angen i ariannwyr gymryd agwedd fwy pragmatig a rhoi mwy o ystyriaeth i'r ffaith bod materion y tu allan i reolaeth y darparydd (megis y cyd-destun economaidd ehangach) yn gallu dylanwadu ar gyfraddau a chanlyniadau cwblhau. Roedd un ymatebwr yn awgrymu bod angen i gyfeiriad cyffredinol y gwaith o fonitro rhaglenni roi mwy o bwyslais ar feirniadu ansoddol (yn cynnwys, heb fod yn benodol, ansawdd gwaith y darparwyr) yn hytrach na chanolbwyntio ar "*dicio bocsys meintiol*".

Meysydd allweddol ar gyfer gwella perfformiad

- 5.45 Mae Ffigur 5.12 yn crynhoi'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni targedau canran allweddol drwy'r Rhaglen gyfan. Fel y gwelwch, er bod y Rhaglen wedi mynd ymhell y tu hwnt i'r targedau mewn rhai meysydd penodol (yn cynnwys cydbwysedd rhwng y rhywiau, oedran y dysgwyr, dysgwyr gyda chyfrifoldebau gofal plant a dysgwyr rhan amser benywaidd), mae dipyn o ffordd i fynd o hyd mewn meysydd eraill. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn y meysydd hyn wrth i'r gwerthuso barhau.
- 5.46 Er mai'r canfyddiad ymysg rhanddeiliaid oedd bod y Rhaglen yn perfformio'n dda yn nhermau targedau sy'n ymwneud ag amrywiaeth a mynediad i ddysgu, roedd y perfformiad yn cyfateb gyda'r targedau yn y meysydd yma mewn gwirionedd, heblaw recriwtio dysgwyr gydag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gwaith.

Ffigur 5.12 Targedau canran drwy'r rhaglen gyfan o gynlluniau busnes: crynodeb o ganlyniadau



Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y siart yma wedi'i seilio ar ddata rheoli EDMS/LLWR, fel ydoedd ym mis Mehefin 2017. Gwnaed y dadansoddiad gan IFF.

Crynodeb

- 5.47 Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid a chyflogwyr yn fodlon gyda'r ffordd yr oedd y rhaglen yn perfformio, er bod rhai targedau heb eu cyflawni, yn arbennig mewn perthynas â'r niferoedd ar y prentisiaethau'n gyffredinol a'r gyfran o ddysgwyr a lwyddodd i gyflawni eu cymwysterau. Yn gyffredinol, ystyriwyd y rhaglen yn werth da am arian i'r rhanddeiliaid ac i'r cyflogwyr, er bod strwythurau gweinyddol cymhleth yn lleihau'r gwerth am arian i rai cyflogwyr a darparwyr.
- 5.48 Roedd rhai darparwyr yn teimlo y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i ddaearyddiaeth a sector yn y targedau a osodir, ac yn wir ar gyfer rhai targedau (niferoedd prentisiaeth yn anad dim) mae gwahaniaethau daearyddol clir yn y llwyddiant i gwblhau targedau. Ond mae'n aneglur a yw'r rhain yn ymwneud ag amrywiaeth yn y lefel o uchelgais wrth osod targedau, neu amrywiadau ym mherfformiad y Rhaglen. Bydd cam nesaf y gwaith ymchwil yn ceisio deall hyn yn well.
- 5.49 Mae hi'n bwysig cofio hefyd bod rhai newidiadau mewn polisi – yn cynnwys y rheiny a amlinellwyd yn gyntaf yn y Cynllun Polisi Prentisiaeth ym mis Chwefror 2017, megis y symudiad tuag at bynciau STEM – yn rhai gweddol ddiweddar i ddweud y gwir. Ni fyddem yn disgwyl gweld symudiad tuag at y targedau yma yn y data a

ddadansoddwyd ar gyfer yr adroddiad yma (hyd fis Mawrth 2017). Bydd y cynnydd yn y meysydd yma'n cael ei archwilio ymhellach yn ystod cam terfynol y gwerthusiad pan fydd data wedi'i ddiweddararu ar gael.

6. Effeithiau'r Rhaglen

- 6.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r gwahanol fannau y gellir disgwyl i'r Rhaglen Brentisiaeth gael effaith arnynt, yn cynnwys y dysgwyr a'r cyflogwyr sy'n cyfranogi yn y rhaglen ond hefyd y deilliannau cymdeithasol ac economaidd ehangach.
- 6.2 Ar y cam gwerthuso interim yma, mae'r canfyddiadau am effaith yn ymwneud dim ond â safbwyntiau'r rhanddeiliaid, cyflogwyr a darparwyr a gyfwelwyd yn ystod y gwaith ymchwil. Bydd cam terfynol y gwerthusiad yn cynnwys gwerthusiad o effaith net a dadansoddiad cost-budd, a bydd yn cynnwys canfyddiadau a gafwyd mewn arolygon meintiol o ddysgwyr, cyflogwyr a darparwyr, ac hefyd o gyfweiliadau pellach â rhanddeiliaid. Bydd yr arolygon a'r cyfweiliadau yma'n gyfle i lenwi unrhyw fylchau yn y dadansoddiad, er enghraifft natur a maint unrhyw bryderon sydd gan gyflogwyr am ddarpariaeth hyfforddiant.

Yr effaith ar brentisiaid

- 6.3 Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid a chyflogwyr yn teimlo bod y Rhaglen Brentisiaeth yn cael effaith sylweddol ar brentisiaid a chyflogwyr.
- 6.4 Gallai cyflogwyr adnabod nifer o effeithiau positif y Rhaglen o safbwynt eu prentisiaid, yn cynnwys cynnydd gyrfao, datblygiad sgiliau a gwelliant yn y cyfresi sgiliau presennol, yn ogystal â'r cyfle i ennill arian wrth ddysgu. Sylwodd y cyflogwyr hefyd ar gynnydd yn lefelau hyder eu prentisiaid, ochr yn ochr â chynnydd mewn hunan-barch a phenderfyniad i lwyddo yn y rôl yma.

"Mae'r effaith o ran gwella lefelau sgiliau prentisiaid unigol yng Nghymru wedi bod yn sylweddol".

- 6.5 O ymatebion y cyflogwyr a'r rhanddeiliaid, gwelwyd bod gwneud prentisiaeth yn gallu bod yn brofiad sy'n adeiladu cymeriad ac yn gwella hyder y prentis, ac y byddai'n debygol o arwain at swydd foddhaus:

"Mae'n eu cymhell i fod eisiau cyflawni. Mae'n eu hysgogi i fod eisiau cyrraedd y safon; mae hynny'n beth bositif heb os nac oni bai."

- 6.6 Thema gyffredin yn syniadau'r rhanddeiliaid am Brentisiaethau oedd creu cyfleoedd i unigolion a fyddai fel arall yn methu sicrhau cyflogaeth, gan ddarparu cymhwyster a fyddai'n gwneud eu sgiliau'n fwy gwerthadwy.
- 6.7 Ymhellach, roedd rhai rhanddeiliaid yn ystyried bod llwybrau Prentisiaeth yn cynhyrchu unigolion sydd, o'u cymharu â'r rheiny a gymerodd lwybr hollol

academaidd, â chyfres gyflawn o sgiliau ar gyfer y gweithlu. Trwy ddarparu profiad gwaith ochr yn ochr â chymhwyster, mae prentisiaid yn datblygu sgiliau hanfodol ar gyfer bod yn rhan o weithlu – sgiliau sy'n drosglwyddadwy i unrhyw swydd, p'un a ydynt yn parhau â gyrfa yn yr un sector ai peidio.

- 6.8 Roedd un swyddog hefyd yn disgrifio sut y gallai Prentisiaethau adeiladu hyder, yn arbennig i unigolion sydd efallai wedi colli swydd a/neu wedi cael eu gwrthod dro ar ôl tro yn y gorffennol.

Effeithiau ar gyflogwyr

- 6.9 Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn teimlo bod y Rhaglen yn cael effaith fuddiol ar gyflogwyr.
- 6.10 Roedd rhanddeiliaid yn teimlo mai prif fantais Prentisiaethau i gyflogwyr oedd eu bod yn cael y cyfle i ddysgu sgiliau i'r prentis yn unol ag anghenion penodol y cwmni. Dywedodd un: *"Mae'r cwmni'n cael unigolion wedi eu hyfforddi'n dda sy'n ateb gofynion y cwmni, am eu bod yn hyfforddi o fewn y cwmni."* Roedd un arall yn nodi bod y Rhaglen Brentisiaeth wedi helpu i ddod â chyflogwyr a darparwyr addysg at ei gilydd.
- 6.11 Dywedodd rhanddeiliaid eraill bod y Rhaglen Brentisiaeth yn fuddiol i fusnesau ledled Cymru, er enghraifft i wella sgiliau cronfa o bobl ifanc sy'n mynd i mewn i'r farchnad lafur, sy'n golygu bod y cyflogwyr yn mynd i'w chael hi'n haws recriwtio pobl gyda'r sgiliau y maent eu hangen. Soniodd rhai rhanddeiliaid am sectorau unigol (megis gofal) lle'r oedd lefelau sgiliau wedi cynyddu o ganlyniad uniongyrchol i'r Rhaglen Brentisiaethau. Ond, awgrymodd un corff oedd yn cynrychioli cyflogwyr bod angen cael eich arwain gan y galw wrth ddarparu Prentisiaethau, gyda'r "farchnad a'r busnes", yn hytrach na'r Llywodraeth, yn penderfynu pa feysydd sydd i gael blaenoriaeth, sectorau a sgiliau.
- 6.12 Os na fyddai'r Rhaglen Brentisiaeth yn bodoli, roedd y mwyafrif o gyflogwyr yn teimlo y byddent yn gallu canfod ffyrdd eraill o recriwtio a hyfforddi gweithwyr cyfredol ac arfaethedig, er nad oedd unrhyw un a gyfwelwyd yn credu y byddai'r opsiwn arall yma'n well. Byddent wedi defnyddio rhaglenni hyfforddiant o fewn y cwmni i hyfforddi'r staff sydd ganddynt yn barod a recriwtiaid newydd, byddent wedi recriwtio pobl ifanc ac wedi eu rhoi'n bartner gydag aelodau cyfredol cwbl gymwysedig o staff i gael profiad, neu byddent wedi amnewid prentisiaid gyda staff sgiliedig.

- 6.13 Fodd bynnag, roedd cyflogwyr yn teimlo bod Prentisiaethau'n bwysig, yn cynnig cyfres gydnabyddedig ac achrededig o sgiliau, a gyflawnwyd drwy hyfforddiant o safon uchel gyda chymhorthdal. Roedd y cyflogwyr yn nodi hefyd bod hyfforddiant o fewn y cwmni yn aml yn gyfyngedig o ran ei gwmpas ac felly, i nifer o gyflogwyr, mae'r Rhaglen Brentisiaeth yn cyflwyno cyfle unigryw i ddatblygu eu staff a hwyluso cynnydd o fewn y busnes.
- 6.14 Ar ben hynny, mae darparwyr (a'r gwasanaeth cyfateb prentisiaethau) yn ysgafnhau baich gweinyddol recriwtio a hyfforddiant i gyflogwyr. Felly, byddai'r broses recriwtio hefyd yn gofyn llawer mwy o waith os na fyddai prentisiaethau'n bodoli; dywedodd rhai cyflogwyr y byddai'n rhaid iddynt hysbysebu swyddi gwag yn ehangach ac y byddai'r broses yn gostus.
- 6.15 Er bod llond llaw o gyflogwyr yn teimlo nad oedd cyfranogi yn y Rhaglen wedi gwella gallu'r busnes i gynhyrchu'n uniongyrchol, roeddent yn cydnabod eu bod wedi cael unigolyn talentog a ddaeth â syniadau newydd ac ysgogiad ffres i'r busnes.
- 6.16 Ond, yn bennaf, nid oedd y cyflogwyr yn canolbwyntio ar fanteision busnes uniongyrchol y Prentisiaethau wrth eu cyfweld; yn hytrach, roeddent yn sôn am resymau allgarol dros ddefnyddio'r Rhaglen. Er enghraifft, soniodd un cyflogwr eu bod wedi defnyddio'r Rhaglen Brentisiaeth am eu bod wedi canfod rhywun o fewn busnes oedd â photensial ac roeddent eisiau iddo fwrw ymlaen â'i addysg. Roedd rhai busnesau eraill yn ei hystyried hi'n ddyletswydd, fel cyflogwyr cyfrifol, i 'uwchsgilio'r ardal leol', neu roeddent eisiau cefnogi'r bobl ifanc hynny oedd heb gael llawer o gyfle ac yr oedd eu rhagolygon am waith yn isel.
- 6.17 O ran ystyried a yw'r sylwadau yma'n cynrychioli barn y cyflogwyr i gyd, bydd y cwestiwn yma'n cael ei archwilio ymhellach yn yr arolwg cyflogwyr meintiol, a fydd yn digwydd yng ngham nesaf y gwerthusiad.

Yr effaith ar sgiliau

- 6.18 Nod y ddau weithrediad ESF yw gwella sgiliau yn y gweithlu ar ddwy lefel:
- Amcan Penodol Un – Cynyddu'r lefelau sgiliau, yn cynnwys sgiliau sy'n berthnasol i waith, y rheiny yn y gweithlu sydd heb sgiliau neu y mae eu sgiliau'n isel, ac
 - Amcan Penodol Dau – Cynyddu'r nifer o bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a sgiliau penodol i swydd ar lefel ganolradd ac uwch.

- 6.19 Yn gyffredinol, roedd y bobl a gyfwelwyd yn credu bod y Rhaglen Brentisiaeth wedi cael effaith mewn perthynas â'r ddau amcan. Roedd gan randdeiliaid sylwadau amrywiol ynglŷn â pha un o'r ddau oedd yn cael ei ateb yn fwyaf effeithiol; roedd rhai'n teimlo bod cyllid is y prentisiaethau Lefel 2 yn cyfaddawdu'r nod cyntaf, tra bo cynnydd ar yr ail wedi gwella'n nodedig ers 2015 gyda'r symudiad at brentisiaethau uwch a hybu prentisiaethau i ystod oedran ehangach o ddysgwyr.
- 6.20 Er hynny, dywedodd un ymatebwr mai dim ond 12 i 15 y cant o fusnesau yng Nghymru sy'n ymwneud ar hyn o bryd gyda'r Rhaglen¹⁵ a bod '*angen i hyn newid*'. Roedd nifer o randdeiliaid a darparwyr eraill yn teimlo hefyd mai ychydig o gyflogwyr oedd yn cyfranogi; ond roedd nifer ohonynt yn teimlo bod cyflwyniad yr Ardoll Brentisiaeth yn helpu i yrru ymgysylltiad cyflogwyr, er na fyddai hyn wrth gwrs ond yn effeithio ar gyflogwyr mawr sy'n ei dalu.
- 6.21 Roedd un swyddog yn teimlo bod angen mwy o waith i hybu cyflogaeth Brentisiaeth ymysg pobl hŷn, ac felly greu "gweithlu sy'n amrywio o ran oedran". Roeddent yn teimlo bod gan Brentisiaethau'r gallu i roi'r sgiliau y maent eu hangen i'r rheiny sydd dros 50 oed a fydd yn eu cadw mewn swyddi, ond mae angen cydnabod a defnyddio hyn yn ehangach.

Gwneud dysgu'n fwy hygyrch, a Ffyniant i Bawb

- 6.22 Gofynnwyd i'r ymatebwyr asesu a oedd y Rhaglen wedi gwneud dysgu'n hygyrch i drawstoriad ehangach o'r gymdeithas. Roedd rhanddeiliaid yn teimlo, er bod y Rhaglen "ar y trywydd cywir", bod y data oedd ar gael yn gyfyngedig. Roedd un yn dadlau bod cyfeiriad diweddar y Rhaglen wedi gwella ansawdd Prentisiaethau (yn nhermau cyflawni dysgu defnyddiol), yn hytrach nag ehangu'r grŵp o recriwtiaid.
- 6.23 Dywedodd un darparydd ei fod wedi gwneud ymdrechion i recriwtio pobl ifanc o ardaloedd gwledig ac o gefndiroedd difreintiedig, lle'r oedd cyfleoedd yn fwy cyfyngedig. Roedd rhai cyflogwyr a rhanddeiliaid yn dadlau bod Prentisiaethau'n opsiwn heb ddyled, yn wahanol i gwrs gradd, ac y byddai felly'n apelio at drawstoriad ehangach o'r gymdeithas: "*Nid yw [Prentisiaethau] yn ymwneud â chael swydd yn unig a chael eich hyfforddi ar gyfer hynny, mae'n ymwneud â chael sgiliau sy'n gadael i chi ennill bywoliaeth ac yn eich gwneud yn gyflogadwy, heb gostau'r Brifysgol.*"

¹⁵ Mae ystadegau Arolwg o Safbwyntiau Cyflogwyr (2016) yn dangos bod 19% o gyflogwyr yn Lloegr yn defnyddio Prentisiaethau o'i gymharu â 15% yng Nghymru a'r Alban.

- 6.24 Er bod ystod ehangach o unigolion yn dysgu am y Rhaglen nag ydoedd gynt, y prif wendid ym marn llawer o bobl oedd y gwaith o'i hybu i ddysgwyr ac, yn bwysig iawn, i'w rhieni: *"mae [y] Rhaglen Brentisiaeth yn cynnig cyfleoedd i bawb; rwy'n wir gredu hynny. Mae'n ymwneud â sicrhau fod pobl yn ymwybodol o'r cyfleoedd yma,"*

Datblygiad Cynaliadwy

- 6.25 Cytunodd rhanddeiliaid o asiantaethau'r llywodraeth bod y model Prentisiaeth yn cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy. Am fod dysgwyr yn cyfrannu at economïau rhanbarthol drwy ennill cyflog wrth iddynt ddysgu, roedd prentisiaethau'n fwy atyniadol yn nhermau datblygiad cynaliadwy na gwneud cwrs gradd neu goleg llawn amser. Roedd rhanddeiliaid eraill yn teimlo bod y Rhaglen yn eu helpu i roi stop ar ymadawiad y sgiliedig o Gymru drwy roi swyddi i bobl a'u galluogi i gyfrannu at economi Cymru.
- 6.26 Roedd rhai cyflogwyr yn teimlo bod gan Brentisiaethau fanteision oedd yn mynd y tu hwnt i'w cwmni, am eu bod o fantais i economi Cymru. Drwy eu gwaith gyda phrentisiaid, yn helpu prentisiaid i ychwanegu gwerth i fusnesau ar draws y wlad, roedd y cyflogwyr yma'n teimlo y byddai hyn yn creu cenedl fwy ffyniannus a chystadleuol:

"Rydym yn hapus ein bod yn cynyddu'r galluoedd yma...hyd yn oed os yw hynny'n helpu [y dysgwr] gyda'r hyn y maent angen ei wneud i fynd i'r brifysgol; byddwn yn gwneud hynny i gyd dim ond fel rhan o fod yn gyflogwr yn yr ardal. Mae'n golygu mwy na dim ond [cael prentisiaid] i [weithio i] ni."

- 6.27 Soniodd cwpwl o gyflogwyr am oblygiadau'r Rhaglen i ddatblygiad cynaliadwy yn yr economi lleol, gan awgrymu bod y rhaglen yn debygol o olygu y bydd mwy o arian yn cael ei wario mewn ardaloedd lleol a bod pobl ifanc, uchelgeisiol yn fwy tebygol o chwilio am gyflogaeth yng Nghymru yn hytrach na symud i Loegr i weithio.

Ymdrin â Thlodi

- 6.28 Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd ystyried a oedd y Rhaglen wedi lliniaru tlodi yng Nghymru. Yn gyffredinol, roedd ganddynt syniadau tebyg i'r rhai a nodwyd o'r blaen - roedd y rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod gweithgareddau sy'n helpu i hybu dysgu a chyflogaeth yn debygol yn eu hanfod o helpu i ostwng tlodi. Efallai y gallai'r asesiad o effaith daflu rhagor o oleuni yn y maes yma.

Crynodeb

Meysydd sy'n cael yr effaith fwyaf

- 6.29 Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid a chyflogwyr yn teimlo bod prentisiaethau'n cael effaith bositif ar brentisiaid a chyflogwyr, mewn amrywiaeth eang o feysydd. Er y gallai cyflogwyr ystyried opsiynau eraill i'w defnyddio os na fyddai'r Rhaglen yn bodoli, nid oedd unrhyw un ohonynt yn teimlo y byddai'n ddewis gwell, naill ai i'r cyflogwr na'r dysgwr.
- 6.30 Teimlwyd yn eang hefyd bod y Rhaglen wedi cael effaith bositif ar yr economi ehangach yng Nghymru, er ei bod hi'n anodd cael tystiolaeth goncrit o hyn.

Meysydd lle gellid cynyddu'r effaith

- 6.31 Roedd barn pobl yn amrywio am wendidau'r Rhaglen yn nhermau eu heffaith; roedd rhai'n teimlo bod y gostyngiad mewn prentisiaethau Lefel 2 yn golygu y byddai llai o effaith wrth symud ymlaen ar y rheiny heb sgiliau neu sydd â nifer fechan o sgiliau; ond roedd eraill yn teimlo bod y pwyslais ar brentisiaid iau yn golygu y byddai'r gwaith o wella sgiliau gweithwyr hŷn yn cael llai o flaenoriaeth.
- 6.32 Mae'n anodd canfod maint y gwendidau yma ar y cam hwn; y bwriad yw gwneud dadansoddiad o'r effaith feintiol yn rhan o gam terfynol y gwaith ymchwil yma i daflu golau ar y mater pwysig yma.
- 6.33 Fodd bynnag, cytunwyd yn eang bod y gwaith o hyrwyddo'r Rhaglen yn faes lle gellid gwneud y Rhaglen yn fwy effeithiol a thrawiadol. Roedd llawer o bobl yn teimlo mai'r ffactor sy'n cyfyngu ar y Rhaglen Brentisiaeth yn fwy na chynllun neu ddarpariaeth yw'r ymwybyddiaeth ohoni ymysg cyflogwyr a recriwitiaid posibl.

7. Casgliadau

- 7.1 Nod y bennod hon yw casglu at ei gilydd yr holl ganfyddiadau a gyflwynwyd mewn penodau blaenorol, yn ogystal ag asesu i ba raddau y mae'r Rhaglen yn cael ei darparu fel yr oedd wedi'i bwriadu ac asesu a ydyw'n cyflawni'r canlyniadau a ragwelwyd.

Amcanion a Rhesymeg y Rhaglen

- 7.2 Mae amcanion a rhesymeg cyffredinol y Rhaglen Brentisiaethau wedi bod yn gyson dros y cyfnod 2015 i 2017 sydd dan sylw yn y gwerthusiad interim yma. Mae'r themâu allweddol o greu gweithlu hynod fedrus i ateb anghenion y busnes, gan hefyd alluogi unigolion i gyflawni eu potensial, yn dal i gael eu hystyried yn eang fel rhai dilys a phwysig i Gymru gyfan.
- 7.3 Ond roedd naws arwyddocaol i'r ffordd y mynegwyd yr amcanion hyn drwy bolisi Prentisiaeth a chyllido Rhaglenni ar gyfer lefelau a phynciau penodol, sydd â goblygiadau sylweddol i ddarpariaeth a chyflawniad (er nad yw'r rhain wedi gweithredu i raddau mawr eto dros gyfnod y gwaith ymchwil yma).
- 7.4 Cafodd y symudiad mewn ffocws tuag at brentisiaethau STEM a Phrentisiaethau Uwch ei groesawu ar y cyfan gan randdeiliaid, cyflogwyr a darparwyr, ond roedd rhai pryderon ynghylch y pynciau a'r lefelau hynny a gollodd eu blaenoriaeth o ganlyniad i hyn. Yn arbennig, roedd pryder ymysg rhai darparwyr a rhai randdeiliaid y gellid cael canlyniadau nas bwriadwyd os rhoddir y cap (10 y cant o bob un sy'n cychwyn) ar ddysgwyr 20+ oed mewn meysydd astudio nad ydynt yn cael blaenoriaeth ar Lefel 2. Er bod eithriad rhag y cap yma i ddysgwyr sy'n ymrwymo o'r cychwyn yn eu Cynllun Dysgu Unigol i barhau i Lefel 3, roedd rhai darparwyr a rhai rhanddeiliaid yn parhau'n bryderus y gallai'r polisi yma o bosib eithrio rhai grwpiau oedd â lefelau sgiliau gwanach cyn cychwyn rhag gwneud prentisiaethau'n gyfan gwbl. Hefyd gallai'r cap wrthdaro weithiau gyda maes astudio a lefel dewisiadau y cyflogwr ei hun sy'n ceisio 'adennill' y taliadau ardoll.

Darparu'r Rhaglen

- 7.5 Hyd yn hyn, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod y gweithgareddau craidd sy'n creu'r Rhaglen Brentisiaeth yn cael eu darparu fel y bwriadwyd ac yn cael eu croesawu. Dywedodd cyflogwyr o amrywiaeth o sectorau eu bod yn cael y strwythur brentisiaethau'n ddefnyddiol, a'i bod yn addas i anghenion eu busnes. Roedd y

mwyafrif yn hapus gyda'r ystod o bynciau a chwricwlwm a gynigir, yn ogystal â'r cyfleoedd i gymryd Prentisiaethau Cymraeg neu ddwyieithog.

- 7.6 Mae'r berthynas rhwng cyflogwyr a darparwyr yn elfen hanfodol yn llwyddiant y Prentisiaethau unigol a'r Rhaglen gyfan. Yn gyffredinol, ystyriwyd y darparwyr mewn ffordd bositif; yn arbennig y rôl y maent yn ei chwarae i gefnogi cyflogwyr i ateb anghenion busnesau drwy recriwtio Prentisiaid. Ond, roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod amrywiaeth sylweddol i'w gael yn ansawdd yr addysgu a'r hyblygrwydd rhwng darparwyr ac, mewn rhai achosion, bod angen bod yn fwy creadigol wrth ymgysylltu â chronfa ehangach o gyflogwyr posibl. Mae sicrhau mwy o gysondeb yn ansawdd y dysgu a'r ymgysylltiad gyda chyflogwyr ar draws y darparwyr hyfforddiant yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth felly ar gyfer y Rhaglen Brentisiaeth.
- 7.7 Mae canfyddiadau'r gwaith ymchwil yn dangos bod anawsterau wedi codi wrth geisio ehangu Prentisiaethau Cymraeg a dwyieithog cyn belled ag y cynlluniwyd yn wreiddiol; er bod targed cyffredinol Cynllun Busnes ESF i Gymru wedi'i gyflawni, mae'r defnydd a wnaed ohono y tu allan i Orllewin Cymru a'r Cymoedd (sydd ei hun wedi'i yrru gan ddefnydd mawr yng Ngogledd Orllewin Cymru) wedi bod yn is na'r targed. Mynegodd y rhanddeiliaid, cyflogwyr a darparwyr amrywiaeth o sylwadau am achosion ac atebion ond mae'r diddordeb llai na'r disgwyl yn awgrymu diffyg ymwybyddiaeth am Brentisiaethau Cymraeg a dwyieithog ymysg cyflogwyr. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu i raddau hefyd bod llai o alw na'r disgwyl gan y dysgwyr eu hunain, y gallai rhai ohonynt fod yn llai hyderus efallai mewn asesiad ysgrifenedig yn yr iaith Gymraeg nag y byddent wrth ei siarad o ddydd i ddydd.
- 7.8 Roedd y gwaith ymchwil yn ystyried bod y broses o hyrwyddo a hybu ymwybyddiaeth o brentisiaethau yn achos pryder allweddol, ac yn faes arbennig lle'r oedd gwelliant yn angenrheidiol. Er enghraifft:
- Roedd llawer o randdeiliaid yn sôn bod angen sicrhau cydraddoldeb rhwng Prentisiaethau a chymwysterau academiaidd – graddau prifysgol yn arbennig. Gellir gwneud hyn drwy weithio gyda chynghorwyr gyrfaoel a disgyblion ysgol, ac yn fwy eang gyda phobl ifanc ac yn arbennig rieni.
 - Soniodd nifer o'r bobl a gyfwelwyd mor bwysig yw cynyddu ymwybyddiaeth cyflogwyr, dysgwyr a'u rheini am y brentisiaeth fel y mae mewn gwirionedd yn hytrach na'r syniad ystrydebol ohoni.

Perfformiad ac Effaith y Rhaglen

- 7.9 Mae amrywiaethau mewn ymwybyddiaeth a syniadau pobl am Brentisiaethau'n codi'r cwestiwn ai'r grwpiau y mae'r rhaglen yn eu targedu yw'r rheiny sy'n cofrestru ar y Prentisiaethau mewn gwirionedd.
- 7.10 Fel y trafodwyd uchod, dim ond yn lleol neu ar lefel benodol y cafwyd sialensiau wrth geisio cyflawni'r rhan fwyaf o dargedau Cynllun Busnes ESF, a hynny'n cynnwys nifer y prentisiaethau a'r cyfraddau llwyddiant. Mae canfyddiadau'n awgrymu bod y Rhaglen wedi gwneud yn well na'r targedau'n gyfforddus iawn yn nhermau cynhwysedd rhywiau, yn cynnwys cydbwysedd rhwng y rhywiau, dysgwyr gyda chyfrifoldebau gofal plant a dysgwyr rhan amser benywaidd. Mae hefyd yn denu cyfran fwy o ddysgwyr hŷn na'r hyn a dargedwyd, gan awgrymu ei fod yn wasanaeth Prentisiaeth *pob oedran* go iawn (er bod targedau ESF i ddysgwyr iau na 25 heb gael eu cyrraedd o bell ffordd o ganlyniad). Mae arwyddion cynnar yn awgrymu bod hyn wedi digwydd efallai ar draul dysgwyr 16-19 oed, lle mae'r nifer sy'n dewis eu cymryd yn gostwng o bosibl. Mae hwn yn bwnc sydd angen ei ddadansoddi ymhellach yn y gwerthusiad terfynol.
- 7.11 Mae cychwyniadau Prentisiaeth misol wedi bod ychydig yn is yn y gorffennol na'r lefel sydd ei hangen i gyflawni'r targed yn y Cynllun Polisi Prentisiaethau a osodwyd ym mis Chwefror 2017, gan awgrymu bod angen cynnydd mewn cofrestriadau i gyflawni hwn. Er na welwyd unrhyw dystiolaeth eto yn y data o gynnydd mewn cofrestriadau, ychydig iawn o gyfle sydd wedi bod i hyn ymddangos am nad yw'r data ar gael eto.
- 7.12 Mae canfyddiadau'r gwaith ymchwil ynghylch y gwahaniaeth y mae'r Rhaglen wedi'i wneud yn arwydd o ganfyddiad cryf bod Prentisiaethau'n cael effaith positif ar brentisiaid ac ar gyflogwyr fel ei gilydd. Bydd yr effeithiau yma'n cael ei harchwilio ymhellach yng ngham terfynol y gwerthusiad drwy ddadansoddiad arolwg meintiol.
- 7.13 Yn aml iawn roedd y bobl a gyfwelwyd yn mynegi effeithiau yn nhermau'r manteision i'r Prentis (datblygiad a chyfleoedd), yn hytrach nag effeithiau *busnes* penodol. Ar lefel y cyflogwr unigol, mae'n ymddangos bod cymhellion i ymgysylltu â Phrentisiaeth yn deillio o deimlad allgarol. Y duedd yw mai randdeiliaid o sefydliadau sail polisi sy'n rhoi mwy o sylwadau am fanteision gweithlu medrus sy'n cwrdd ag anghenion busnes.
- 7.14 Bydd y dadansoddiad o effaith gwrthffeithiol yn y gwerthusiad terfynol yn taflu goleuni ar y cwestiwn: a yw cyllido Prentisiaethau'n creu cyfleoedd *ychwanegol* na

fyddent wedi bodoli heb y Rhaglen yma? O siarad mewn perthynas ag ansawdd, er y gallai cyflogwyr feddwl am lwybrau dysgu eraill y gallent eu defnyddio os na fyddai'r Rhaglen yn bodoli, nid oedd unrhyw un ohonynt yn teimlo y byddai'r rhain yn well na'r Prentisiaethau, naill ai i'r cyflogwr nac i'r dysgwr.

- 7.15 Teimlwyd yn eang hefyd bod y Rhaglen wedi cael effaith bositif ar gymdeithas ac economi ehangach Cymru, er ei bod hi'n anodd cael tystiolaeth goncrit o hyn.

Heriau'r Dyfodol

- 7.16 Mae'r gwaith ymchwil wedi canfod ystod o heriau i ddarpariaeth y Rhaglen Brentisiaeth y bydd angen i ailadroddiad y Rhaglen yn y dyfodol ymdrin â nhw, ac a fydd yn cael ei archwilio ymhellach yn y cam gwerthuso nesaf. Mae cyfres bellach o heriau a welwyd yn ffactorau cyd-destunol sydd y tu allan i'r Rhaglen ei hun, yn cynnwys yr Ardoll Brentisiaeth ac ymadawiad arfaethedig y DU â'r Undeb Ewropeaidd.
- 7.17 Cododd bob un bron iawn o'r rhanddeiliaid gyflwyniad yr Ardoll Brentisiaeth fel mater i'w drafod; roedd darparwyr a rhanddeiliaid yn disgwyl yn eang i hon gynyddu'r nifer fyddai'n cymryd prentisiaethau yng Nghymru. Gwelodd y darparwyr heriau hefyd o ran darparu'r nifer a'r proffil sector o brentisiaethau yr oedd cyflogwyr sy'n talu ardoll yn gofyn amdanynt. Er bod y tyfiant posibl mewn niferoedd darparu yn creu sialensiau logistaidd, prif bryder y darparwyr oedd y gallai cyflogwyr sy'n talu ardollau ofyn am broffil o lefelau a meysydd astudio sy'n gwrthdaro gyda blaenoriaethau Llywodraeth Cymru i symud tuag at brentisiaethau sector STEM a lefel uwch.
- 7.18 Soniodd rai rhanddeiliaid bod Brexit yn debygol o greu sialensiau i'r Rhaglen, oherwydd gallai olygu bod yr ariannu ESF yn dod i ben. Soniodd un bod y ffocws ar Brexit wedi tynnu sylw rhanddeiliaid oddi ar y targed o ddiwygio'r Rhaglen Brentisiaeth.

Y Camau Nesaf

- 7.19 Mae'r adroddiad yma'n darparu gwerthusiad interim o'r rhaglen Brentisiaeth. Bydd cam nesaf, a therfynol, y gwerthusiad yma'n cymryd agwedd adolygol, gan edrych yn ôl ar y rhaglen dros y cyfnod llawn o Ionawr 2015 hyd Fawrth 2019. Bydd y gwaith a wneir yn y cam terfynol yma'n casglu rhagor o dystiolaeth i ateb yr amcanion a'r nodau uchod, a bydd hefyd yn canolbwyntio ar asesu effaith y rhaglen

ar fuddiolwyr – cyflogwyr a Phrentisiaid - ac yn asesu'r gwerth am arian y mae'n ei gynrychioli.

7.20 Bydd y gwerthusiad terfynol hefyd yn dwyn at ei gilydd yr holl dystiolaeth a gasglwyd drwy gydol y gwerthusiad i ddod i gasgliadau am effeithiolrwydd, effeithlondeb ac effaith y rhaglen a gwneud argymhellion ar gyfer datblygu polisi'r dyfodol.

7.21 Dyma fydd elfennau allweddol y gwaith ymchwil:

- Rhagor o ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid allweddol
- Arolwg o ddarparwyr Prentisiaethau
- Arolwg o gyflogwyr Prentisiaethau
- Dadansoddiad o Arolwg Cyfranogwyr ESF
- Cyfweiliadau manwl gyda Phrentisiaid
- Adolygiad wrth ddesg a dadansoddiad o ddata eilaidd
- Dadansoddiad o effaith gwrthffeithiol a dadansoddiad o gost-budd.

8. Argymhellion

- 8.1 Mae'r rhanddeiliaid o'r farn bod cynllun a darpariaeth y Rhaglen Brentisiaeth yng Nghymru'n bositif ac yn darparu'n dda yn erbyn llawer o'i thargedau. Mae'r adran yma'n rhoi argymhellion y gellid eu hystyried ar gyfer gwneud newidiadau i ddarpariaeth y rhaglen Brentisiaeth ac ymwybyddiaeth pobl ohoni, er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf o'r rhaglen.

Ymgysylltu ymhellach gyda darparwyr am fanylion tynnu'r flaenoriaeth oddi wrth brentisiaethau Lefel 2

- Yn gyffredinol, mae pobl yn ystyried bod y ffocws cynyddol ar brentisiaethau STEM a phrentisiaethau uwch yn beth positif. Ond, roedd rhai darparwyr a chynrychiolwyr cyflogwyr yn bryderus y gallai'r cap ar gyllido i brentisiaethau Lefel 2 mewn meysydd astudio nad ydynt yn cael blaenoriaeth, achosi gostyngiad yn y recriwtio i brentisiaethau Lefel 3 yn yr un pynciau, am fod dysgwyr yn aml yn symud i mewn i'r rhain o Lefel 2. Yn wir, mae darpariaethau yn eu lle i brentisiaid ymrwymo o'r cychwyn un i wneud prentisiaeth Lefel 3 yn y pen draw; ond, mae'n ymddangos nad yw'r rhain yn cael eu defnyddio rhyw lawer gan y darparwyr a'r cyflogwyr a gyfwelwyd. Efallai y byddai Llywodraeth Cymru'n ei chael hi'n ddefnyddiol i drafod gyda darparwyr y posibilrwydd o ddefnyddio'r darpariaethau yma.
- Roedd rhai darparwyr yn ansicr hefyd sut i gyfateb y polisi o ostwng nifer y prentisiaethau Lefel 2 mewn meysydd astudio nad ydynt yn cael blaenoriaeth gyda'r hyn yr oeddent yn ei ystyried yn lefel debygol o uchel o alw gan gyflogwyr sy'n talu Ardoll ar gyfer y prentisiaethau hynny, ac a fyddai hefyd yn croesawu arweiniad yn y maes yma.

Biwrocratiaeth symlach

Dywedwyd bod cyflwyno mentrau newydd, newidiadau i achrediadau a gofynion asesu (er enghraifft, yn ymwneud ag asesu gwybodaeth flaenorol ar gyfer Sgiliau Hanfodol), a newidiadau i systemau gweinyddol yn achosi llawer iawn o waith papur a biwrocratiaeth i ddarparwyr. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried ffyrdd o symleiddio a lleihau'r gwaith papur a'r gofynion adrodd i ddarparwyr, a beth yw'r ffordd orau o gyfathrebu unrhyw newidiadau gynted ag sy'n bosibl i'r darparwyr fel bod modd iddynt baratoi o flaen llaw.

Cyfathrebiad ac ansawdd y darparydd

- Dywedodd y rhanddeiliaid bod lefel ymgysylltiad y darparydd gyda chyflogwyr yn amrywiol, yn enwedig mewn perthynas â chyflogwyr llai nad ydynt yn talu'r Ardoll Brentisiaeth. Awgrymwyd hefyd gan gynrychiolwyr cyflogwyr a rhanddeiliaid y gallai rhai darparwyr fod yn fwy creadigol wrth ymdrin â chronfa ehangach o gyflogwyr posibl.

- Gallai Llywodraeth Cymru ystyried mesurau pellach i annog darparwyr hyfforddiant i ymgysylltu â chyflogwyr nad ydynt yn defnyddio prentisiaethau ar hyn o bryd, yn enwedig wrth ddatblygu cynnig sy'n berthnasol i gyflogwyr llai.

Cynyddu ymwybyddiaeth ac ymdrin ag ystrydebau

- Awgrymodd yr ymatebwyr mai'r prif ffactor sy'n cyfyngu ar dyfiant y rhaglen brentisiaeth yw diffyg ymwybyddiaeth ymysg rhai cyflogwyr a recriwtiaid posibl, ac hefyd y cynnydd yn yr amrediad o alwedigaethau a sectorau yr ymdrinir â nhw; a'r ffaith fod prentisiaethau'n cael llai o barch na llwybrau prifysgol traddodiadol gan rai rhieni a phobl ifanc.
- Gallai Llywodraeth Cymru weithio gyda darparwyr i ddatblygu cynllun i ymgysylltu ymhellach gydag ysgolion a phobl ifanc, yn cynnwys drwy hybu'r wybodaeth ac adnoddau cyfredol (ar-lein) yn ehangach.

Teilwra Targedau i gyd-destunau lleol

- Gosodir targedau ESF yn genedlaethol ac er bod cyfle mewn Cynlluniau Busnes i amrywio targedau, yn ymarferol maent yn cael eu defnyddio yr un fath ymhob ardal weithredol ar hyn o bryd, beth bynnag fo cyfansoddiad y boblogaeth leol. Byddai mwy o amrywiad daearyddol a sectoraidd yn y targedau a osodir yn ddefnyddiol, am fod demograffeg leol yn effeithio ar ba mor hawdd neu anodd yw hi i gwrdd â thargedau. Mae hyn yn ymwneud yn arbennig â thargedau prentisiaethau Cymraeg, sy'n weddol hawdd eu cyflawni yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (felly nid oes llawer o gymhelliad i wella ymhellach), ac eto'n anodd iawn eu cyflawni yn Nwyrain Cymru (ac felly'n debygol o gael eu gwrthod fel rhai amhosibl, gan olygu nad oes cymhelliad yn y fan honno chwaith i'w gwella). Mae'r gwrthwyneb yn wir am y targed ar gyfer prentisiaid BME lleol, sy'n weddol hawdd ei gyflawni mewn rhannau o Gymru oherwydd y ddemograffeg leol, ac eto efallai'n afrealistig mewn rhannau eraill o Gymru.
- Efallai y byddai'n ddefnyddiol adolygu rhai o dargedau Cynllun Busnes ESF er mwyn ystyried proffil oed newidiol y prentisiaethau. Llwyddir i gyflawni'n uwch na rhai o'r targedau presennol (yn enwedig y targedau'n ymwneud â chyfrifoldebau gofal plant a gweithwyr rhan amser benywaidd) fel sgil-ffaith i'r newidiadau yn y dosbarthiad oedran ac felly efallai na fydd hynny'n creu pwysau i wella neu i gynnal y gwaith o wella cynhwysiad y grwpiau yma.

Cynyddu ymwybyddiaeth am y gefnogaeth a'r wybodaeth bresennol

- Awgrymodd llawer o ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu deunyddiau gwybodaeth, megis y diweddariadau am newidiadau i'r rhaglen, defnyddiau ynghylch y ffordd mae prentisiaethau'n cael eu hariannu o safbwynt y cyflogwr a chrynodebau o fframweithiau prentisiaeth unigol y gallai darparwyr eu dosbarthu ymysg cyflogwyr. Mae'r mathau eang yma o ddeunyddiau'n bodoli'n barod mewn un ffurf neu'i gilydd; mae hyn yn awgrymu nad yw rhai cyflogwyr wrthi'n rhagweithiol

bob amser yn chwilio am wybodaeth, ac nad yw gwybodaeth yn cael ei dosbarthu mewn ffordd mor rhagweithiol ag y gallai fod (yn cynnwys gan ddarparwyr).

- Roedd hi'n ymddangos hefyd nad oedd rhai cyflogwyr yn gwybod bod prentisiaethau ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried beth yw'r ffordd orau o gynyddu ymwybyddiaeth am adnoddau cyfredol, ymysg cyflogwyr llai yn arbennig.

Cyfeiriadau

Rolewska, A. (2017). Briefing note: The position of the Welsh Language in Apprenticeship programmes in Wales. Comisiynydd y Gymraeg.

Llywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop. (2017). MANYLEB a CHANLLAWIAU'R RHAGLEN DDYSGU SEILIEDIG AR WAITH I BRENTISIAETHAU, HYFFORDDEIAETHAU a RHAGLENNI TŴF SWYDDI CYMRU [ar-lein] Ar gael ar: <http://gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/workbasedlearning/?lang=cy>.

Ystadegau i Gymru (2016). *Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Cymunedol yng Nghymru, 2015/16 (ffigurau dros dro)*. [ar-lein] Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: <http://gov.wales/statistics-and-research/further-education-work-based-learning-community-learning/?lang=cy>.

Llywodraeth Cymru (2017). *Cofnodi anawsterau dysgu a/neu anableddau dysgwyr ar y LLWR 2014/15 – Fersiwn: 1.0*. [ar-lein] Ar gael ar: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/141218-recording-of-learners-learning-difficulties.pdf>.

Llywodraeth Cymru (2017). *Dysgu Gydol Oes Cymru: Llawlyfr cefnogi'r defnyddiwr cofnodion ar gyfer darparwyr dysgu (XML) 2016/17 - Fersiwn: 1.2*. [ar-lein] Ar gael ar: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/170531-llwr-user-support-manual-2016-17-v1-3.pdf>.

Llywodraeth Cymru (2017). *Dysgu Gydol Oes Cymru: Llawlyfr cefnogi'r defnyddiwr cofnodion ar gyfer darparwyr dysgu s (XML) 2017/18 - Fersiwn: 1.2*. [ar-lein] Ar gael ar: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/170831-llwr-user-support-manual-2017-18-v1-2.pdf>.

Llywodraeth Cymru (2017). *Alinio'r model Prentisiaeth gydag anghenion economi Cymru* [ar-lein] Ar gael ar: <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/apprenticeship/?lang=cy>.

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (2015). *Dwyrain Cymru - Amcan Penodol 1 - Fersiwn 2.6*. Cynllun Busnes ar gyfer Gweithrediadau 2015-2023.

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (2015). *Dwyrain Cymru - Amcan Penodol 2 - Fersiwn 2.6*. Cynllun Busnes ar gyfer Gweithrediadau Business 2015-2023.

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (2015). *Gorllewin Cymru a'r Cymoedd - Amcan Penodol 1 - Fersiwn 5.6*. Cynllun Busnes ar gyfer Gweithrediadau 2015-2023.

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (2015). *Gorllewin Cymru a'r Cymoedd - Amcan Penodol 2 - Fersiwn 5.6*. Cynllun Busnes ar gyfer Gweithrediadau 2015-2023.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (2017). *Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol*. [ar-lein] Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: <http://gov.wales/topics/businessandconomy/welsh-economy/economic-action-plan/?lang=cy>

Atodiad A – Model Rhesymeg y Rhaglen Brentisiaethau

Situation	Inputs	Activities	Outputs	Outcomes	Impacts
Jobs of tomorrow will require higher levels of competence than in the past	Oversight and advisory role of Welsh Government and WEFO	Work with employers (including self-employed) to encourage them to offer new apprenticeship opportunities;	Skills progression: 100% of participants with no or low skills accessing Level 2 training (foundation apprenticeship) 90% of participants with existing Level 2 accessing Level 3 training (apprenticeship) 10% of participants with existing Level 3 accessing Level 4 training (higher apprenticeship)	Improved transitions from education to high quality employment	Skilled workforce with technical and job specific skills at intermediate and higher level in emerging job categories and growth sectors
Skills shortages in growth sectors and emerging job categories	Strategic advisory role of Regional Skills Partnerships, Wales Employment and Skills Board	Undertake initial assessments including of prior learning and of basic skills;	Participation of under-represented groups: 56% of participants are female 0.5% of participants are older 2.2% of participants are BME 6.3% of participants have work-limiting health condition or disability	Reduced barriers to (re-)engagement with work and learning	A thriving Welsh language - one million Welsh speakers by 2020
Relatively low participation of 16-19 year olds in apprenticeships	Programme funding comprising Welsh Government, ESF and matched funding.	Discuss framework options linked to learners' job role and suitability;	Apprenticeships for education leavers: 90% apprentices aged under 25	Improved opportunities for individuals to continue learning through the medium of Welsh.	Increased levels of income/reduced poverty for individuals
Under-representation of equalities groups in apprenticeships, presence of gender stereotyping	Quality assurance through Quality Framework, Estyn inspection system, Provider Audit and Governance regime, and annual provider Self Assessment Reports	Undertake health and safety assessments	Flexible working opportunities: 2% of participants have childcare responsibilities 0.5% of participants who are female and work part-time	Improved access to apprenticeships for all ages	Global competitiveness for the Welsh economy
Lack of parity of esteem between academic and technical routes for young people	LLWR data collection, EDMS reports	Operate the qualifications accreditation process involving on the job assessments to a defined industry standard;	Qualifications: 80% of participants achieving a qualification within the lifetime of the ESF Operations	Greater financial security and earning power for individuals	Increased business investment in Wales
Government commitment to achieve 100,000 all-age Apprenticeships over 5 years	Delivery inputs including partnership working, local knowledge and expertise of delivery partners, existing infrastructure to support delivery and 'in-kind' contributions	Arrange or deliver underpinning technical knowledge for the learners (technical certificates/college courses – as required by individual apprenticeship framework);	Completions: 80% of leavers completing the full apprenticeship framework	Improved health and well-being	Reduced inequality by gender, ethnicity, disability
	Equality Champion, Welsh Language Champion	Provide Essential Skills Wales qualifications (as required by the framework) covering communication, numeracy and ICT;		Increased employer engagement in apprenticeships.	
	Network of training providers	Support apprentices through completion and ensure next step options are considered.		Increased employer involvement in shaping learning to meet their needs	
				Strong regional collaboration across learning institutions, training providers and RSPs	

Atodiad B – Cyfrifo targedau

Cyn belled ag y bo modd, cafodd y targedau yma eu cyfrifo yn unol â methodoleg Llywodraeth Cymru ac ESF, gan flaenoriaethu'r ail os byddai unrhyw wrthdaro'n codi.

Deilliodd y data o ddarnau wedi'u cyfuno o'r EDSM (System Monitro Data Ewropeaidd) a LLWR (Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru), a broseswyd yn IFF Research i gynhyrchu canrannau o brentisiaethau yn hytrach na chymwysterau unigol. Mae'r darnau yma a ddarparwyd yn ymdrin â'r holl brentisiaethau a gynhaliwyd neu a gynhaliwyd yn rhannol yn y cyfnod o Ionawr 2015 hyd fis Mawrth 2017, yn gynwysedig.

Roedd angen cyfuno data EDMS gyda'r data LLWR er mwyn canfod pa ddysgwyr oedd/sydd yn cael eu cyllido gan ba ffrydiau penodol o gyllid ESF. Mae data LLWR yn darparu manylion am nodweddion a chyflawniad dysgu'r dysgwyr ac mae'n cael ei gasglu o ddata Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd gan ddarparwyr dysgu. Mae darparwyr yn defnyddio cyfuniad o'u cofnodion eu hunain a ffurflenni cofrestr a gwblhawyd gan ddysgwyr. Mae'n rhaid i ddysgwyr a darparwyr gyflwyno'r data yma ac mae Llywodraeth Cymru'n gwirio ei ansawdd, ac felly ychydig iawn broblemau ansawdd neu hepgoriadau sydd gan y data.

Mae'n bwysig nodi hyn: er mwyn darparu'r ffigurau diweddaraf, cafodd data LLWR ei 'rewi' yn gynnar; nid yw'r rhain wedi bod trwy'r prosesau rheoli ansawdd llawn a wneir ar yr holl ddata a ddefnyddir i gynhyrchu ystadegau swyddogol Llywodraeth Cymru, ac felly - yn dibynnu ar faint unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i'r prosesau yma – gallai'r canlyniadau fod yn wahanol i'r ystadegau swyddogol a gynhyrchir yn ddiweddarach ar yr un sail.

Cynhwysiad ac Eithriadau Cyffredinol

Mae'r holl brentisiaethau sy'n gymwys i dderbyn arian ESF wedi eu cynnwys. Nid yw'r prentisiaid nad ydynt yn gymwys i gael cyllid ESF wedi'u cynnwys.

Mae cyfrifiadau targed ar gyfer targedau Cynllun Busnes ESF yn cynnwys dysgwyr oedd ar y rhaglen ar ddechrau'r darn. Nid ydynt yn gwneud hynny gyda thargedau LIC, yn unol ag arferion safonol.

Mae'r holl brentisiaethau sydd wedi'u cynnwys yn digwydd gyda chyflogwyr yng Nghymru. Mae'r data yma'n cynnwys 35 o ymatebwyr nad oeddent yn byw yng

Nghymru cyn eu prentisiaeth, a'r mwyafrif mawr o'r rhain yn Lloegr. Mae hyn yn annhebygol o effeithio i raddau mawr ar y canlyniadau.

Mae'r symudiad tuag at dargedau rhifyddol (yn hytrach na chanran) yn cael ei feirniadu mewn perthynas â thaith sefydlog ddamcaniaethol tuag at unrhyw darged terfynol erbyn diwedd y cyfnod y mae'r targed yn berthnasol iddo.

Diffiniadau penodol a ddefnyddir wrth gyfrifo targedau

Oedran y dysgwr

I bwrpas asesu targedau yn yr adroddiad yma, mae oed prentisiaid yn cael ei gofnodi ar ddyddiad cychwyn eu cyrsiau. Cofnodir eu hoedran mewn blynyddoedd fel y byddai'n cael ei ddefnyddio'n gyffredin bob dydd – h.y. ei dalgrynu i lawr i'w hoedran ar eu pen-blwydd mwyaf diweddar.

Cymwysterau Sgiliau Sylfaenol

Mae Cynlluniau Busnes ESF yn cyfeirio at dargedau ar gyfer cynnwys Cymwysterau Sgiliau Sylfaenol mewn prentisiaethau; rydym wedi tybio bod y term yma'n gyfystyr â chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru

BME

Mae'r holl brentisiaid sy'n nodi'n gadarnhaol bod ganddynt ethnigrwydd y tu allan i'r categori 'gwyn', yn ôl y data a gyflwynwyd gan ddarparwyr, wedi eu cynnwys yn y categori BME i bwrpasau cyfrifo targedau. *Nid* yw ymatebwyr sy'n wyn ond nad ydynt yn eu hystyried eu hunain yn Brydeinig neu'n Gymry (e.e. Pwyleg) yn cael eu hystyried yn rhan o'r categori BME i bwrpasau'r dadansoddiad yma.

Cyfranogwr hŷn

Er bod Cynlluniau Busnes ESF yn amhenodol yn unol â mentrau ESF eraill, cymerwyd bod hyn yn cyfeirio at ddysgwyr 55 oed ac yn hŷn.

Gwaith rhan amser

Er bod Cynlluniau Busnes ESF yn amhenodol; diffinir gwaith rhan amser, ar ôl ymgynghoriad gyda Llywodraeth Cymru, fel unrhyw waith sy'n gofyn rhwng 16 a 29 o oriau yr wythnos (yn gynwysedig).

Lefelau Cymhwyster

Lle cyfeirir at Lefelau yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn cyfeirio at Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru (CQFW).

Sector STEM

Mae hyn yn cyfeirio at gymwysterau yn y sectorau gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a gweithgynhyrchu. Nid oes diffiniad swyddogol o brentisiaeth STEM, felly i bwrpasau asesu data LLWR rydym wedi diffinio hyn fel rhywbeth sy'n cynnwys yr holl godau sector LLWR (gan ddefnyddio newidyn LP66 LLWR) yn cychwyn gyda "Peirianeg –" a "Gweithgynhyrchu-" gan ychwanegu "Adeiladu – peirianyddion gwasanaeth adeiladu". Ar hyn o bryd nid oes codau sector LLWR yn ymwneud yn benodol â gwyddoniaeth neu dechnoleg, gyda'r mwyafrif o gymwysterau'n ymwneud â'r rheiny sy'n cael eu cynnwys o fewn Peirianeg neu Weithgynhyrchu.

Cyflawni fframwaith prentisiaeth yn llwyddiannus

Mae hyn wedi'i gyfrifo yn unol â methodoleg Llywodraeth Cymru, drwy rannu nifer y cyfranogwyr sy'n cyflawni prentisiaeth yn llwyddiannus, yn ôl data LLWR a gyflwynwyd gan y darparydd, gyda'r nifer gyfan o gyfranogwyr a gofnodwyd ar y LLWR fel rhai sy'n gorffen eu darpariaeth (yn llwyddiannus neu fel arall).

Roedd rhai a hepgorwyd o'r ffigur olaf, eto yn unol â methodoleg Llywodraeth Cymru: trosglwyddiadau i ddarparwyr eraill, marwolaethau, diswyddiadau a'r prentisiaid hynny a stopiodd eu cwrs o fewn wyth wythnos i gychwyn.

Dylai ffigurau sy'n cael eu cynhyrchu fel yma fod yn *weddol* gymaradwy gydag ystadegau swyddogol, ond mae'n bwysig nodi bod anghysonderau bach mewn ffigurau a gyhoeddwyd yn gallu codi o ddefnyddio data LLWR cychwynnol ac eithrio prentisiaid nad ydynt wedi eu hariannu gan ESF (gwelwch uchod).

Prentisiaethau Cymraeg a Dwyieithog

Mae Cynlluniau Busnes ESF yn amhenodol mewn perthynas â diffinio defnyddio'r iaith Gymraeg mewn fframweithiau prentisiaeth. Fodd bynnag, ar ôl ymgynghori â Llywodraeth Cymru, ystyrir bod fframwaith prentisiaeth yn ddwyieithog i bwrpasau'r gwaith ymchwil yma os oes/oedd gan **o leiaf un gydran** ohono sydd wedi'i gofnodi ar y LLWR ddefnydd Cymraeg **sylweddol**, sy'n gorfod cynnwys addysgu ac asesiad. Ystyrir fframwaith prentisiaeth yn un Cymraeg (yn hytrach na dwyieithog) dim ond os yw **pob cydran** ohono yn/wedi cael eu dysgu a'u hasesu'n **gyfan gwbl** drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl data LLWR.

Atodiad C – Deunyddiau ymchwilio

Nodwch os gwelwch yn dda bod yr holl ddeunyddiau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Canllaw pwnc i randdeiliaid (Gorffennaf 2017)

Cyflwyniad

- Cyflwynwch eich hun
- Cyflwynwch IFF Research – cwmni ymchwilio annibynnol, yn gweithio ar astudiaeth i Lywodraeth Cymru
- Cyflwynwch yr astudiaeth – nod y gwerthusiad yw asesu effeithiolrwydd, effeithlondeb ac effaith y rhaglen brentisiaethau ar gyfer y cyfnod 2015 - 2019. Bydd ffocws y gwerthusiad ar berfformiad ac effaith y rhaglen, gyda rhywfaint o adolygiad o gynllun y rhaglen a'r prosesau darparu.
- Pwrpas yr elfen hon o'r astudiaeth – mae'r cyfweiliad yma'n digwydd yng nghanam gwerthuso interim y gwaith ymchwil; rydym yn siarad â rhanddeiliaid allweddol i gasglu darlun mwy manwl o ddarpariaeth y rhaglen, gyda ffocws arbennig ar berfformiad hyd yn hyn.
- Tawelu meddwl - mae'r cwestiynau'n rhai lefel uchel ac eang, ac nid yw'n broblem os na allwch ateb cwestiwn; gallwn symud ymlaen at y nesaf.
- Cyfrinachedd
- Dywedwch y bydd yr alwad ffôn wedi'i recordio – gofynnwch am ganiatâd i'w recordio'n ddigidol – a'i drawsgrofio i gael dyfyniadau, ond ni fydd modd adnabod unrhyw un o hyn.

SUT I DAWELU'R MEDDWL OS BYDD ANGEN

Bydd y cyfweiliad yn cymryd oddeutu 45 i 60 munud i'w gwblhau.

Yn rhan o gam interim y gwerthusiad, mae IFF Research yn cynnal cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid allweddol, fel chi, o gyrrff strategol a darparwyr blaenllaw sy'n cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu'r rhaglen brentisiaeth.

Bydd eich atebion yn helpu IFF Research i ddeall perfformiad y Rhaglen yn well a gweld i ba raddau mae'r rhaglen yn cael ei darparu mewn ffordd sy'n cyfateb gyda'i amcanion. Byddent hefyd yn ein helpu i ganfod barn pobl am yr effaith y mae'r rhaglen yn ei chael ar brentisiaid a chyflogwyr.

Mae eich cyfranogaeth yn gwbl wirfoddol, a byddwn yn trin eich ymatebion yn hollol gyfrinachol.

Os ydych eisiau gwneud yn siŵr bod hwn yn ddarn dilys o waith ymchwil neu gael rhagor o wybodaeth am ei nodau a'i amcanion, gallwch ffonio:

- **MRS: Y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad:** 0500 396999
- **IFF: Jonnie Felton neu Christabel Downing:** 020 7250 3035 (jonnie.felton@iffresearch.com / christabel.downing@iffresearch.com)
- **Llywodraeth Cymru: Siân Williams:** 029 2082 3991 (sian.williams50@wales.gsi.gov.uk)

A Y Cefndir

Hoffwn gychwyn gydag un neu ddau o gwestiynau cyffredinol am eich sefydliad a sut mae'n cymryd rhan yn y rhaglen prentisiaethau. Yna byddwn yn symud ymlaen i siarad am berfformiad cyffredinol y rhaglen a'i rhagolygon ar gyfer y dyfodol.

A1 **Allech chi gychwyn drwy roi disgrifiad byr i mi o'ch sefydliad a'ch rôl chi o fewn y sefydliad?**

- Lle mae'r sefydliad yn gweithredu? *HWB: Mewn un rhanbarth [CEISIWCH GANFOD A YDYW'N GWEITHREDU DRWY DDWYRAIN CYMRU / GORLLEWIN CYMRU A'R CYMOEDD]* neu ledled Cymru gyfan? Yn Lloegr hefyd?
- Ers faint o amser ydych chi wedi bod yn eich rôl chi?

OS NAD YW'N DDARPARWR:

A2 **Allech chi roi disgrifiad byr i mi o rôl y sefydliad ar hyn o bryd yn y gwaith o ddarparu'r rhaglen brentisiaeth?**

- Sut mae'r rôl yma wedi newid, os ydyw wedi newid o gwbl, yn ystod y cyfnod mae'r sefydliad wedi bod yn cymryd rhan yn y rhaglen?
- Ydy eich sefydliad chi wedi cyfranogi o gwbl yn y gwaith o gynllunio'r Rhaglen Prentisiaethau?
- Sut mae'r sefydliad wedi dylanwadu ar ddarpariaeth y rhaglen?

I DDARPARWYR::

A3 **Allech chi roi disgrifiad byr i mi o brofiad eich sefydliad yn cynnig hyfforddiant i brentisiaid yng Nghymru?**

- Ers faint o amser mae eich sefydliad wedi bod yn hyfforddi prentisiaid yng Nghymru?
- Ers faint o amser ydych chi wedi bod â chontract gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu Prentisiaethau?

I DDARPARWYR:

A4 **Ydych chi'n darparu eich contract yn llawn, neu ydych chi'n is-gontractio i sefydliadau eraill?**
OS YDYCH:

- Pa elfennau?
- I bwy?
- Pam?

B Darpariaeth y rhaglen

Nawr rydym yn mynd i edrych yn agosach ar y ffordd mae'r rhaglen yn cael ei darparu o ddydd i ddydd; i ddechrau hoffwn edrych ar yr hyn rydych chi'n ei wneud fel sefydliad, cyn symud ymlaen i siarad am y ffordd mae'r rhaglen yn perfformio.

- B1 **Yn gyntaf, hoffwn gael rhyw fath o syniad o beth yw rôl eich sefydliad. Allech chi ddisgrifio'r gwaith mae eich sefydliad yn ei wneud mewn perthynas â'r Rhaglen Prentisiaethau?**
RHOWCH HWB OS NAD YDYNT WEDI SŌN AM Y RHAIN:

- Trefnu ariannu
- Annog cyfranogaeth y cyflogwr
- Asesu sgiliau a dysgu blaenorol prentisiaid
- Helpu prentisiaid i ddewis y brentisiaeth gywir
- Sicrhau bod hyfforddiant o fewn y swydd yn cael ei ddarparu fel sy'n ofynnol, a'i fod o safon uchel
- Sicrhau bod hyfforddiant yn y coleg yn cael ei ddarparu yn unol â'r fframwaith prentisiaeth, a'i fod o safon uchel
- Rhoi cefnogaeth i brentisiaid yn ystod eu prentisiaeth

- B2 **Pa newidiadau, os oes rhai o gwbl, ydych chi wedi'u gwneud i'r ffordd yr ydych yn darparu'r rhaglen ers 2015?**

OS OES UNRHYW NEWIDIADAU:

- Pam gafodd newidiadau eu gwneud i'r rhaglen?
- Ydych chi'n meddwl bod y ddarpariaeth wedi gwella o ganlyniad i'r newidiadau yma?

- B3 **Ers i'r Rhaglen Prentisiaethau gychwyn, gyda pha sefydliadau ydych chi wedi gweithio, os oes rhai o gwbl?**

- Pam fuoch chi'n gweithio gyda nhw?
- Gyda pha rai ohonynt ydych chi wedi gweithio agosaf?

GADEWCH IDDYN NHW YMATEB YN DDIGYMELL, OND GWNEWCH YN SIŴR EU BOD NHW WEDI SŌN AM Y CANLYNOL:

- Y berthynas gyda Llywodraeth Cymru
- Y berthynas gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (RSPs) os yw hynny'n berthnasol
- Y berthynas gyda darparwyr dysgu, os yw hynny'n berthnasol

- B4 **OS YW'R ATEBWR WEDI GWEITHIO GYDAG UNRHYW SEFYDLIADAU: Allech chi ddisgrifio sut yr ydych yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid a'r sefydliadau eraill yma, mewn termau ymarferol?**

- Pam?
- Pa mor rheolaidd?
- Ydy sefydliadau'n rhannu gwybodaeth am brentisiaid fel arfer?
- Pam / pam ddim?

C Perfformiad y rhaglen

Nawr rydym eisiau siarad am berfformiad y Rhaglen Prentisiaethau yng Nghymru hyd yn hyn, gan edrych yn arbennig ar y targedau a'r amcanion ar gyfer y rhaglen.

- C1 **OS YW'N DDARPARWR:** Cafodd eich sefydliad chi ei ddewis i ddarparu prentisiaethau gan Lywodraeth Cymru ar ôl proses gomisiynu.
OS NAD YW'N DDARPARWR AC MAE'N BERTHNASOL: Roedd eich sefydliad chi'n cymryd rhan yn y gwaith o gomisiynu prentisiaethau gan ddarparwyr.

Yn eich barn chi, pa mor effeithiol ac effeithlon oedd y broses gomisiynu? Pam?

- O ganlyniad i'r broses, pa newidiadau gafodd y darparwyr eu hannog i'w gwneud i'r ffordd maen nhw'n gweithio ac i'r ffordd maen nhw'n darparu prentisiaethau?
- A gafodd y broses gomisiynu ei gwneud yn effeithiol?

- C2 **Rydym newydd drafod y mathau o waith mae eich sefydliad yn ei wneud mewn perthynas â'r Rhaglen Prentisiaethau. Yn gyffredinol, ydy'r gwaith hwnnw'n cael ei wneud fel yr oedd wedi'i fwriadu'n wreiddiol?**

- Ym mha feysydd mae'r gwaith wedi bod yn haws / yn anoddach i'w ddarparu?
- Sut mae gofynion Cronfa Gymdeithasol Ewrop, yr amodau ar gyfer derbyn arian, wedi dylanwadu ar waith eich sefydliad i ddarparu'r rhaglen, os ydyw o gwbl?
- Pam?

- C3 **Yn eich barn chi, sut mae'r rhaglen Prentisiaeth (neu'r rhan ohoni mae eich sefydliad chi'n gweithio â hi) yn perfformio yn erbyn y targedau?**

- Ym mha feysydd mae'r rhaglen yn perfformio'n dda, ac ym mha feysydd mae'n perfformio'n llai da?
GWNEWCH YN SIŴR EU BOD WEDI SŌN AM YR HOLL FEYSYDD TARGED BRAS: Niferoedd darparu cyffredinol, cyfraddau cyflawni, cynnydd sgiliau, dysgwyr 16-19 oed, Prentisiaethau Uwch, prif ffrydio'r rhywiau, gwella mynediad i bobl gydag anableddau / pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig / pobl gyda chyfrifoldebau gofal plant / faint sy'n cymryd prentisiaethau yn yr iaith Gymraeg
- **OS YW'R CANLYNIADAU'N BOSITIF:** Beth yn benodol mae eich sefydliad wedi'i wneud i gyflawni hyn?
- **OS YW'R CANLYNIADAU'N NEGyddDOL:** Beth rwystrodd y targedau hyn rhag cael eu cyflawni?
- Ai dyma oeddech chi'n ei ddisgwyl ar y cychwyn? Beth oedd yn annisgwyl?
- Ydych chi'n meddwl bod amrywiaeth yn ôl y weithred neu'r rhanbarth yng Nghymru?

- C4 **Oes unrhyw dargedau eraill gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â phrentisiaethau sy'n berthnasol i'ch sefydliad chi? OS YW'N DDARPARWR:** Er enghraifft, yn eich contract i ddarparu'r ddarpariaeth.

Targedau penodol (peidiwch â sôn am hwn heblaw bod rhywun yn gofyn am niferoedd):

- Mae Llywodraeth Cymru'n targedu 100,000 o brentisiaethau dros y pum mlynedd nesaf

- OS OES: Allech chi ddisgrifio'r targedau yma?

C5 OS OES GANDDYNT DARGEDAU: Yn eich barn chi, sut mae eich sefydliad yn perfformio yn erbyn y targedau yma?

- Pam ydych chi'n dweud hynny?
- Beth sydd wedi helpu eich sefydliad i gyflawni hyn? *OS YW'N BRIODOL GOFYNNWCH AM ESIAMPLAU O ARFERION GORAU*
- Beth sydd wedi rhwystro'r targedau yma rhag cael eu cyflawni?
- Ai dyma oeddech chi'n ei ddisgwyl ar y dechrau?

D Sialensiau a'u gorchfygu nhw

Nawr hoffwn siarad ychydig bach am unrhyw sialensiau yr ydych wedi eu wynebu wrth ddarparu'r rhaglen, a sut yr ydych efallai wedi eu gorchfygu nhw.

- D1 **Beth fu'r sialensiau mwyaf pwysig, os oedd rhai, yr ydych wedi'u hwynebu yn eich gwaith gyda'r Rhaglen Prentisiaethau hyd yn hyn?**

I BOB PROBLEM A ENWYD:

- Ydy hon yn broblem newydd?
- Beth oedd yr effeithiau ar berfformiad?

- D2 **OS GWELWYD UNRHYW SIALENSIAU: Beth sydd wedi eich helpu i ddod dros y sialensiau hynny?**

- Beth sydd wedi gwneud hynny'n bosibl yn eich sefydliad chi?
- Beth oedd yr effaith ar berfformiad?

- D3 **Allwch chi feddwl am unrhyw esiamplau o arferion da yn eich sefydliad?**

- Ydy hynny'n rhywbeth y gallai sefydliadau eraill ei wneud hefyd?

- D4 **Gan edrych ar newidiadau diweddar a newidiadau wedi eu cynllunio mewn polisïau, beth yw'r sialensiau i'ch sefydliad yn eich barn chi?**

- Sut allai eich sefydliad orchfygu'r sialensau yma? Beth fydddech chi ei angen?

CANIATEWCH IDDYNT YMATEB YN DDIGYMELL, OND GWNEWCH YN SIŴR EU BOD NHW'N SŌN AM Y CANLYNOL:

- Cyflwyno Lefi Prentisiaeth
- Symudiad mewn pwyslais at Brentisiaethau Uwch
- Symudiad at bynciau STEM
- Cynnydd yn y ddarpariaeth iaith Gymraeg
- **OS YW'N GWEITHIO YN LLOEGR:** Problem drawsffiniol – dargyfeirio'r Rhaglenni Prentisiaeth yng Nghymru a Lloegr

- D5 **Os gallech newid un peth am gynllun y Rhaglen Prentisiaethau yng Nghymru, beth fydddech chi'n ei newid?**

- Pam?
- Pa effaith fyddai'r newid hwnnw'n ei gael ar eich sefydliad? Beth am effaith fwy eang?

E Perthnasoedd

Yn yr adran yma, byddwn yn archwilio eich perthynas gyda sefydliadau eraill heblaw'r is-gontractwyr ychydig yn fwy manwl, yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth.

E1 **Sut mae'r perthnasoedd neu'r partneriaethau sydd gennych gyda sefydliadau eraill yn eich helpu yn eich gwaith ar Brentisiaethau?**

- Beth sy'n gweithio'n dda yn y perthnasoedd yma?
- Sut allai'r perthnasoedd gael eu gwella?
- Beth oedd effeithiau'r gwaith partneriaeth ar eich gwaith ar Brentisiaethau?

CANIATEWCH IDDYNT YMATEB YN DDIGYMELL, OND GWNEWCH YN SIŴR EU BOD YN RHOI SYLWADAU AM:

- Y berthynas gyda Llywodraeth Cymru, os oes un
- Y berthynas gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (RSPs), os oes un
- Y berthynas gyda darparwyr dysgu, os oes un

E2 **OS NAD YW'N DDARPARWR: Beth allai darparwyr a'u hisgontractwyr ei wella, os oes unrhyw beth, ynglŷn â'r ffordd y maent yn darparu'r rhaglen brentisiaethau?**

- Beth mae'r darparwyr gwell yn ei wneud yn wahanol i'r darparwyr llai da?

F Effeithiau'r rhaglen

Nawr hoffem siarad ychydig am effeithiau'r rhaglen, yn arbennig sut mae'n cyfrannu at amcanion cyffredin Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru.

F1 Gan feddwl am y Rhaglen Prentisiaethau ers 2015, beth fydddech chi'n ei ddweud yw'r effaith ar gyflogwyr a phrentisiaid?

- Pam ydych chi'n dweud hynny?
- Beth allai fod wedi digwydd os na fyddai'r Rhaglen Prentisiaethau'n bodoli?

F2 I fod yn fwy penodol, i ba raddau ydych chi'n meddwl bod y Prentisiaethau yng Nghymru'n cynyddu lefelau sgiliau, yn cynnwys sgiliau sy'n berthnasol i'r gwaith, y bobl hynny yn y gweithlu sydd heb unrhyw sgiliau neu sydd â sgiliau isel?

- Pam ydych chi'n dweud hynny?

F3 I ba raddau ydych chi'n meddwl bod Prentisiaethau yng Nghymru'n cynyddu nifer y bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a phenodol i swyddi ar lefel ganolradd a lefel uwch?

- Pam ydych chi'n dweud hynny?

F4 Yn olaf, sut mae'r Rhaglen Prentisiaethau wedi cyfrannu, os o gwbl, at

DARLLENWCH BOB UN YN UCHEL

- ...hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yng Nghymru?
- ...ymdrin â thlodi?
- ...gwneud dysgu'n hygyrch i groestoriad ehangach o'r gymdeithas?

G Cloi

- G1 Cyn i ni orffen, oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y rhaglen brentisiaeth neu'r gwerthusiad?
- G2 Fyddech chi'n barod i gyfranogi mewn mwy o waith ymchwil gan IFF Research neu Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r prosiect yma?

DIOLCHWCH I'R YMATEBWR A CHAU'R CYFWELIAD

Yn olaf, hoffwn gadarnhau bod yr arolwg yma wedi'i gwblhau o dan gyfarwyddiadau IFF ac o fewn rheolau Cod Ymddygiad MRS. Diolch yn fawr iawn i chi am eich cymorth heddiw.

Enw:	
Teitl y Swydd:	
Cyfeiriad e-bost:	
Rhif ffôn:	

Canllaw pwnc i ddarparwyr a rhanddeiliaid pellach (Hydref 2017)

Cyflwyniad

- Cyflwynwch chi eich hun
- Cyflwynwch IFF Research - cwmni ymchwil annibynnol, yn gweithio ar astudiaeth i Lywodraeth Cymru
- Cyflwynwch yr astudiaeth - nod y gwerthusiad yw asesu effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac effaith y rhaglen prentisiaethau ar gyfer y cyfnod 2015-2019. Ffocws y gwerthusiad fydd perfformiad ac effaith y rhaglen, ynghyd â rhywfaint o waith i adolygu dyluniad a phrosesau cyflenwi'r rhaglen.
- Pwrpas yr elfen hon o'r astudiaeth - Pwrpas y cyfweiliadau hyn yw cyfrannu at ddrafft o Ddamcaniaeth Newid a pherffeithio'r drafft hwnnw, myfyrio ar y ddarpariaeth hyd yna ac ystyried gwelliannau i'r dyfodol/ymatebion i'r newid mewn polisi.
- Rhewch sicrwydd - mae'r cwestiynau'n rhai lefel uchel ac yn amrywiol eu natur, felly does dim ots os na allwch ateb unrhyw un ohonynt; gellir symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf.
- Cyfrinachedd
- Dywedwch y bydd yr alwad ffôn yn cael ei recordio - gofynnwch am ganiatâd i wneud recordiad digidol ohoni - ac i lunio trawsysgrif er mwyn cael dyfyniadau, ond ni fydd modd adnabod neb drwy hynny.

DATGANIADAU I ROI SICRWYDD OS OES ANGEN

Bydd hi'n cymryd tua thri chwarter awr i awr i gwblhau'r cyfweiliad.

Yn rhan o gam interim y gwerthusiad, mae IFF Research yn cynnal cyfweiliadau â chynrychiolwyr o sefydliadau sy'n rhanddeiliaid, fel chi, sy'n cymryd rhan yn natblygiad y rhaglen prentisiaethau.

Pwrpas y cyfweiliadau yw cyfrannu at ddrafft o Ddamcaniaeth Newid a pherffeithio'r drafft hwnnw, myfyrio ar y ddarpariaeth hyd yma ac ystyried gwelliannau i'r dyfodol/ymatebion i'r newid mewn polisi.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol, a byddwn yn trin eich ymatebion yn gyfrinachol.

Os ydych yn dymuno cadarnhau dilysrwydd y gwaith ymchwil hwn, neu gael mwy o wybodaeth am nodau ac amcanion yr ymchwil, gallwch ffonio:

- **MRS; Cymdeithas Ymchwil y Farchnad:** 0800 975 9596
- **IFF: Jonnie Felton neu Christabel Downing:** 020 7250 3035 (jonnie.felton@iffresearch.com / christabel.downing@iffresearch.com)
- **Llywodraeth Cymru: Joanne Corke:** 0300 025 1138 (joanne.corke@llyw.cymru / joanne.corke@gov.wales)

A Eich rôl chi

Hoffwn ddechrau drwy ofyn rhai cwestiynau am eich rôl chi yn [sefydliad] a'r modd yr ydych chi wedi ymwneud â'r rhaglen prentisiaethau.

A1 **Beth yw rôl [eich sefydliad] mewn perthynas â phrentisiaethau?**

A2 **A beth yw eich rôl bersonol chi o fewn y sefydliad? Sut mae hynny'n berthnasol i brentisiaethau?**

Sicrhewch ein bod yn cael syniad o'r grwpiau buddiant y maent yn eu cynrychioli (os o gwbl) - ee, cyflogwyr, dysgwyr, darparwyr.

B Cyflwyno'r rhaglen

Hoffwn siarad ychydig am nodau cyfredol y rhaglen prentisiaethau, sut mae'r rhaglen yn gweithredu'n ymarferol, a sut mae'n perfformio hyd yma.

B1 Sut fydddech chi'n disgrifio prif nod/nodau cyfredol y rhaglen prentisiaethau ar hyn o bryd?

- Sut mae hyn yn wahanol i brif nod / nodau'r rhaglen prentisiaethau cyn 2015, os o gwbl?
- Beth y mae'r rhaglen yn anelu i'w gyflawni o safbwynt cyflogwyr? O safbwynt dysgwyr?
- *OS YW'N BERTHNASOL:* Beth yw'r gwahaniaethau rhwng nodau a chynlluniau'r ymgyrchoedd, os o gwbl?

B2 Beth yw'r prif weithgareddau y mae angen eu cynnal er mwyn cyflawni nod y/nodau'r rhaglen prentisiaethau?

- Pwy sy'n cynnal y gweithgareddau hyn?
AR GYFER POB SEFYDLIAD HOLWCH:
- Sut mae'r sefydliadau hyn yn cydweithio ...
 - â'ch sefydliad chi?
 - *OS YW'N BERTHNASOL:* ...â Llywodraeth Cymru?
 - *OS YW'N BERTHNASOL:* ..â'i gilydd?

AR GYFER POB UN, HOLWCH:

- Sut maent yn cyfathrebu/pa mor aml y bydd hynny'n digwydd
 - Beth sydd yn gweithio'n dda o fewn y berthynas
 - Sut y gellid gwella perthnasoedd mewn unrhyw ffordd
- *OS YW'N BERTHNASOL:* Sut mae'r ddarpariaeth yn wahanol rhwng ymgyrchoedd, os o gwbl?

C Perfformiad y Rhaglen

Yn awr hoffwn siarad am ddarpariaeth y Rhaglen Prentisiaethau yng Nghymru hyd yma, gan ganolbwyntio'n arbennig ar amcanion a thargedau'r rhaglen.

C1 **Ar y cyfan, sut mae'r rhaglen yn perfformio hyd yma?**

- O ran bodloni disgwyliadau eich sefydliad chi eich hun?
- Yn gyffredinol, o ran cyflawni amcanion cyffredinol y rhaglen?
- O ran cost a gwerth am arian?
- Ai dyma'r lefel o berfformiad yr oeddech yn ei disgwyl ar y dechrau?
- Ydych chi'n meddwl bod hyn yn amrywio yn ôl ymgyrch, neu yn ôl rhanbarth yng Nghymru?

C2 **Yn fwy penodol, sut mae'r rhaglen Prentisiaethau yn perfformio yn erbyn targedau yn eich barn chi?**

- Ym mha feysydd y mae'r rhaglen yn perfformio'n dda, ac ym mha feysydd y mae'r perfformiad yn waelach?

SICRHEWCH EICH BOD YN TRAFOD YR HOLL FEYSYDD TARGED BRAS:

- Niferoedd darparu cyffredinol
- Cyfraddau cyflawni
- Dilyniant sgiliau
- Dysgwyr rhwng 16 ac 19
- Prentisiaethau Uwch
- Prif-ffrydio rhywedd
- Gwellu mynediad i bobl BME / pobl ag anableddau / pobl â chyfrifoldebau gofal plant
- Darpariaeth / defnydd o brentisiaethau yn Gymraeg
- *OS YW'R DEILLIANNAU'N GADARNHAOL:* Beth sydd yn cael ei wneud yn benodol er mwyn cyflawni hyn?
- *OS YW'R DEILLIANNAU'N NEGYDDOL:* Beth wnaeth atal cyrraedd y targedau hyn?

C3 **Pa ffactorau, os o gwbl, sy'n rhwystro cyflawni nod(au) y rhaglen prentisiaethau ar hyn o bryd, neu'n cyfyngu ar hynny? Byddwn yn sôn mewn munud am heriau posibl i'r dyfodol.**

- Ai agweddau mewnol ar ddarpariaeth y rhaglen (ee, adnoddau, eiddo, cyllid) yw'r rhain neu ffactorau allanol (ee, yr economi, y farchnad lafur)?
- *OS YW'N BERTHNASOL:* Sut mae hyn yn wahanol rhwng ymgyrchoedd, os o gwbl?
- Sut yr aethpwyd i'r afael â'r rhwystrau hyn / y cafodd y rhwystrau hyn eu goresgyn hyd yma?

D Effeithiau'r rhaglen

Nawr hoffem siarad ychydig am effeithiau'r rhaglen, yn arbennig sut mae'n cyfrannu at amcanion cyffredin Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru.

D1 **Gan feddwl am y Rhaglen Prentisiaethau ers 2015, beth fydddech chi'n ei ddweud yw'r effaith ar gyflogwyr a phrentisiaid?**

- Pam ydych chi'n dweud hynny?
- Beth allai fod wedi digwydd os na fyddai'r Rhaglen Prentisiaethau'n bodoli?

D2 **I fod yn fwy penodol, i ba raddau ydych chi'n meddwl bod y Prentisiaethau yng Nghymru'n cynyddu lefelau sgiliau, yn cynnwys sgiliau sy'n berthnasol i'r gwaith, y bobl hynny yn y gweithlu sydd heb unrhyw sgiliau neu sydd â sgiliau isel?**

- Pam ydych chi'n dweud hynny?

D3 **I ba raddau ydych chi'n meddwl bod Prentisiaethau yng Nghymru'n cynyddu nifer y bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a phenodol i swyddi ar lefel ganolradd a lefel uwch?**

- Pam ydych chi'n dweud hynny?

D4 **Sut mae'r rhaglen prentisiaethau yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hamcanion ehangach?**

- **Ffyniant i Bawb** - adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar; gweledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru ffyniannus (gan gynnwys 100,000 o brentisiaethau i bob oed er mwyn codi lefelau sgiliau cyffredinol yn y gweithle)
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)** - gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymell sefydliadau a restrir yn y Ddeddf i ystyried eu strategaeth hirdymor a chydweithredu â chymunedau mewn ymagwedd fwy cysylltiedig
- **Strategaeth y Gymraeg** - cyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050

D5 **Yn olaf, sut mae'r Rhaglen Prentisiaethau wedi cyfrannu, os o gwbl, at**

DARLLENWCH BOB UN YN UCHEL

- ...hwyddo datblygiad cynaliadwy yng Nghymru?
- ...ymdrin â thlodi?
- ...gwneud dysgu'n hygyrch i groestoriad ehangach o'r gymdeithas?

E Dyfodol prentisiaethau

Yn awr, hoffwn ofyn ychydig mwy o gwestiynau am yr hyn yr ydych chi a'ch sefydliad yn gobeithio neu'n disgwyl ei weld o ran newidiadau i brentisiaethau dros y blynyddoedd nesaf, a heriau posibl wrth symud ymlaen.

E1 Pa ffactorau allanol - cadarnhaol neu negyddol - sydd yn debygol o ddylanwadu ar esblygiad prentisiaethau yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf?

- Ydy'r rhai sy'n dylunio a gweithredu'r cynllun prentisiaeth yn barod am y newidiadau hyn?

OS CRYBWYLLIR UNRHYW HERIAU

- Sut y gellid goresgyn yr heriau hyn? Beth fyddai ei angen arnoch?

CANIATÁU YMATEB DIGYMELL, OND SICRHAU BOD Y CANLYNOL YN CAEL EU TRAFOD:

- Cyflwyno Ardoll Prentisiaeth
- Newid mewn pwyslais i Brentisiaethau Uwch
- Symud i bynciau STEM
- Cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg
- Mater trawsffiniol - gwahanol Raglenni Prentisiaeth yng Nghymru a Lloegr
- Brexit

E2 Beth yw'r prif feysydd i'w gwella o fewn y rhaglen dros y blynyddoedd nesaf?

- Pa fathau o brentisiaethau yr hoffech chi eu gweld yn cael eu hehangu, neu eu lleihau, yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf? (meysydd pwnc, hyd prentisiaethau, y Gymraeg)
- A hoffech weld unrhyw elfennau yn nyluniad prentisiaethau yn newid?
- A hoffech weld unrhyw elfennau yn darpariaeth prentisiaethau yn newid?
- Beth hoffech chi ei weld yn newid ynglŷn â'r modd y cânt eu hyrwyddo, neu'r gefnogaeth a roddir i gyflogwyr i'w defnyddio? Beth fyddai manteision y newidiadau hynny?

F Cloi

- F1 Cyn i ni orffen, oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y rhaglen brentisiaeth neu'r gwerthusiad?
- F2 Fyddech chi'n barod i gyfranogi mewn mwy o waith ymchwil gan IFF Research neu Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r prosiect yma?

DIOLCHWCH I'R YMATEBWR A CHAU'R CYFWELIAD

Yn olaf, hoffwn gadarnhau bod yr arolwg yma wedi'i gwblhau o dan gyfarwyddiadau IFF ac o fewn rheolau Cod Ymddygiad MRS. Diolch yn fawr iawn i chi am eich cymorth heddiw.

Enw:	
Teitl y Swydd:	
Cyfeiriad e-bost:	
Rhif ffôn:	

Canllaw pwnc i gyflogwyr (Hydref 2017)

Cyflwyniad

- Cyflwynwch eich hun
- Cyflwynwch IFF Research – cwmni ymchwilio annibynnol, yn gweithio ar astudiaeth i Lywodraeth Cymru
- Cyflwynwch yr astudiaeth – nod y gwerthusiad yw asesu effeithiolrwydd, effeithlondeb ac effaith y rhaglen brentisiaethau ar gyfer y cyfnod 2015 - 2019. Bydd ffocws y gwerthusiad ar berfformiad ac effaith y rhaglen, gyda rhywfaint o adolygiad o gynllun y rhaglen a'r prosesau darparu.
- Pwrpas yr elfen hon o'r astudiaeth – mae'r cyfweiliad yma'n digwydd yng nghanam gwerthuso interim y gwaith ymchwil; rydym yn siarad â rhanddeiliaid allweddol i gasglu darlun mwy manwl o ddarpariaeth y rhaglen, a pha mor dda mae'r cynllun yn cyfateb ag anghenion cyflogwyr.
- Tawelu meddwl - mae'r cwestiynau'n rhai lefel uchel ac eang, ac nid yw'n broblem os na allwch ateb cwestiwn; gallwn symud ymlaen at y nesaf.
- Cyfrinachedd
- Dywedwch y bydd yr alwad ffôn wedi'i recordio – gofynnwch am ganiatâd i'w recordio'n ddigidol – a'i drawsgrifio i gael dyfyniadau, ond ni fydd modd adnabod unrhyw un o hyn.

SUT I DAWELU'R MEDDWL OS BYDD ANGEN

Bydd y cyfweiliad yn cymryd oddeutu 45 i 60 munud i'w gwblhau.

Yn rhan o gam interim y gwerthusiad, mae IFF Research yn cynnal cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid allweddol, fel chi, o gyrrff strategol a darparwyr blaenllaw sy'n cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu'r rhaglen brentisiaeth.

Bydd eich atebion yn helpu IFF Research i ddeall perfformiad y Rhaglen yn well a gweld i ba raddau mae'r rhaglen yn cael ei darparu mewn ffordd sy'n cyfateb gyda'i amcanion strategol, yn ogystal â chanfod barn pobl am yr effaith y mae'r rhaglen yn ei chael ar brentisiaid a chyflogwyr.

Mae eich cyfranogaeth yn gwbl wirfoddol, a byddwn yn trin eich ymatebion yn hollol gyfrinachol.

Os ydych eisiau gwneud yn siŵr bod hwn yn ddarn dilys o waith ymchwil neu gael rhagor o wybodaeth am ei nodau a'i amcanion, gallwch ffonio:

- **MRS: Y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad:** 0500 396999
- **IFF: Jonnie Felton neu Christabel Downing:** 020 7250 3035 (jonnie.felton@iffresearch.com / christabel.downing@iffresearch.com)
- **Llywodraeth Cymru: Siân Williams:** 029 2082 3991 (sian.williams50@wales.gsi.gov.uk)

A Y Cefndir

Hoffwn gychwyn gydag un neu ddau o gwestiynau cyffredinol am eich sefydliad a sut mae'n cymryd rhan yn y rhaglen prentisiaethau. Allech chi gychwyn drwy roi disgrifiad byr i mi o'ch sefydliad a'ch rôl chi o fewn y sefydliad?

- Beth mae eich sefydliad chi'n ei wneud?
 - OS NAD YDYNT WEDI SŌN AM HYN: Ym mha sector mae eich sefydliad?
- Lle mae'r sefydliad yn gweithredu? *HWB: Mewn un rhanbarth [CEISIWCH GANFOD A YDYW'N GWEITHREDU DRWY DDWYRAIN CYMRU / GORLLEWIN CYMRU A'R CYMOEDD] neu ledled Cymru gyfan? Yn Lloegr hefyd?*
 - Ac a yw eich Prentisiaid yn y lleoliad yma / yn y lleoliadau yma i gyd?
- Beth yw eich rôl? Ers faint o amser ydych chi wedi bod yn y rôl yma?

A1 **Sut mae eich sefydliad yn cymryd rhan mewn prentisiaethau?**

- Eu rôl yn y Prentisiaethau (OS NAD YDYNT WEDI SŌN AM HYN uchod)
- Sawl prentis?
- Pa rolau / feysydd astudio?
- Ers faint o amser mae'r sefydliad wedi cynnig prentisiaethau?

B Cynllun y Rhaglen

B1 **Yn gyntaf, hoffem siarad am y ffordd mae'r rhaglen Prentisiaethau wedi'i gosod a pham fod eich sefydliad yn defnyddio prentisiaethau. Allwch chi esbonio'n fyr pam mae eich sefydliad yn defnyddio Prentisiaethau a sut y cânt eu defnyddio?**

- Ydyn nhw'n cael eu defnyddio ar gyfer staff newydd neu staff sydd yno'n barod?
- Pam ydych chi'n defnyddio Prentisiaethau yn hytrach nag unrhyw opsiynau eraill – e.e. penodi staff sydd â sgiliau'n barod, neu ddefnyddio hyfforddiant arall / o fewn y cwmni?
- Beth fydddech chi'n ei wneud os na fyddai'r fath beth â phrentisiaethau?

B2 **Pa mor dda yw cynllun y prentisiaethau o ran ateb anghenion eich busnes?**

GADEWCH IDDYNT YMATEB YN DDIGYMELL, OND GWNEWCH YN SIŴR EICH BOD WEDI SŌN AM Y CANLYNOL:

- Y meysydd astudio / ymdrin â'r cwricwlwm / y cymwysterau sy'n cael eu darparu
- Cydbwysedd rhwng y dysgu yn y coleg a'r dysgu yn y gwaith
- Hyd y brentisiaeth
- Y dyddiadau cychwyn sydd ar gael / hyblygrwydd yr amseru
- Y broses asesu

B3 **Ydy eich sefydliad chi'n gofyn bod staff yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg?**

- Os NAD: A yw unrhyw rai o'ch prentisiaid wedi defnyddio'r Gymraeg o fewn y dysgu? Oeddech chi wedi gallu cefnogi'r dysgwr?
- A fyddai'n fuddiol i chi fel sefydliad gael prentisiaid sy'n gallu cyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg?
- Os YDY:
- Sawl prentis sydd wedi defnyddio'r Gymraeg o fewn eu dysgu?
- A oedd y darparwydd dysgu'n gallu ateb eich gofynion o ran dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg?

B4 O lle ydych chi'n cael gwybodaeth am brentisiaethau fel arfer?

- Ydych chi'n teimlo bod gennych ddigon o wybodaeth am brentisiaethau? Pam ydych chi'n dweud hynny?

B5 Ac ymhle ydych chi'n hysbysebu'r prentisiaethau sydd ar gael yn eich sefydliadau?

- Ydych chi'n hapus gyda'r systemau sydd ar gael i wneud hyn? Pam ydych chi'n dweud hynny?

B6 Sut allai'r cynllun prentisiaethau yng Nghymru gael ei wella, os o gwbl?

- Cyfraniad gan y cyflogwr?

C Gweithrediad y Cynllun

Nawr hoffem drafod barn eich sefydliad am y profiad o ddefnyddio prentisiaethau yn eu bywyd pob dydd

C1 Yn gyntaf, sut mae'r rhaglen prentisiaethau'n perfformio yn eich barn chi?

- Ydy hi'n gweithio'n dda i'ch busnes? Pam ydych chi'n dweud hynny?
- Ydy hi'n gweithio'n dda i'r dysgwyr? Pam ydych chi'n dweud hynny?
- Oes unrhyw agweddau o'r rhaglen Prentisiaethau sy'n gweithio'n arbennig o dda yn eich barn chi?
- Ydych chi wedi gweld unrhyw wendidau yn y rhaglen? OS DO: Allech chi ddweud ychydig bach mwy wrthyf am hyn/y rhain?

OS NAD YDYNT WEDI SÔN AM HYN:

C2 Pa mor dda yw safon y darparwyr sy'n rhoi'r hyfforddiant ar gyfer y prentisiaethau?

GADEWCH IDDYNT YMATEB YN DDIGYMELL, OND GWNEWCH YN SIŴR EU BOD WEDI SÔN AM Y CANLYNOL ...

- Perfformiad cyffredinol
- Safon yr addysgu
- Pa mor drefnus ydynt

- Cyfathrebiad
- Unrhyw feysydd (eraill) lle gallai'r darparwyr wella yn eu barn hwy

C3 A fydd cyflwyno'r Lefi Prentisiaeth yn effeithio ar y ffordd yr ydych yn defnyddio prentisiaethau? Sut?

- A fydd eich sefydliad yn gorfod talu'r lefi?

C4 OS YDYW'N BRIODOL: Sut brofiad yw gweithio gyda Phrentisiaethau Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd?

- OS YDYW: Pa effaith (os oedd un) gafodd hyn?
- OS NAD: Ydych chi wedi cymryd camau i ddiogelu yn erbyn unrhyw broblemau posibl ar draws y ffiniau?

C5 Mae'n bosib cael cymorthdaliadau i sicrhau bod prentisiaethau ar gael i gyflogwyr heb iddynt orfod talu'r ffioedd darparu hyfforddiant, neu heb iddynt orfod talu'r ffioedd llawn. Ydych chi wedi canfod bod y cymorthdaliadau yma ar gael ar gyfer y prentisiaethau yr ydych chi eisiau eu defnyddio?

- OS NAD: Beth oedd y broblem benodol?
- Sut gawsoch chi eich effeithio gan hyn?

C6 Beth yw safon y prentisiaid ar y rhaglen yn eich barn chi?

- Ydych chi wedi cael unrhyw anawsterau wrth geisio penodi prentisiaid o safon uchel?
 - Pam hynny feddylwch chi?
- O'ch profiad chi, ydych chi'n teimlo bod prentisiaethau'n denu amrywiaeth mawr o ymgeiswyr?
ANOGWCH NHW I ROI'R AMRYWIAETH YMA YN NHERMAU:
 - Rhyw
 - Ethnigrwydd
 - Oed
 - Anabledd
- Sut mae hyn yn cymharu gyda'r penodi y mae eich busnes yn ei wneud tu allan i'r rhaglen Prentisiaethau?
 - Yn nhermau safon yr ymgeiswyr?
 - Yn nhermau'r amrywiaeth o ymgeiswyr?

C7 Yn eich barn chi, pa gyfran o'r prentisiaid yr ydych yn eu penodi sy'n mynd ymlaen i gwblhau'r rhaglen?

GOFYNNWCH HYN I BAWB SYDD WEDI CAEL PROFIAD O BRENTISIAID YN YMADAEL:

- Yn eich profiad chi, beth oedd y rhesymau pam nad oedd prentisiaid wedi cwblhau eu cyrsiau?
- Oes unrhyw agweddau o'r rhaglen allai fod yn well yn eich barn chi i annog mwy o brentisiaid i gwblhau'r cwrs?

D Effaith y Rhaglen

D1 Yn eich barn chi, pa effaith mae'r rhaglen Prentisiaethau wedi'i chael ar eich busnes yn gyffredinol?

- Pa effaith mae wedi'i gael ar allu eich busnes i gynhyrchu – os oes effaith o gwbl?
- A gafwyd unrhyw effeithiau tymor hir?
- OS NAD YDYNT WEDI SŌN AM HYN YN BAROD: Ydych chi wedi gweld unrhyw effeithiau negyddol?
- Pa effaith, os oes effaith o gwbl, mae'r rhaglen wedi'i gael ar y diwydiant ehangach?

D2 Yn eich barn chi, pa effaith, os oes effaith o gwbl, mae'r rhaglen wedi'i gael ar y prentisiaid eu hunain?

HOLWCH AM:

- Ganlyniadau'r cyflogaeth / cyfleoedd i gael swydd
- Canlyniadau mwy meddal (e.e. hyder)
- Unrhyw beth arall?

D3 Ydych chi'n teimlo bod Prentisiaethau'n cynnig gwerth da am arian...?

DARLLENWCH BOB UN YN UCHEL. ANOGWCH FWY O YMATEB DRWY OFYN 'PAM YDYCH CHI'N DWEUD HYN'NY?'.

- ...i'ch busnes?
 - Pam ydych chi'n dweud hynny?
- ...i drethdalwyr?
 - Pam ydych chi'n dweud hynny?

Mae gan y rhaglen prentisiaethau yng Nghymru rai targedau pendant sydd wedi eu gosod gan y Llywodraeth a Chronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n ariannu'r rhaglen yn rhannol. Nawr rydym am ofyn i chi am y targedau yma'n benodol.

D4 I ba raddau ydych chi'n meddwl bod Prentisiaethau yng Nghymru'n codi lefelau sgiliau, yn cynnwys sgiliau perthnasol i'r swydd, y bobl hynny yn y gweithlu sydd heb sgiliau neu sydd â sgiliau isel?

- Pam ydych chi'n dweud hynny?

D5 I ba raddau ydych chi'n meddwl bod Prentisiaethau yng Nghymru'n cynyddu'r nifer o bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a sgiliau penodol i swydd ar lefel ganolradd a lefel uwch?

- Pam ydych chi'n dweud hynny?

D6 **A sut mae'r rhaglen prentisiaethau wedi cyfrannu, os o gwbl, at...**

DARLLENWCH BOB UN YN UCHEL

- ...hybu datblygiad cynaliadwy yng Nghymru?
- ...ymdrin â thlodi?
- ...wneud dysgu'n hygyrch i drawstoriad ehangach o'r gymuned?

E Y dyfodol

Nawr hoffem siarad ychydig bach am y ffordd y byddwch efallai'n ddefnyddio prentisiaethau yn y dyfodol, os o gwbl.

E1 **Yn gyntaf, ydych chi'n gweld eich busnes yn parhau i ddefnyddio prentisiaethau wrth symud ymlaen?**

OS YDYNT YN BWRIADU DEFNYDDIO PRENTISIAETHAU YN Y DYFODOL:

- Allech chi roi crynodeb byr i mi o'r ffordd yr ydych yn gweld eich busnes yn defnyddio prentisiaethau yn y dyfodol?

OS NAD YDYNT WEDI SŌN AM YR ISOD YN Y CRYNODEB, HOLWCH AMDANYNT:

- Meysydd astudio'r prentisiaethau
- Pa rolau y gallai prentisiaid symud i mewn iddynt, os oes rhai o gwbl
- Nifer y prentisiaethau, o'i gymharu â'r gweithlu cyfan
- A fyddent yn eu defnyddio ar gyfer y gweithwyr sydd ganddynt yn barod neu'n penodi rhai newydd
- Os / sut y gallai agwedd y busnes newid dros amser
- OS NAD YDYNT WEDI SŌN AM HYN YN BAROD: **Ydych chi wedi ystyried ehangu eich rhaglen prentisiaethau?**
 - Pam / pam ddim?
 - Beth yw'r prif rwystrau y gallech eu wynebu wrth ehangu eich rhaglen prentisiaethau / beth fyddai angen ei newid i'ch helpu i ehangu eich rhaglen prentisiaethau?
- A oes unrhyw feysydd o ansicrwydd wrth sôn am ddyfodol prentisiaethau yn eich busnes?
 - Pam ydych chi'n dweud hynny?

OS NAD YDYCH YN BWRIADU DEFNYDDIO PRENTISIAETHAU YN Y DYFODOL:

- Pam ddim?
- A oes unrhyw beth arall allai newid hyn?

OS YDYNT YN CANOLBWYNTIO AR BRENTISIAETHAU TECHNEGOL:

E2 **Oeddech chi'n gwybod bod prentisiaethau'n cael eu cynnig mewn meysydd fel cyfrifeg, adnoddau dynol, technoleg gwybodaeth?**

- Ydy'r rhain yn feysydd y gallech ystyried cynnwys prentisiaid ynddynt yn y dyfodol?
- Pam / pam ddim?

OS NAD YDYNT WEDI SŌN AM HYN YN BAROD:

E3 **Oeddech chi'n gwybod bod prentisiaethau ar gael ar lefel uwch a lefel gradd?**

- Ydy hyn yn rhywbeth y gallech ystyried eu defnyddio yn y dyfodol?
- Pam / pam ddim?

- E4 **Wrth symud ymlaen, os bydd prentisaethau'n cael eu symud i lefelau uwch, pa effaith fyddai hyn yn ei gael ar eich busnes?**
- Pam ydych chi'n dweud hynny?
- E5 **Ac os byddent yn newid i ganolbwyntio ar bynciau STEM – hynny ydy, Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg – pa effaith fyddai hyn yn ei gael ar eich busnes?**
- Pam ydych chi'n dweud hynny?
- E6 **Os fyddai un peth y gallech ei newid am y Rhaglen Prentisiaethau yng Nghymru, beth fyddai'r peth hwnnw?**
- Pam?
 - Pa effaith fyddai'r newid yma'n ei gael ar eich sefydliad chi? A pha effaith yn ehangach na hynny?

F Cloi

- F1 **Cyn i ni orffen, oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y rhaglen brentisiaeth neu'r gwerthusiad?**
- F2 **Fydddech chi'n barod i gyfranogi mewn mwy o waith ymchwil gan IFF Research neu Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r prosiect yma?**

DIOLCHWCH I'R YMATEBWR A CHAU'R CYFWELIAD

Yn olaf, hoffwn gadarnhau bod yr arolwg yma wedi'i gwblhau o dan gyfarwyddiadau IFF ac o fewn rheolau Cod Ymddygiad MRS. Diolch yn fawr iawn i chi am eich cymorth heddiw.

Enw:	
Teitl y Swydd:	
Cyfeiriad e-bost:	
Rhif ffôn:	